# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>17 MEDI 2018<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>17 SEPTEMBER 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 16 Gorffennaf 2018
- 18 Gorffennaf 2018 (Arbennig)

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 23 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 1, 2018/19** (Tudalennau 39 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2019/20 - 2021/22** (Tudalennau 59 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2018/19** (Tudalennau 77 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO'R CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 1, 2018/19** (Tudalennau 109 - 114)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2018/19** (Tudalennau 115 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran

151.

**10** **ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2017/18** (Tudalennau 125 - 142)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**11** **ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 143 - 152)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**12** **PROTOCOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 153 - 178)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).

**13** **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH** (Tudalennau 179 - 198)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS , Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 6)<br>Prif Swyddog Datblygu (TJ) (ar gyfer eitem 12)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Aled M. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts (o eitem 9 ymlaen), Nicola Roberts. |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees (ddim yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatgan diddordeb personol ond nid un sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 12 ar yr agenda.

### 2. MATERION BRYS A ARSYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2018 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynlaiwyd ar 18 Mehefin, 2018 fel rhai cywir.**



DRAFT

## 4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2018 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2018 fel cofnod cywir.**

## 5. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI (YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN)

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) yn cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol ar ddiwygio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni yn ymwneud ag Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol rhwng 1 Mai a 18 Mehefin, 2018.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant ar nodau ac amcanion y rhaglen moderneiddio ysgolion sy'n cynnwys gwerthuso dyfodol ysgolion a'r effeithiau ar randdeiliaid yn cynnwys plant, rhieni, staff ysgol a llywodraethwyr. Roedd yn cydnabod y gall hyn fod yn fater dadleuol ac yn dasg heriol i'r Awdurdod ac ei fod hefyd yn fater sy'n achosi pryder i rieni, sy'n ddealladwy. Fodd bynnag, yr hyn sy'n cael ei drafod yw dyfodol ysgolion dros yr 50 mlynedd nesaf o bosibl; gwasanaeth ysgolion sy'n gwegian o dan bwysau toriadau ariannol; ôl-groniad cynnal a chadw, gofynion y cwricwlwm ynghyd â nifer o faterion eraill. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth o ddifri i wneud y system ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn creu amgylchedd lle gall disgyblion ac athrawon lwyddo a hefyd er mwyn ei wneud yn fwy effeithlon fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithiol a bod ysgolion yn cael cyfran deg o'r gyllideb. Er mai Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a'r materion sy'n effeithio arnynt sydd o dan sylw yn y cyfarfod hwn, mae'r materion hynny yn ffurfio rhan o ddarlun ehangach sy'n edrych ar yr Ynys yn ei chyfanrwydd a'r Gwasanaeth Addysg ynddi.

Tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at y ffaith bod cyllideb y Gwasanaeth Addysg yn 40% o gyllideb gyffredinol y Cyngor a bod angen dod o hyd i arbedion o tua £5.2 miliwn yn y Gwasanaeth dros y 3 blynedd nesaf. Mae Addysg wedi cael ei warchod rhag y gwaethaf o'r toriadau ariannol yn y gorffennol ond does dim modd i'r sefyllfa honno barhau – mae ôl-groniad costau cynnal a chadw tua £16 miliwn. Mae'r pwysau ariannol a wynebir gan Ynys Môn a chynghorau eraill yn dod yn y pen draw o gyfeiriad Llywodraeth San Steffan a'r agenda o gynni parhaus. Mae'r Cyngor yn gweithredu ei raglen moderneiddio ysgolion er mwyn gwella canlyniadau addysgol i blant; er mwyn gwella safonau arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu ac er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n arwain o fewn y sector ym mhob ardal. Mae'r gyrwyr ar gyfer newid yn parhau i fod yr un fath; mae'r rhain wedi eu nodi yn yr adroddiad ac mae nifer o'r gyrwyr hynny yn berthnasol i'r sefyllfa hon. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at rôl yr Aelod Etholedig yn y broses o foderneiddio ysgolion sy'n gosod dyletswydd arnynt i gynrychioli eu cymunedau unigol ond hefyd dyletswydd i ystyried yr Ynys yn ei chyfanrwydd h.y. y cyfrifoldebau corfforaethol ehangach sy'n ymestyn tu hwnt i un ardal benodol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at y prif themâu a'r materion a godwyd gan randdeiliaid yn y ddwy ysgol wrth iddynt ymateb i'r broses ymgynghori ac ymateb yr Awdurdod i'r materion hynny fel y nodwyd yn adran 9 yr adroddiad. Gellir crynhoi'r materion hynny fel a ganlyn -



DRAFT

- Er bod nifer o randdeiliaid o Ysgol Talwrn yn crybwyll y safonau addysg da yn yr ysgol, mae perfformiad Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf yn y Cyfnod Sylfaen gydag Ysgol Talwrn yn y chwartel isaf yn amlach nac Ysgol y Graig. Tra bo perfformiad y ddwy ysgol yn CA2 yn debyg, yr hyn sy'n arwyddocaol yw niferoedd y disgyblion gyda chyfartaledd o 7 yn y cohort ar gyfer Ysgol Talwrn a chyfartaledd o 43 ar gyfer Ysgol y Graig.
- Mae'r ddwy ysgol wedi eu harchwilio gan Estyn yn ddiweddar gydag Ysgol Talwrn wedi ei hasesu fel Rhagorol yn erbyn un dangosydd, Da yn erbyn 12 a Digonol yn erbyn 2. Cafodd Ysgol y Graig ei hasesu fel bod yn Rhagorol yn erbyn 4 dangosydd a Da yn erbyn gweddill yr 11 dangosydd ac o ganlyniad rhoddwyd proffil arolygu cryfach i Ysgol y Graig o gymharu ag Ysgol Talwrn. Er bod y ddwy ysgol yn perfformio'n dda o ran y lefelau disgwyliedig, mae Ysgol y Graig yn llwyddiannus wrth gyflawni canrannau uchel ar gyfer lefel 5+ sy'n awgrymu ei bod yn ymestyn disgyblion yn llwyddiannus ac yn bodloni lefelau uwch na'r rhai ar gyfer Ynys Môn a Chymru.
- Mae cost y pen disgyblion Ysgol Talwrn ar gyfer 2017/18 yn £4,447 sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (£3,960) a'r cyfartaledd ym Môn (£3,972). Gellid dweud fod pob lle yn Ysgol Talwrn £475 yn ddrutach fesul disgybl a bod yr ysgol felly'n derbyn £22,325 yn ychwanegol. Mae'r gwariant fesul disgybl yn Ysgol y Graig yn £3,395 ac felly yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn. Yn ogystal, cost yr ôl-groniad cynnal a chadw yn achos Ysgol Talwrn yw £82.5k yn ogystal â £250k ar gyfer dosbarth symudol newydd yn seiliedig ar bris wedi'i roi gan brisiwr proffesiynol. Ar gyfer Ysgol y Graig, mae'r ôl-groniad cynnal a chadw yn £36.5k.
- Ym mis Medi, 2017 roedd gan Ysgol Talwrn 12% o lefydd gwag, mae hyn er gwaethaf y ffaith bod canran y disgyblion sy'n dod o du allan i'r dalgylch yn gymharol uchel ar 45% gan wneud sefyllfa'r llefydd gweigion yn fwy bregus. Yn Ysgol y Graig, roedd nifer y llefydd gwag yn 1% ym Medi 2017.

  Mae rhai ymatebion gan Ysgol Talwrn yn cyfeirio at y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig ac er ei fod yn nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, nid yw'n nodi na ddylid cau ysgolion gwledig. Mae'r Cod yn ei gwneud hi'n glir bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig ac fe gydnabyddir mai addysg yw'r brif ystyriaeth. Hefyd, nid yw Ysgol Talwrn wedi'i chynnwys ar restr ysgolion gwledig y cod drafft diwygiedig. Yn ogystal, nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ddogfen gyfreithiol ar hyn o bryd ond mae'r Awdurdod wedi ceisio mynd i'r afael â chynnwys y Cod yn ystod y broses ymgynghori hon.
- Gwnaed sylwadau am y sefyllfa draffig ger Ysgol y Graig ac y byddai cerdded i'r ysgol o bentref Talwrn yn beryglus. Codwyd y mater hefyd o blant bach yn gorfod teithio i Ysgol y Graig ar y bws. Petai'r cynllun arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gynnal a bydd yn cynnwys y siwrnai cerdded i Ysgol y Graig. Yn ogystal, os gwireddir y cynllun, ni fydd y plant o reidrwydd yn teithio i'r ysgol ar y bws ac fe allent deithio mewn tacsi. Mae plant 4 i 11 oed eisoes yn teithio i'r ysgol ar fws mewn rhannau eraill o'r Ynys.
- Roedd yr effaith bosibl ar y gymuned yn dilyn cau Ysgol Talwrn yn bryder i nifer o randdeiliaid yr ysgol. Tra'n derbyn fod hyn yn her, does dim rhaid i gau ysgol arwain at ddirywiad cymuned - gall ysgol newydd arwain at greu cymuned ehangach ac mae enghreifftiau yn bodoli lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau. Ymatebodd rhai gan nodi bod ysgolion llai yn well am greu ymdeimlad o deulu a'u bod yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad - does dim tystiolaeth bod y naill beth na'r llall yn wir.
- Ni fyddai cau Ysgol Talwrn o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon fel sydd wedi'i honni. Dengys gwaith ymchwil na fyddai hyd yn oed y defnydd o 2 fws yn cael mwy o effaith gan fod 45% o ddisgyblion Talwrn eisoes yn teithio i'r ysgol o du allan i'r dalgylch.

DRAFT

- O ran yr effaith ar yr Iaith Gymraeg, mae cryfhau a diogelu'r Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod. Bydd unrhyw gynllun am ysgol newydd yn destun i ofynion y polisi iaith ac mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurdod bod ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol Cymraeg. Ar hyn o bryd, 60% o ddisgyblion Ysgol Talwrn sy'n siarad Cymraeg o gymharu â 78% yn Ysgol y Graig sy'n golygu y gellid dadlau y byddai cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol y Graig yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg.
- Cafodd opsiynau eraill eu cyflwyno a'u hystyried. Mae'r rhain, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod iddynt wedi eu rhestru yn adran 4 yr adroddiad.
- Byddai cynnal y ddwy ysgol yn golygu y byddai angen datrys yr ôl-groniad cynnal a chadw o £369k, gyda'r potensial am gostau pellach wrth i Ysgol Talwrn ddod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Byddai adeiladu estyniad i Ysgol y Graig yn lle Ysgol Talwrn yn ddrutach ond byddai'r gost ychwanegol yn cael ei dalu'n rhannol drwy gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf o ganlyniad i werthu safle Ysgol Talwrn. Mae manylion gwerthusiad ariannol y ddau opsiwn (h.y. gwneud dim neu weithredu argymhelliad yr adroddiad) wedi eu nodi yn y tabl yn adran 10 o'r adroddiad.
- Am y rhesymau a nodwyd, y mae crynodeb ohonynt wedi'i ddarparu yn adran 12 o'r adroddiad, argymhellir y dylid cynyddi capasiti Ysgol y Graig drwy weithredu'r 3 cham a nodir yn yr adroddiad ac y dylid cau Ysgol Talwrn.

Adroddodd y Cynghorydd Aled M.Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ar gyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd 5 Gorffennaf, 2018 pryd ystyriwyd y mater hwn. Dywedodd y Cynghorydd Aled M.Jones, er na ddaeth y Pwyllgor i gonsensws ar wneud argymhelliad penodol i'r Pwyllgor Gwaith, nid oedd yn derbyn yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog ac yn fwy na hynny, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar gyfer gwella'r broses adrodd o ran cadarnhau a darparu gwybodaeth ychwanegol.

Siaradodd y Cynghorwyr Dylan Rees a Nicola Roberts fel Aelodau Lleol. Eglurodd y Cynghorydd Dylan Rees pam, yn ei farn ef, nad yw nifer o'r gyrwyr dros newid yn berthnasol i Ysgol Talwrn ac yn enwedig yr angen i leihau lleoedd gwag gan mai problem yn Llangefni yw diffyg lle. Dywedodd hefyd fod y cynnig yn groes i Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn sy'n cyfeirio at yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach. Ni fydd hyn yn bosibl os bydd Ysgol Talwrn yn cau. Amlygodd y Cynghorydd Nicola Roberts y gwahaniaeth rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig o ran gwariant fesul disgybl sy'n enghraifft o'r sefyllfa anghyfartal ar draws Ynys Môn lle mae ysgolion cynradd mwy yn colli allan yn ariannol i ysgolion llai ac mewn rhai achosion ysgolion llai effeithiol. Mae Ysgrifennydd Cabinet Addysg Llywodraeth Cymru wedi dweud bod yn rhaid i gynigion moderneiddio ysgolion ddangos y gwerth tu ôl i bob cais. Pwysleisiodd bod yn rhaid i hyn bellach fod yn rhan o'r ateb cywir i'r rhan hon o Langefni a gofynnodd am sicrwydd mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer staffio, y corff llywodraethol, traffig a pharcio, darparu meithrinfa ac integreiddio gyda'r model dau floc.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a safbwyntiau'r Aelodau lleol gan ymateb fel â ganlyn –

- Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno y dylid cefnogi'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth addysg gynradd ar Ynys Môn y mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ei hymgorffori. Nododd y Pwyllgor Gwaith bod nod y rhaglen o geisio gwella ansawdd amodau dysgu ar gyfer disgyblion a staff, gwneud y system addysg yn decach ac yn fwy effeithiol a gwneud gwell defnydd o adnoddau yn bethau i'w canmol. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod nifer o ysgolion cynradd ar Ynys Môn, yn cynnwys Ysgol Talwrn, wedi eu lleoli mewn adeiladau hŷn sydd wedi

dyddio ac nad ydynt yn gallu darparu'r amgylchedd dysgu ac addysgu a ddisgwylir gan ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod pryderon wedi cael eu codi am gynaliadwyedd cymunedau yn dilyn cau ysgol y pentref. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd na fyddai cau'r ysgol o reidrwydd yn arwain at ddirywiad cymuned e.e. Llanddeusant lle bu'r ysgol gau rhai blynyddoedd yn ôl.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod 45% (19) o ddisgyblion Ysgol Talwrn o'r tu allan i'r dalgylch sy'n gwneud y sefyllfa o rhan llefydd gwag hyd yn oed yn fwy bregus.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod materion parcio a thraffig yn achosi problemau o ran Ysgol y Graig. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd, petai'r cynllun arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, y bydd asesiad effaith traffig a pharcio yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod trefniadau ar gyfer darpariaeth parcio a theithio yn Ysgol y Graig a'r cyffiniau ac yn ôl ac ymlaen o bentref Talwrn yn ddiogel a digonol.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, petai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, y bydd asesiad effaith traffig yn cynnwys y sefyllfa draffig a pharcio ger Ysgol y Graig ynghyd â'r llwybr cerdded o Talwrn i Ysgol y Graig yn cael ei gynnal. Dywedodd y Swyddog hefyd y byddai angen i gorff llywodraethu'r Ysgol y Graig estynedig adlewyrchu'r gymuned.

  O ran delio â materion staffio, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd yr Awdurdod yn cael ei arwain gan y cyngor a ddarperir gan Adnoddau Dynol. Mae'r broses ar gyfer delio â materion staffio wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori statudol.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod diffyg capasiti yn broblem mewn perthynas ag ysgolion yn ardal Llangefni. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd fod y cynllun arfaethedig yn caniatáu ar gyfer cynnydd o ganlyniad i ddatblygiadau yn yr ardal.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) yn cyfeirio at ddatblygiadau tai yn ardal Llangefni rhwng 2011 a 206. Mae nifer o'r tai hynny eisoes wedi eu hadeiladu. Cadarnhaodd y Swyddog fod y gwir ddatblygiadau a'r rhai sydd wedi'u cynllunio wedi eu hystyried wrth ragamcanu niferoedd disgyblion yn ardal Llangefni yn y dyfodol a bod hynny wedi'i wneud gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith bod gweithredu'r cynllun arfaethedig yn debygol o greu arbedion ariannol ac oherwydd yr amgylchiadau ariannol heriol y mae'r awdurdod yn ei gael ei hun ynddynt, mae ystyriaethau ariannol yn ffactor pwysig yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach, o'r ffigyrau a nodir yn adran 10 o'r adroddiad , fod yr opsiwn Gwneud Dim, ar yr wyneb, yn ymddangos yn opsiwn gwell yn ariannol na'r opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd y bydd y cynllun arfaethedig yn sicrhau arbedion.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod arbedion refeniw yn cael eu creu gan fod rhedeg un ysgol fwy yn llai costus o ran cynnal a chadw'r adeilad a chostau ynni, mae llai o gostau rheoli (un Pennaeth yn lle dau) a gellir gosod maint dosbarthiadau ar y lefel gywir gan leihau costau athrawon. Cafodd y ffigwr o £39,450 o arbedion ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla a gytunwyd arno ar gyfer cyfrifo'r staff addysgu a dyraniad fesul disgybl yn seiliedig ar nifer presennol y disgyblion yn Ysgol y Graig a'r disgyblion o Ysgol Talwrn. Mae'r fformiwla hefyd yn dangos elfen o gyllid ar gyfer pob ysgol beth bynnag yw'r niferoedd disgyblion neu



DRAFT

staff; mae Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn derbyn yr arian hwn ar hyn o bryd (tua £8,000), lle byddai ond yn cael ei roi unwaith yn achos yr Ysgol y Graig newydd estynedig. Bydd yr estyniad arfaethedig newydd yn golygu costau; mae'r amcangyfrif o gostau ar gyfer yr estyniad newydd o gymharu â chostau presennol ysgol Talwrn wedi eu hystyried yn yr arbedion arfaethedig o £39k. Mae costau cludiant (£28k) wedi eu hystyried ar sail dau fws yn rhedeg yn ddyddiol rhwng Talwrn ac Ysgol y Graig.

Ar yr ochr gyfalaf, dywedodd y Swyddog bod disgwyl i'r Awdurdod ariannu ei gyfran o'r costau cyfalaf ar gyfer y cynllun - 50% gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'r 50% arall. Mae cyfraniad yr Awdurdod yn cynnwys benthyca a'r derbyniadau cyfalaf o werthu safle Ysgol Talwrn. Byddai'r elfen fenthyca yn cael ei hariannu dros gyfnod o 50 mlynedd ac yn cynnwys llog ar fenthyciad. Mae adeiladu estyniad i Ysgol y Graig yn lle Ysgol Talwrn yn ddrutach ond canlyniad hynny fydd adeilad addysgol newydd sbon - mae hyn yn cael ei osod yn erbyn y gost anhysbys o barhau i gynnal a chadw Ysgol Talwrn wrth i'r adeilad heneiddio, ar ben yr ôl-groniad o gostau cynnal a chadw sydd eisoes yn yr ysgol.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod dwy ysgol ardal eisoes wedi eu hadeiladu, Ysgol Cybi yng Nghaergybi ac Ysgol Rhyd y Llan yn Llanfaethlu. Yn dilyn y gwrthwynebiad cychwynnol i'r cynlluniau hyn, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gadarnhad o'r adborth o'r ddwy ysgol rŵan eu bod wedi agor.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod sylwadau yn dilyn trafodaeth â 7 o'r plant oddi ar Gyngor Ysgol Rhyd y Llan yn cadarnhau fod y saith yn hapus yn yr ysgol am amrywiaeth o resymau o fod a mwy o ffrindiau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Roedd chwech o'r saith plentyn yn teithio i'r ysgol ar y bws a heblaw am sylwadau am sŵn, roeddent yn fodlon â'r trefniant. Yn debyg iawn, ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol gan y rhai hynny a holwyd yn Ysgol Cybi gyda nifer yn nodi profiadau newydd fel nodwedd bositif o'r ysgol newydd.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio ysgolion yn dod o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gyda disgwyl i randdeiliaid e.e. awdurdodau lleol, gyfrannu 50% o gostau'r prosiect maent yn ymgeisio amdanynt. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a oedd y Swyddogion yn rhagweld amser yn y dyfodol lle na fyddai modd i'r Awdurdod gyfrannu ei gyfran o'r cyllid er mwyn gallu parhau â'r rhaglen moderneiddio ysgolion.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y cyfle i foderneiddio ac adnewyddu stoc ysgolion Ynys Môn drwy'r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn gyfle rhy dda i'w fethu; rhaid i'r Awdurdod ddod o hyd i'r cyllid er mwyn cwblhau'r broses foderneiddio sydd, wrth ddarparu ysgolion newydd a/neu ailwampio ysgolion, yn disodli adeiladau sydd mewn nifer o amgylchiadau yn hen ac wedi dyddio, yn broses gwerth ei gwneud. Yn ogystal, mae'r broses foderneiddio yn lleihau nifer y lleoedd gwag gyda hynny hefyd yn lleihau costau. Petai moddr rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gynyddu ei gyfraniad i brosiectau o dan y rhaglen yna byddai hynny i'w groesawu; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd cyfle o'r fath byth yn codi eto ac os nad yw'r Awdurdod yn cymryd mantais ohono, bydd yn rhaid iddo ddod o hyd i'r adnoddau ei hun er mwyn adeiladu ysgolion newydd yn y dyfodol.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod sicrhau bod ysgolion yn darparu'r safon uchaf bosibl o addysg yn un o'r cyfrifoldebau pwysicaf sydd gan yr Awdurdod Lleol; mae ond yn rhesymol felly bod Awdurdodau Lleol yn cael cyllid digonol er mwyn gallu cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd bod y pwysau ariannol y mae'r

Awdurdod yn gorfod gweithio oddi tanynt yn arwain at yr angen i wneud penderfyniadau a dewisiadau anodd; mae'r pwysau hyn yn ganlyniad i'r cynni ariannol sy'n cael ei orfodi gan Lywodraeth San Steffan.

Bu'r Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid grynhoi drwy ddweud bod nifer o ysgolion cynradd yr Ynys wedi eu hadeiladu o gwmpas 150 mlynedd yn ôl mewn oes lle'r oedd cerdded i'r ysgol yn rhywbeth arferol; nid yw'r ysgolion hynny bellach yn bodloni anghenion yr unfed ganrif ar hugain ac nid ydynt bob amser yn y lle cywir. Rhaid i'r Awdurdod drefnu ei ysgolion yn unol ag amgylchiadau. Mae Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn darparu cyfle i roi cynllun moderneiddio ysgolion ar waith efallai na fyddai'r Awdurdod yn gallu ei weithredu fel arall. Dywedodd yr Aelod Portffolio y derbynnir ei bod yn anffodus bod yr ysgol yn cau ac yn rhywbeth anodd i'r gymuned a effeithir; fodd bynnag, pobl ac nid adeiladau sy'n cynnal cymunedau. Hefyd, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Gwaith i ystyried buddion yr Ynys yn ei chyfanrwydd. Am y rhesymau hyn, cynigiodd yr Aelod Portffolio bod argymhelliad yr adroddiad yn cael ei dderbyn a bod Ysgol y Graig yn cael ei hymestyn er mwyn cynnwys disgyblion Ysgol Talwrn a bod Ysgol Talwrn yn cau.

Wrth gefnogi'r cynnig, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bod yn rhaid i'r bloc newydd yn Ysgol y Graig gael ei integreiddio gydag adeilad presennol Ysgol y Graig ac y dylai weithredu fel un ysgol.

**Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn.**

**Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:**

- **Ddefnyddio'r adeilad presesnnol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;**
- **Codi 'Bloc' newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef y Blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2;**
- **Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.**

**Byddai'r 'bloc' newydd yn parhau i fod yn rhan o Ysgol y Graig ac nid yn uned ar wahân.**

**Nododd Aelodau Etholedig y dylai'r trefniant newydd weithredu fel un ysgol ac nid fel dwy uned ar wahân.**

DRAFT

## 6. BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Awst, 2018 a Mawrth, 2019 ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod tair eitem newydd ar y Blaen Raglen Waith ddiwygiedig fel y nodir isod ac mai dyma'r unig newidiadau i'r rhaglen a gyflwynwyd –

Eitem 11 – Adroddiad blynyddol ar Iechyd a Diogelwch i'r ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 17 Medi, 2018.
Eitem 23 – Adroddiad Monitro Refeniw a Chyllid Cyfalaf 2018/19 ar gyfer Chwarter 3 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 18 Chwefror, 2019.

Eitem 27 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3, 2018/19 i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 25 Mawrth, 2019.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Awst, 2018 a Mawrth 2019 fel y’i cyflwynwyd.**

## 7. CYFRIFON DRAFFT TERFYNOL 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 yn cynnwys crynodeb o’r cyfrifon terfynol drafft ar gyfer 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Tynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams sylw at y ffaith ei fod yn cael ei enwi yn adroddiad ond gan fod yr adroddiad yn nodyn ffeithiol, y cyngor cyfreithiol a gafodd yw nad oedd angen iddo ddatgan diddordeb.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr archwiliad o’r cyfrifon drafft terfynol wedi dechrau ac y bydd y cyfrifon drafft terfynol wedi’u harchwilio yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ac i’r Cyngor Llawn ym mis Medi, 2018.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 y gallai’r broses archwilio achosi mân newidiadau i’r ffigyrau sydd wedi’u cynnwys yn y crynodeb o'r Datganiadau Ariannol. Cadarnhaodd y Swyddog fod y Costau Ymgynghorwyr ar gyfer Chwarter 4 wedi eu cynnwys fel rhan o’r adroddiad gan nad oeddent wedi eu hadrodd arnynt yn yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw yn ôl y drefn arferol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y canlyniadau ariannol ar gyfer 2017/18 yn dynodi fod y rhaglen o gynni ariannol parhaus yn cael effaith ar wariant cyhoeddus. Mae’r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i adnabod arbedion ond mae cydbwyso’r angen hwn â darparu cyllideb gytbwys yn dod yn fwyfwy heriol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd, er bod balansau Arian Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor wedi lleihau ar ddiwedd 2017/18 yn bennaf oherwydd yr angen i ariannu’r gorwariant ar y gyllideb refeniw, nid yw’r Cyngor yn cadw arian wrth gefn ar gyfer dibenion o’r fath h.y. fel diogelwch yn erbyn digwyddiadau neu wariant na chafodd eu rhagweld.

**Penderfynwyd –**

- **nodi’r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2017/18;**
- **nodi’r sefyllfa o ran arian wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo’r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad ;**
- **cymeradwyo’r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.513m fel a nodir yn nhabl 3 yr adroddiad;**
- **nodi’r sefyllfa o ran balansau’r ysgolion;**
- **nodi balansau’r CRT fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2018;**
- **nodi’r Costau Ymgynghori ar gyfer Chwarter 4.**

## 8. STRATEGAETH GWRTHDLODI

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor gwaith adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn cynnwys y Strategaeth Gwrth-dlodi yn dilyn ymgynghoriad.

DRAFT

Adroddodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau yr ystyriwyd y Strategaeth Gwrth-dlodi gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2018; argymhellodd y Pwyllgor Sgriwtini y dylid cadarnhau'r Strategaeth ac y dylai hefyd fod yn amcan ar gyfer pob gwasanaeth o fewn ei Gynllun Darparu Gwasanaeth. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn ddiolchgar am fewnbwn y Pwyllgor Sgriwtini a'i fod yn gweld cynnwys y strategaeth fel amcan yn y cynlluniau darparu gwasanaeth yn gryfder a fyddai'n rhoi mwy o ysgogiad i fynd i'r afael â thlodi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Strategaeth Gwrthdlodi wedi mynd drwy broses ymgynghori gynhwysfawr.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth gwrth-dlodi fel y'i cyflwynwyd**
- **Bod Gwasanaethau yn cynnwys y Strategaeth fel amcan o fewn y Cynllun Darparu Gwasanaeth yn flynyddol.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18**

Cyflwynwyd Adroddiad Drafft Blynyddol y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Adroddiad Blynyddol wedi ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2018. Cymeradwyodd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Statudol Gwasanethau Cymdeithasol mai dyma'r ail flwyddyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gynhyrchu ar y fformat presennol a bennir gan y Cod Ymarfer ac sy'n seiliedig ar chwe Safon Ymarfer. Mae'r adroddiad wedi'i anelu at gynulleidfa amrywiol yn cynnwys aelodau etholedig, y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid ac Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae'n ceisio hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Cynhaliodd y Gwasanaeth sesiwn Herio gwasanaeth a fynychwyd gan nifer ar 14 Mehefin, 2018 lle gwahoddwyd sefydliadau partner, sefydliadau trydydd sector, gofalwyr a darparwyr.

Dywedodd y Swyddog, gan gyfeirio at y Gwasanaethau Oedolion, bod cynnydd da wedi'i wneud yn 2017/18, yn enwedig wrth ail fodelu Garreglwyd yng Nghaergybi i ddarparu cymorth arbenigol i bobl hŷn â dementia sy'n galluogi'r rhai hynny sy'n dioddef o ddementia i aros yn agosach at eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bydd Hafan Cefni, y cyfleuster gofal ychwanegol yn Llangefni yn agor yn hwyrach yn 2018 a bydd yn galluogi mwy o bobl i aros yn eu cymunedau wrth i'w anghenion gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gynyddu. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi tendro ar gyfer trefniadau Gofal cartref newydd a fydd yn gwella cysondeb a mynediad i'r gwasanaeth. Mae cydweithio rhwng y Gwasanethau Cymdeithasol a Phartneriaid hefyd wedi gwella yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid Trydydd Sector.

Gwnaed cynnydd sylweddol er mwyn gwella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y flwyddyn fel sydd wedi'i gydnabod gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei lythyr dyddiedig Ionawr, 2018. Er bod nifer o elfennau yn y Cynllun Gweithredu a Gwella Ôl Arolwg bellach

yn eu lle, mae'r Gwasanaeth yn parhau ar daith o welliant a bydd yn cael ei archwilio gan AGC eto yn ddiweddarach yn 2018.

Ychwanegodd y Swyddog bod cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol i bobl Ynys Môn hefyd yn gyfrifoldeb corfforaethol ac nad yw'n gyfyngedig i'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion statudol. Mae'r Gwasanaeth wedi trefnu i holl staff y Cyngor dderbyn hyfforddiant Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol sy'n rhywbeth gorfodol ym mhob Cyngor a sefydliad cyhoeddus arall; mae 75% wedi derbyn hyfforddiant ar y lefel gyntaf sy'n cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol i bawb a oedd wedi cyfrannu at berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn boed hynny drwy gydweithio neu drwy ddarparu cefnogaeth a her; mae'r rheini yn cynnwys partneriaid y Gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth; cymunedau ar Ynys Môn, staff Gwasanethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a hefyd yr Aelodau Etholedig sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y Pwyllgor Gwaith a'r Panel Plant a'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

Adroddodd y Cynghorydd Aled M. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf 2018 wedi craffu ar yr Adroddiad Blynyddol yn fanwl ac wedi penderfynu derbyn yr adroddiad a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr Adroddiad Blynyddol a gwnaed y sylwadau canlynol –

- Bod Gwasanaethau Cymdeithasol wedi trosglwyddo i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) sy'n integreiddio gwybodaeth gofal cymdeithasol ac iechyd mewn system genedlaethol. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y gwasanaeth wedi profi problemau cychwynnol â'r system sy'n cael eu datrys drwy gymorth allanol. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd fod staff y Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn hapus â'r defnydd o'r system a bod y system yn bodloni eu hanghenion nhw ac anghenion y gwasanaeth.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol fod y WCCIS yn helpu staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan gynnwys staff Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion i gydweithio er mwyn darparu gwell gofal yn seiliedig ar un system wybodaeth genedlaethol. Fodd bynnag, gellir addasu'r system ac mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi cyflogi ymgynghorydd i weithredu addasiadau er mwyn sicrhau bod y system yn ymateb i anghenion y Gwasanaeth; mae'r broses hon wedi dechrau gyda'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a bydd yn dilyn gyda'r Gwasanaethau Oedolion.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion fod y Gwasanaeth yn gweithio drwy'r amrywiaeth o wahanol ffrydiau gwaith yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd er mwyn sefydlu sut y gellir gwneud y WCCIS yn addas ar gyfer pob elfen o'r gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau mewn modd sy'n bodloni Teulu Môn ac mae gwaith bellach yn dechrau ar yr ail gam mewn perthynas ag Amddiffyn Plant a Gwasnaethau Plant sy'n Derbyn Gofal.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y Gwasanaeth yn gweithio â'r Ymgynghorydd er mwyn sicrhau bod ffrydiau gwaith yn rhesymol er mwyn sicrhau bod y system yn galluogi'r gwasanaeth i gefnogi unigolion yn y gymuned ac i oruchwylio staff ac ar yr un pryd, yn ymwybodol o'r gwaith sydd angen ei wneud a hefyd ei bod yn hawdd cael mynediad i'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cefnogi gofal pob unigolyn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â'r Ymgynghorydd a rhagwelir y bydd materion o fewn Gwasanaethau Oedolion wedi eu datrys tua chanol neu ddiwedd yr haf. Dywedodd y

Swyddog fod y rhannau hynny o’r system a addaswyd er mwyn bodloni anghenion penodol y gwasanaeth, wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol.

- Bod y Gwasnaethau Cymdeithasol ac yn enwedig y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn profi pwysau ariannol sylweddol a’u bod wedi gorwario yn 2017/18. O ganlyniad i’r heriau ariannol, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gadarnhad am y modd y mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu sicrhau gwelliant parhaus.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gofynion deddfwriaethol a chyfreithiol mewn perthynas â phlant a theuluoedd wedi cynyddu fel y mae’r nifer o blant a phobl ifanc sydd angen gofal gan yr Awdurdod. Bydd eu hanghenion gofal yn cael eu bodloni mewn gwahanol ffyrdd e.e. lleoliadau gyda gofalwyr maeth, gyda ffrindiau a theulu ac weithiau am resymau penodol byddant yn cael eu lleoli’n all-sirol a all fod yn ddrud. Mae canran fach o bobl ifanc yn derbyn eu gofal mewn lleoliadau preswyl all-sirol ac mae’r rhain yn creu costau sylweddol. Tra bo’r gwasanaeth yn ceisio lleihau mewn modd diogel nifer y plant a’r bobl ifanc mewn gofal a leolir yn all-sirol, mae’r costau hyn yn bethau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod gan fod yn rhaid iddo fodloni anghenion y plant a’r bobl ifanc y mae’n gofalu amdanynt yn y ffordd fwyaf priodol. Mae’r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar e.e. Tîm Teuluoedd Gwydn er mwyn lleihau’r angen i blant ddod yn blant sy’n derbyn gofal a hefyd yn ceisio recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol er mwyn i blant allu aros ar yr Ynys. Mae’r Gwasanaeth hefyd yn ystyried sefydlu trefniant Cartrefi Grwpiau Bychan.

- Mae datblygu darpariaeth yn y gymuned yn ffactor pwysig er mwyn galluogi pobl i barhau i fod yn annibynnol am gyfnod hirach, gan felly leihau’r angen am ofal preswyl/gofal nyrsio. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gadarnhad o ran y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu hybiau cymunedol ar yr Ynys a’r gefnogaeth ariannol ar eu cyfer ynghyd â’r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau Gofal Ychwanegol yn Hafan Cefni a thu hwnt.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y ddarpariaeth gymunedol ynghyd â’r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn galluogi pobl i aros yn eu cymunedau. Mae Hybiau Cymunedol yn rhoi i bobl hŷn a chyfle i aros yn actif o fewn eu cymunedau drwy gymryd rhan mewn, a chyfrannu tuag at weithgareddau cymunedol. Yr un modd, mae darpariaeth Gofal ychwanegol yn caniatáu i bobl aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain lle fel arall efallai y byddai’n rhaid iddynt fod wedi mynd i ofal preswyl neu ofal nyrsio. Mae’r Awdurdod o’r farn bod y rhain yn ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o fodloni anghenion pobl hŷn. Mae’r Awdurdod wedi bod yn helpu Hybiau Cymunedol i gael mynediad i grantiau a hynny ar ffurf grantiau cyfalaf yn bennaf er mwyn addasu adeiladau; nid yw’r Awdurdod fel rheol yn rhoi cymorth grant tymor hir i Hybiau a’i fod yn hytrach, yn eu cynorthwyo i fod yn hunangynhaliol. Fodd bynnag, cafwyd achosion lle mae’r Cyngor wedi ymyrryd a lle mae hynny’n digwydd mae’n ceisio sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd cyson a theg. Disgwylir i gyfleuster Gofal Ychwanegol Hafan Cefni agor ganol mis Medi, 2018 ac mae 40 o’r fflatiau wedi eu clustnodi yn barod. Erbyn yr amser y bydd yn agor, rhagwelir y bydd y cyfleuster bron yn llawn gan gydnabod hefyd mai’r bobl a fydd yn cael eu lletya yn Hafan Cefni fydd y bobl y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni orau drwy Ofal Ychwanegol. Mae’r cyfleuster Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol yn gysylltiedig â phenderfyniad am ddyfodol Ysgol Biwmares; gellir symud y cynllun yn ei flaen unwaith y bydd penderfyniad wedi’i wneud. Mae’n fwriad ymestyn Gofal Ychwanegol ar draws yr Ynys gyda Gogledd yr Ynys yn cael ei ystyried nesaf.

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fel adlewyrchiad cywir o effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2017/18.**

## 10. GWELEDIGAETH TWF A STRATEGAETH ECONOMI GOGLEDD CYMRU: CYTUNDEB LLYWODRAETHIANT

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys Cytundeb Llywodraethiant ar gyfer y cam cyntaf o waith rhanbarthol mewn perthynas â'r Bid Bargen Twf ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cadeirydd fod holl bartneriaid y Bid Bargen Twf wedi mabwysiadu model llywodraethiant a ffefrir h.y. cydbwyllgor rhanbarthol o dan y teitl gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru; mae'r model bellach wedi'i sefydlu ac mae ar y trywydd iawn i gyflwyno Bid i'r Llywodraeth ar gyfer ceisio cael cytundeb cychwynnol yn 2018. Mae Cytundeb Llywodraethiant (GA1) wedi'i ddatblygu ar gyfer cam cyntaf y Cais Bargen Twf ar gyfer ei fabwysiadu gan yr holl bartneriaid ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod y Cytundeb Llywodraethiant bellach wedi'i fabwysiadu gan y pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Does dim disgwyl i'r pedwar coleg sy'n bartneriaid ddod i benderfyniad tan fis Medi yn dilyn cyfnod gwyliau'r haf. Rhagwelir y bydd y Cytundeb Llywodraethiant yn cael ei arwyddo ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i'r GA1 fel y model Llywodraethiant ar gyfer datblygiad a chyflwyniad y Bid twf i'r Llywodraeth. Mae creu dull llywodraethiant er mwyn gallu gwneud hyn yn un o ofynion y Llywodraeth cyn y bydd yn ystyried y Bid. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas ag ymgysylltiad arbenigwyr cyfreithiol i ymgymryd â gwaith ar y Cytundeb, cadarnhaodd y Swyddog bod y Llywodraeth angen i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn defnyddio arbenigwyr megis arbenigwyr cyfreithiol. Dewiswyd yr ymgynghorwyr cyfreithiol Pinssent Mason gan Gyngor Sir y Fflint fel y rhai mwyaf priodol i ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar ddatblygiad y GA1.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â chyfraniadau ariannol yn y dyfodol heblaw am benderfyniad ar gyfraniad pob sefydliad partner i ddatblygiad y GA1.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi a chroesawu'r cynnydd ar ddatblygu'r  Bid Bargen Twf.**
- **Bod cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethiant (Atodiad 1) yn cael ei gymeradwyo, ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau anweithredol h.y. y trefniadau sgriwtini.**
- **Bod y Cyngor Llawn yn cael drafft terfynol o'r Bid Bargen Twf ar gyfer ei adolygu a'i gymeradwyo ym Medi/Hydref 2018 cyn iddo gyrraedd cam y Penawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.**
- **Argymell bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn cydweithrediad â'r Arweinydd i gwblhau amodau'r cytundeb Llywodraethiant yn unol i raddau helaeth â'r drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn.**
- **Argymell Bod y trefniadau Gweithredol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethu'n cael eu cynnwys yn y Cyfansoddiad a gofyn i'r Cyngor cynnwys y trefniadau Anweithredol yn ymwneud â sgriwitni yn y Cyfansoddiad.**

DRAFFT

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

*Yn absenoldeb y Cadeirydd, aeth yr Is-gadeirydd i'r gadair ar gyfer yr eitem hon ac eitem 12 ar yr agenda.*

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.

## 12. DYFODOL NEUADD Y SIR, LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â dyfodol adeilad Neuadd y Sir yn Llangefni ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn nodi'r tri opsiwn sydd ar gael i'r Pwyllgor Gwaith wrth benderfynu ar ddyfodol Neuadd y Sir a nodwyd y goblygiadau, canlyniadau a risgiau ynghlwm â phob opsiwn yn ogystal ag argymell ffordd ymlaen o ganlyniad i'r opsiynau hynny.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees, Aelod Lleol ar y mater fel aelod o Gyngor Tref Llangefni.

**Penderfynwyd awdurdodi'r Gwasanaethau Eiddo i weithredu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd ar gyfer Eitemau 1 i 10)**
**Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd ar gyfer Eitemau 11 a 12)**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones (hefyd yn Aelod Lleol), R. Meirion Jones, Alun Mummery, RG Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Glyn Haynes, Aled M. Jones, Eric Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts. |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitem 2 ar y rhaglen fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llandegfan ac oherwydd bod ei wraig a'i fam yn gweithio yn Ysgol Llandegfan a chyflogaeth a'i gyfnither yn gweithio yn Ysgol Biwmares. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2017 i gynrychioli'r safbwynt lleol trwy gydol y broses ond i beidio â phleidleisio ar y mater.

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnus yn eitem 2 ar yr agenda fel aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares.

### 2. MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau Gwasanaethau) yn cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol (Ysgol Llandegfan, Ysgol Llangoed a Biwmares) ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith. Cynhaliwyd y broses ymgynghori statudol rhwng 22 Mai a 2 Gorffennaf, 2018.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid y cyflwynwyd Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, sy'n golygu buddsoddiad cyfalaf tymor hir mewn ysgolion a cholegau, yn 2013. Mae'r rhaglen yn gyfle i greu ysgolion cynaliadwy o safon



DRAFT

uchel i blant yn awr ac am genedlaethau i ddod. Ni fydd cyllid o dan y rhaglen ar gael am byth. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y materion sy'n effeithio ar y tair ysgol dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn yn rhan o ddarlun mwy sy'n cwmpasu'r Ynys gyfan a'r Gwasanaeth Addysg.

Mae'r gyllideb Addysg yn ffurfio 40% o gyllideb gyffredinol y Cyngor; mae'r Gwasanaeth Addysg yn wynebu gorfod gwneud arbedion o hyd at £ 5.2m dros y 3 blynedd nesaf. Yn ychwanegol at hyn mae costau ôl-groniad cynnal a chadw £ 16m yn yr ysgolion. Yn hanesyddol, mae'r Awdurdod wedi ceisio amddiffyn y gwasanaeth Addysg rhag y toriadau yn y gyllideb - nid yw hyn yn bosibl mwyach. Yn y pen draw, gellir priodoli'r heriau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod lleol hwn ac awdurdodau lleol eraill i'r mesurau llymder y mynnir arnynt gan Lywodraeth San Steffan sy'n arwain at lai o gyllid i Lywodraeth Cymru sydd, yn ei dro, yn effeithio ar gynghorau yng Nghymru oherwydd eu bod yn cael llai o arian o flwyddyn i flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio nad yw cau ysgol yn benderfyniad y mae unrhyw un eisiau ei gymryd; fodd bynnag, mae'r gymuned addysg ar Ynys Môn, gan gynnwys nifer o benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, wedi dweud dro ar ôl tro nad yw gwneud dim yn opsiwn. Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod yn ymwneud â gwerthuso dyfodol ysgolion a'r effeithiau ar randdeiliaid gan gynnwys plant, rhieni, staff yr ysgol a llywodraethwyr. Mae'n fater dadleuol ac yn dasg heriol i'r Awdurdod; mae hefyd yn fater sy'n peri pryder i rieni a chydnabyddir hyn. Fodd bynnag, yr hyn sy'n cael ei ystyried yw dyfodol ysgolion yr Ynys am y 50 mlynedd nesaf; gwasanaeth ysgolion sy'n gwegian dan bwysau toriadau ariannol; ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, gofynion y cwricwlwm yn ogystal â nifer o faterion eraill. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth ddifrifol i wneud y system ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn creu amgylchedd lle gall y disgyblion a'r athrawon lwyddo, a hefyd i'w gwneud yn fwy effeithlon fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod pob ysgol yn cael cyfran deg o'r gyllideb. Wrth weithredu'r rhaglen foderneiddio, mae'r Awdurdod hefyd yn ceisio gwella canlyniadau addysgol i blant; i wella safonau arweinyddiaeth ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu a hefyd i sicrhau bod ysgolion arweiniol yn y sector ym mhob ardal. Mae'r gyrwyr newid yr un peth ag y buont ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio, pan ddaw i rôl Aelodau Etholedig yn y broses hon, bod ganddynt ddyletswydd i'w cymunedau unigol ond mae ganddynt hefyd ddyletswydd i ystyried beth sydd er lles gorau'r Ynys yn gyffredinol h.y. cymryd safbwynt corfforaethol sy'n mynd y tu draw i unrhyw ardal unigol. Diolchodd yr Aelod Portffolio i bawb a oedd wedi cymryd yr amser i ymateb i, ac i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at y themâu a'r materion a godwyd gan randdeiliaid wrth ymateb i'r broses ymgynghori ac ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a wnaed; mae'r rhain wedi'u nodi yn adran 10 yr adroddiad. Gellir crynhoi'r materion hynny ynghyd ag ystyriaethau allweddol eraill fel a ganlyn -

- Mewn perthynas â safonau, roedd rhywfaint o amrywiad mewn perfformiad ar draws y tair ysgol yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae dwy ysgol (Ysgol Biwmares yn 2016 ac Ysgol Llangoed yn 2016) wedi bod yn y chwartel isaf ac mae dwy ysgol (Ysgol Biwmares yn 2017 ac Ysgol Llangoed yn 2017) wedi bod yn y chwartel uchaf. Yn seiliedig ar Dabl 1 yn Adran 10.3, gellid dadlau bod proffil canlyniadau Ysgol Llangoed ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chyfartaledd y ddwy ysgol arall. Mae perfformiad y tair ysgol yn CA2 wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ac yn gyffredinol, mae eu proffil perfformiad yn debyg (Tabl 2 yn adran 10.3)
- Mae'r tair ysgol wedi cael eu harolygu yn ystod 2014/15. Mae proffil arolygu Ysgol Llandegfan gyda graddau Da yn bennaf ac yn radd Digonol' yn gryfach nag Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed sydd â phroffiliau tebyg. Cafodd y ddwy ysgol hon eu hasesu fel Digonol yn erbyn y mwyafrif o'r dangosyddion arolygu. Mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau bod canlyniadau arolygu yn dda. Dychwelodd Estyn ar ymweliadau

monitro â Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ym Mawrth 2015 a Mehefin, 2016 yn y drefn honno. Barnwyd bod y ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd da a chafodd y ddwy eu cymryd allan o gamau monitro gan Estyn.

- Mae gwariant fesul disgybl ar gyfer 2017/18 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (£ 3,690) yn Ysgol Biwmares (£ 5,976) ac Ysgol Llangoed (£ 4,077) tra'n llai yn Ysgol Llandegfan (£ 3,589). Mae'r tabl ym mharagraff 9 o adran 10.3 yr adroddiad yn dangos bod Ysgol Biwmares yn derbyn £ 80,160 yn fwy o arian na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 - mae'r patrwm hwn wedi bodoli ers sawl blwyddyn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Ysgol Llangoed yw £ 8,190. Mae'r un cyfrifiad yn dangos bod Ysgol Llandegfan wedi derbyn £ 58,982 llai o arian na chyfartaledd yr Awdurdod .
- Mae llawer o randdeiliaid yn Ysgol Llangoed yn cyfeirio at yr ysgol fel un sydd mewn cyflwr da gyda sgôp i'w hymestyn ymhellach. Cynhaliwyd arolygon cyflwr gan syrfewyr y Cyngor o ddiwedd 2015 hyd ddechrau 2016 ac mae'r adolygiad hwn yn rhoi syniad o gost yr ôl-groniad cynnal a chadw mewn ysgolion. Y costau ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Biwmares yw £ 936k sy'n adlewyrchu ei chyflwr Gradd C (gwael gyda diffygion mawr) - mae cywirdeb y ffigur hwn wedi'i gwestiynu gan randdeiliaid. Yn achos Ysgol Llandegfan, mae cost y gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn £ 86,000 ac yn £107,000 yn achos Ysgol Llangoed. Mae Syrfewyr Siartredig y Cyngor hefyd wedi cynnal asesiad cychwynnol sy'n dangos bod tir ar gael o gwmpas Ysgol Llangoed ar gyfer ymestyn yr adeilad ymhellach.
- Mae nifer fawr o randdeiliaid yn Ysgol Llangoed yn cyfeirio at y ffaith bod gan yr ysgol lai o leoedd gwag nag Ysgol Biwmares. Roedd canran y lleoedd dros ben yn y tair ysgol ym mis Ionawr, 2018 yn amrywio. Mae Ysgol Llandegfan gyda 154 o ddisgyblion yn orlawn tra bod gan Ysgol Llangoed 20% o leoedd dros ben ac mae gan Ysgol Biwmares 72% o leoedd dros ben gyda 34 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch a 17 yn dod i Ysgol Biwmares o ardaloedd eraill. Wrth eu grwpio, mae 32% (neu 123) o leoedd gwag yn ardal Seiriol.
- Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid, gyda chymorth dirprwy neu uwch dîm rheoli, o leiaf 50% o amser di-gyswllt i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chodi safonau, addysgu a dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Yn Ysgol Llandegfan, mae gan y Pennaeth 60% o amser di-gyswllt, yn Ysgol Llangoed mae gan y Pennaeth 40% o amser di-gyswllt ac yn Ysgol Biwmares, mae amser di-gyswllt y Pennaeth yn 30%.
- Gwnaeth nifer o randdeiliaid o Ysgol Llangoed sylwadau ar yr iaith Gymraeg ac yn arbennig yr effaith bosibl a gâi cau Ysgol Llangoed a symud plant o Ysgol Biwmares ar yr iaith. O safbwynt Siarter Iaith yr Awdurdod, mae Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares wedi cyrraedd y safon arian. Mae canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref yn 20% yn Ysgol Biwmares, 43% yn Ysgol Llandegfan a 46% yn Ysgol Llangoed.
- Mewn perthynas â'r gwariant ar danwydd, Ysgol Llangoed sy'n gwario leiaf o'r tair ysgol ac chanddi hi hefyd mae'r allyriadau carbon deuocsid isaf.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu am yr effaith a gâi cau naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares ar y gymuned. Er y gall fod yn heriol, mae yna enghreifftiau lle mae cymunedau'n parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau; enghreifftiau lle mae ysgol newydd wedi creu cymuned ehangach a hefyd enghreifftiau o gymunedau ffyniannus lle nad oes ysgol, e.e. Penmynydd.
- Amlygodd nifer o randdeiliaid o Ysgol Biwmares bwysigrwydd y ddarpariaeth cyn-ysgol bresennol h.y. Little Puffins ac roeddent yn poeni y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben pe bai'r ysgol yn cau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y ddarpariaeth hon, a chyda datblygiadau o'r fath, mae cyfleusterau cyn-ysgol bob amser yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth addysg yn yr ardal. Yn y gorffennol, sefydlwyd Grŵp



DRAFT

Rhanddeiliaid wedi i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad a fyddai'n helpu i benderfynu ar ddyfodol unrhyw ddarpariaeth gyfredol.

- Roedd ymatebwyr o Ysgol Biwmares yn pryderu y byddai cau'r ysgol yn arwain at fwy o anghydbwysedd demograffig oherwydd byddai teuluoedd ifanc yn cael eu hannog i beidio â symud i'r dref; teimlwyd y bydd hyn ynghyd â'r diffyg o dai cymdeithasol yn cryfhau'r argraff mai tref i bobl sydd wedi ymddeol yw Biwmares. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cael digon o dai fforddiadwy i drigolion Ynys Môn yn un o'i flaenoriaethau ac mae'n awyddus i ddechrau gweithio ar raglen i adeiladu tai cyngor newydd ac mae eisiau clywed gan adeiladwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr a fydd yn gweithio gyda'r Cyngor i adeiladu mwy o dai mewn 10 ardal ar yr Ynys; un o'r ardaloedd hyn yw Biwmares.
- Roedd ymatebwyr o Ysgol Biwmares hefyd yn siomedig nad oedd opsiwn ar gyfer ysgol newydd sbon ar gyfer yr ardal nac opsiwn ychwaith i gadw a buddsoddi yn y tair ysgol ac yn ystyried bod ardal Seiriol yn cael triniaeth llai ffafriol nag ardaloedd eraill o'r Ynys lle gweithredwyd y rhaglen foderneiddio. Mae'r opsiwn o ysgol gynradd newydd i ddisodli'r tair ysgol yn Seiriol wedi cael ei ystyried ond nid ystyriwyd bod hwnnw'n ateb priodol i'r ardal gyda diffyg tir addas yn ffactor. Nid yw cadw'r tair ysgol yn opsiwn ymarferol o ystyried yr heriau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Pa un bynnag o'r ddau opsiwn yn yr adroddiad sy'n cael ei gymeradwyo, mae adnewyddu'r ddwy ysgol arall yn golygu buddsoddiad sylweddol er mwyn dod â'r ddau adeilad i fyny i safon ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.
- Cafodd yr opsiynau amgen a gyflwynwyd gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Biwmares eu hystyried, eu gwerthuso a'u sgorio gan yr Awdurdod; mae canlyniad y broses hon wedi'i nodi yn adran 10.5 yr adroddiad.
- Mae'r gwaith a wnaed a'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn sgil hynny, yn arwain at y casgliad bod angen i Ysgol Llandegfan oherwydd nifer y disgyblion, perfformiad cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw fod yn rhan ganolog o unrhyw drefniant newydd. Mae maint yr ysgolion, ôl-groniad cynnal a chadw, cost y pen a chanran y lleoedd gweigion yn golygu nad yw'n bosibl cyfiawnhau cadw Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ar agor. Felly, cyflwynir dau opsiwn - adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed, neu adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

Adroddodd y Cynghorydd Aled M. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, ar gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2018 a roes sylw i'r mater hwn. Dywedodd y Cynghorydd Aled M. Jones fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi clywed sylwadau ar ran Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares. Hefyd, clywodd y Pwyllgor fod Aelod Seneddol yr Ynys wedi cyflwyno llythyr yn annog yr Awdurdod i gadw'r tair ysgol ar agor nes y gellir dod o hyd i safle ar gyfer ysgol newydd ar gyfer yr ardal yn unol â'r math o fuddsoddiad a wnaed mewn rhannau eraill o'r Ynys lle mae'r ddarpariaeth addysg gynradd wedi'i moderneiddio. Cyflwynwyd tri opsiwn i'r Pwyllgor Sgriwtini - y ddau opsiwn yn adroddiad y Swyddog fel y cyfeiriwyd atynt uchod a thrydydd opsiwn, sef cynnig a gyflwynwyd yn y cyfarfod gan aelod o'r Pwyllgor y dylid cadw'r tair ysgol nes bod ysgol ardal newydd wedi'i hadeiladu. Oherwydd nad oedd y pwyllgor wedi pleidleisio ar unrhyw opsiwn a gafodd gefnogaeth fwyafrifol, ni wnaed unrhyw argymhelliad.

Siaradodd y Cynghorwyr Lewis Davies, Carwyn Jones ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol.

Roedd y Cynghorydd Lewis Davies o'r farn nad oedd yr Asesiad Effaith Cymunedol wedi rhoi sylw digonol i'r effaith y mae cau ysgol yn ei gael ar gymuned yn nhermau demograffeg a di-boblogi; teimlai fod Seiriol, fel ardal, yn disgyn y tu ôl i rannau eraill o Ynys

DRAFT

Môn o ran buddsoddiad ac adfywiad gyda'r Cyngor yn troi ei gefn ar yr ardal trwy gau a / neu drosglwyddo cyfrifoldeb am gyfleusterau presennol heb gynnig unrhyw beth yn eu lle, h.y. ysgol newydd.

Soniodd y Cynghorydd Carwyn Jones am ei siom na fyddai ateb arloesol a fyddai'n gweld cydleoli ysgol gynradd gyda'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ym Miwmares yr oedd wedi treulio llawer iawn o amser yn ei ddatblygu, wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. Gallai fod wedi bod yn opsiwn y medrai’r Pwyllgor ei gefnogi. Dywedodd fod y rhaglen foderneiddio yn beth da ac y byddai pawb eisiau gweld gwell safonau addysg a darpariaeth o'r radd flaenaf mewn ysgolion hyfyw a fyddai’n para am y 50 mlynedd nesaf. Mae'r persbectif lleol hefyd yn glir ac am weld y broses foderneiddio yn cael ei hymestyn i'r tair ysgol bresennol yn ardal Seiriol a fyddai'n gwneud i fyny am gau Ysgol Llanddona pan na fyddai unrhyw fuddsoddiad arall ar gael. Yn seiliedig ar berfformiad presennol, gallai Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares fod yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer pynciau STEM. Byddai adeiladu ysgol lai gyda phedair ystafell ddosbarth ar safle Ysgol Biwmares ar gost o oddeutu £ 744k (yn seiliedig ar farn broffesiynol) yn arian mân o'i gymharu â rhai cynlluniau moderneiddio. Byddai rhannu cyfleusterau gyda'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn arwain at lai o orbenion a llai o gostau fesul disgybl a byddai’r cysylltiad agos rhwng y plant a'r bobl hŷn o fudd i’r naill a’r llall. Byddai'n fodd i ddal gafael ar gapasiti addysg yng nghornel de ddwyrain yr Ynys yn barod ar gyfer y cynnydd posibl yn y boblogaeth yn sgîl yr holl brosiectau sydd yn yr arfaeth neu wrthi’n cael eu datblygu ar yr Ynys a'r ardal gyfagos â Wylfa Newydd, Prosiect y Grid Cenedlaethol a Bluestone i enwi ond ychydig.

Roedd y Cynghorydd Alun Roberts o'r farn bod yr ymgynghoriad ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol a oedd wedi arwain at y casgliadau a'r argymhelliad y dylai naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares gau yn arwydd o ddiffyg gweledigaeth; nid yw’n seiliedig ar sylfeini addysg cadarn ac nid yw'n caniatáu ar gyfer darpariaeth addysgol o werth a safon sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn a phreswylydd yn Seiriol i'r dyfodol. Roedd yn credu ei fod yn ddatrysiad cyflym i broblem sy’n llawr ehangach. Mae angen buddsoddi yn Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed sy'n gadael Ysgol Biwmares - sef y broblem go iawn. Dywedodd y Cynghorydd Roberts mai'r ateb a ffefrir yn lleol yw sefydlu ysgol lai ar safle presennol Ysgol Biwmares presennol a'i hintegreiddio gyda'r cyfleuster Gofal Ychwanegol. Mae hwn yn opsiwn arloesol o safbwynt economaidd, addysgol a chymdeithasol a allai hefyd fod yn gymwys ar gyfer cyllid allanol. Fel yr ysgol fwyaf poblog, Ysgol Llandegfan fyddai mam-ysgol yr ardal gydag ysgolion ategol yn Llangoed a Biwmares yn cael eu gwasanaethu gan un Pennaeth. Pwysleisiodd y Cynghorydd Alun Roberts nad yw cau Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares yn sicrhau dyfodol y llall - yn lle hynny gallai cau un ysgol beryglu’r llall wrth i rieni dewis anfon eu plant i'r ysgolion mewn man arall. Gallai'r cynigion fel y’u cyflwynir beryglu dyfodol yr ysgolion hyn yn y pen draw.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol mai'r prif sbardun ar gyfer moderneiddio ysgolion yn anad dim arall oedd codi safonau addysgol gyda'r nod o wneud Ynys Môn yn un o'r pum awdurdod lleol gorau yng Nghymru o ran addysg. Wrth lunio ei gynigion, roedd yr Awdurdod wedi ystyried y Côd Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig er nad yw'r Côd ar hyn o bryd yn ymrwymo'n gyfreithiol. Yn ogystal, roedd Estyn o’r farn bod Asesiad Effaith yr Awdurdod yn briodol. Dywedodd y Swyddog nad yw'n bosib darogan cynnydd mewn poblogaeth neu symudiadau i mewn ac allan o ardal yn gwbl gywir, ond yn seiliedig ar ddogfennau a thrafodaethau gyda Horizon sy'n rhagweld y bydd y mwyafrif o weithwyr sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd yn byw mewn ardaloedd yn ac o gwmpas y safle datblygu, mae’n bosib y bydd y cyfnod adeiladu 10 mlynedd a mwy yn dod â 230 o deuluoedd ychwanegol i’r Ynys. Fodd bynnag, byddai'n rhaid bod yna nifer fawr iawn o blant ychwanegol i ddod ag

Ysgol Biwmares i lawn gapasiti. O safbwynt gohebiaeth, er nad yw llythyrau unigol yr ymatebwyr wedi eu hatgynhyrchu'n llawn yn yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad, maent i gyd wedi cael eu hystyried a'u sylwedd wedi ei gyfleu yng nghorff yr adroddiad. Hefyd, mae pob opsiwn amgen a gyflwynwyd wedi'i ystyried a'i werthuso, ac er bod integreiddio cyfleuster ysgol a Gofal Ychwanegol ar safle presennol Ysgol Biwmares yn opsiwn deniadol (Opsiwn D yn yr adroddiad), nid yw'n goresgyn llawer o'r materion a nodwyd gan y gyrwyr ar gyfer newid. Er enghraifft, byddai'r ysgol hon yn parhau i fod yn ysgol fechan (ysgol â llai na 150 o ddisgyblion) yn ôl safonau Estyn gan arwain yn ôl pob tebyg felly at gostau fesul disgybl a fyddai'n uwch na chyfartaledd Ynys Môn a Chymru, a hynny felly'n cynnal yr anghydraddoldeb presennol o ran gwariant ar draws  ysgolion yr Ynys; byddai ganddi ddosbarthiadau oedran cymysg gan ei gwneud hi'n anoddach i godi safonau; ni fyddai gan Bennaeth ddigon o amser di-gyswllt a byddai maint yr ysgol yn ei gwneud hi'n anodd i sefydlu Tîm Arweinyddiaeth. Pe bai wedi'i ffederaleiddio, byddai'n rhaid i'r ysgol gael rheolwr safle o hyd. Mae goblygiadau diogelu hefyd i gyfleusterau a rennir. Byddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw ond byddai angen ystyried materion parcio a thraffig yn ogystal â lleoedd gweigion oherwydd nid yw'r opsiwn yn datrys y problemau hynny o ran yr ardal yn gyffredinol. O safbwynt pynciau STEM, mae adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm yng Nghymru yn disgwyl i bob ysgol ddatblygu'r pynciau hyn fel meysydd dysgu. O ran y risg i ddyfodol un ysgol trwy gau'r llall, dywedodd y Swyddog na all yr Awdurdod ragweld pa ysgol y bydd rhieni yn hanfon eu plant iddynt, p'un a yw hynny y tu mewn neu'r tu allan i'r ardal oherwydd mae hynny'n fater o ddewis rhieni.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod nifer o randdeiliaid o Ysgol Biwmares wedi cwestiynu'r costau o ran yr ôl-groniad cynnal a nodwyd ar gyfer yr ysgol, yn enwedig swm ychwanegol o £ 310k ar gyfer gwaith posibl. Dywedodd y Swyddog fod gwresogi yn yr ysgol wedi bod yn broblem ers sawl blwyddyn gan olygu y bydd angen boeler newydd rhywbryd; mae angen trwsio ac / neu adnewyddu'r lloriau, y gegin, y ffenestri, y goleuadau a'r neuadd a bod hynny, oherwydd bod yr ysgol yn adeilad rhestredig, yn debygol o arwain at gostau ychwanegol. Dyma'r gwaith sy'n arwain at y costau ychwanegol o £ 310k. Waeth am y rhain, byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Biwmares ar £ 661k yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r costau ar gyfer nifer o ysgolion eraill ar Ynys Môn.

Gan ymateb i bapur a ddosbarthwyd yn union cyn y cyfarfod a oedd yn manylu ar effaith dileu'r costau cynnal a chadw ychwanegol o £ 310k o'r ffigurau, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ei fod wedi adolygu'r cyfrifiadau gyda'r canlyniad y byddai tynnu'r £ 310k o'r hafaliad yn lleihau'r costau ariannu cyfalaf gan £10,639k. Mae'r opsiwn hwn, er ei fod yn dod â'r costau i lawr, yn parhau i gynnwys cost ychwanegol o £ 9,600. Mae'r papur hefyd yn cyfeirio at gostau cludiant gan nodi y byddai modd eu gostwng o'r £ 54k a nodir yn yr adroddiad i £ 38k wrth gau Ysgol Llangoed yn hytrach nag Ysgol Biwmares. Mae'r ffigwr o £ 54k yn yr adroddiad yn seiliedig ar redeg 2 fws o Langoed i Fiwmares bob dydd yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn Ysgol Llangoed a gwerth y contractau cludiant ysgol cyfredol.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a sylwadau'r Aelodau Lleol ac ymatebodd fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith mai un o brif amcanion yr Awdurdod wrth weithredu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw codi safonau addysg ar draws y sector ysgolion cynradd ar yr Ynys. Rhan allweddol o'r rhaglen yw sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu'r amgylchedd dysgu ac addysgu gorau posibl ar gyfer disgyblion a staff a'u bod yn gynaliadwy ac yn y lle iawn. Nododd y Pwyllgor Gwaith bod angen gwneud gwaith

cynnal a chadw sylweddol yn Ysgol Biwmares a bod cyflwr yr adeilad wedi cael ei asesu fel 'gwael'.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y dirywiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Biwmares o 189 yn 1996 i 40 ym mis Ionawr, 2018 yn sylweddol ac yn rhywbeth y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol iddo. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach fod 17% o'r disgyblion sydd yn Ysgol Biwmares ar hyn o bryd yn dod o'r tu allan i'r dalgylch a bod 103, neu 72%, o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith y rhagwelir y bydd prosiect Wylfa Newydd yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth yn yr Ynys yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu a bod y pobl leol ym Miwmares o'r farn, fel y nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai uwch swyddogion yn dymuno byw ym Miwmares a Llandegfan. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach fod uwch swyddogion sy'n symud i'r ardal yn llai tebygol o fod â phlant o oed ysgol gynradd ac y byddai angen i ganran sylweddol o deuluoedd â phlant symud i mewn i'r ardal i ddod ag Ysgol Biwmares i fyny i'w chapasiti a'i gwneud yn hyfyw. Hefyd, gall tai yn yr ardal fod yn ddrud sy'n ei gwneud yn lleoliad drud a llai deniadol i deuluoedd ifanc ymgartrefu ynddo.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod yr Aelod Seneddol wedi gofyn i'r Awdurdod ailystyried ei gynigion ar gyfer ardal Seiriol a hynny o blaid nodi safle ar gyfer ysgol newydd sbon ar gyfer yr ardal. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach fod y safle Lairds wedi cael ei grybwyll yn lleol fel safle datblygu posibl. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch a fyddai oedi i ystyried adeiladu ysgol newydd yn opsiwn realistig yng ngoleuni'r ffaith na fydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei adolygu hyd 2022 felly ni ellir ystyried unrhyw safleoedd newydd tan hynny a byddai'r broses gynllunio ac adeiladu yn cymryd amser ychwanegol. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod yr amserlenni a'r hinsawdd ariannol yn golygu bod yr opsiwn hwn yn un afrealistig. Er bod ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg wedi cael eu gwarchod yn y gorffennol, o ystyried maint y pwysau ar gyllideb y Cyngor, mae'n debygol iawn y bydd y sector cynradd a'r uwchradd yn wynebu toriadau yn eu cyllidebau y flwyddyn nesaf. Hefyd, gallai'r amserlen ar gyfer dod o hyd i dir a chynllunio ac adeiladu ysgol newydd fod yn faith a byddai â goblygiadau i ardaloedd eraill dan y rhaglen foderneiddio. Rhaid gweithredu'r rhaglen yng nghyd-destun yr hyn sydd er lles addysg ledled Ynys Môn yn gyffredinol, ac nid trwy drin ardaloedd unigol ar eu pennau eu hunain.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith mai un opsiwn a gyflwynwyd sy'n cael ei gefnogi yn lleol yw cyfuno darpariaeth addysgol gyda'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ar safle presennol Ysgol Biwmares. Wrth geisio eglurhad ynghylch a fyddai'r model hwn yn ymarferol mewn perthynas â darpariaeth feithrin, er enghraifft, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith nad oes modd anwybyddu'r pwysigrwydd a rydd y gymuned ar ddarpariaeth cyn ysgol e.e. Little Puffins a bod rhaid rhoi sylw i hynny. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod potensial yn ardal Seiriol i fanteisio ar ddylanwad Cwlwm Seiriol er enghraifft, i ddod o hyd i atebion ymarferol ar gyfer y gymuned a allai gynnwys dod â'r cenedlaethau ifanc a hŷn at ei gilydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod yr Awdurdod yn cydnabod y bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r angen am ddarpariaeth cyn-ysgol, meithrin a gofal plant yn ardal Seiriol, pa bynnag ffurf y bydd y ddarpariaeth hon yn ei chymryd a chydnabyddir hynny yn yr adroddiad.

Dygodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod un ymatebwr wedi ei chael hi'n anodd ymateb drwy'r arolwg ar-lein a gofynnodd am sicrwydd bod y broses ymgynghori yn ardal Seiriol wedi'i chynnal yn yr un modd â'r broses ar gyfer ardaloedd eraill. Cadarnhaodd

DRAFT

y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y broses ymgynghori wedi cael ei chynnal gan ddefnyddio'r un trefniadau a fformat ag ar gyfer ymgynghoriadau blaenorol mewn ardaloedd eraill. Cytunwyd, yn y dyfodol, y bydd rhif cyswllt ar adroddiadau ymgynghori rhag ofn y bydd unrhyw ymatebwyr yn cael trafferth i gyflwyno eu hymateb.

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid gloi’r drafodaeth drwy ddweud bod yr ymatebion o'r ardaloedd hynny ble yr oedd y broses foderneiddio eisoes wedi cael ei gweithredu wedi bod yn gadarnhaol. Mae'n rhaid i'r system addysg yn Ynys Môn fod yn deg a rhaid sicrhau na chaiff unrhyw ysgolion eu hariannu ar draul eraill. Mae cymunedau'n ffynnu oherwydd pobl ac nid oherwydd adeiladau. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod yn rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ffeithiau gan ystyried yr hyn sydd er budd tymor hir yr Ynys gyfan. Gall y penderfyniadau hynny fod yn anodd ac yn annymunol ar adegau. Mae'r casgliadau o ran y broses ymgynghori ar foderneiddio addysg gynradd yn ardal Seiriol fel y'u nodir yn adran 13 yr adroddiad yn glir; maent yn arwain yn anffodus i'r casgliad mai Opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf ymarferol. Cynigiodd yr Aelod Portffolio y dylai’r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo Opsiwn 1.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo Opsiwn 1, sef adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**
- **Bod trafodaethau gyda grwpiau gofal plant cyn-ysgol – “Little Puffins” a Ti a Fi - yn cael eu cynnal yn fuan i weld pa fath ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol sydd ei hangen yn yr ardal.**
- **Bod Cwlwm Seiriol yn cael ei gynnwys yn y Grŵp Rhanddeiliaid ôl-penderfyniad fydd yn cael ei sefydlu.**

*(Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddiddordeb ac ni chymerodd ran yn y bleidlais ar y mater).*

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**



DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2018 - Mai 2019;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2018 - Mai 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Hydref 2018 – Mai 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2018** | | | |
| 1 | **Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Hydref 2018 - I'w gadarnhau | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 3 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18)**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | 30 Hydref 2018 |

Tudalen 27

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 5 | **Newid i'r Cyfansoddiad – Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**<br><br>Argymell bod y Cyngor Sir yn derbyn y Cylch Gorchwyl diwygiedig, yn dilyn diweddariad i ganllawiau CIPFA. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Adnoddau / Busnes y Cyngor | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151 / Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth - Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Robin Wyn Williams<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | Cyngor llawn<br><br>30 Hydref 2018 (i'w gadarnhau) |
| 6 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Côd Ymddygiad Swyddogion / Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion** | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth - Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | Cyngor llawn<br><br>11 Rhagfyr 2018 |

Tudalen 28

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Sefydlu Bwrdd a Chyfundrefn Draenio Cynaliadwy** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 8 | **Rheoli Gwastraff – Penodi Rheolwr Prosiect dros dro** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br><br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| 9 | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol Cyfunedig – Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br><br>Cymeradwyo achos busnes (ASA/ABA) cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

Tudalen 30

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2018** | | | | | | |
| 10 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>7 & 14 Medi 2018<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| 11 | **Premiwm y Dreth Gyngor**<br><br>Adolygiad yn dilyn gweithredu'r Premiwm am flwyddyn llawn | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| | | | | | | | |
| 12 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 14 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 15 | **Polisi Gamblo**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y dylid cymeradwyo'r polisi**.** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | 11 Rhagfyr 2018 |
| **Rhagfyr 2018** | | | | | | | |
| 16 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 31

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018



| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>12 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 18 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>26 Tachwedd 2018<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>w/c 3 Rhagfyr 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| | | | | **Ionawr 2019** | | | |
| 19 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Ionawr 2019 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2019** | | | | | | | |
| 20 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 21 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 22 | **Ffioedd a Thaliadau 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 23 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu polisi newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 25 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 26 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 27 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 29 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2019/20** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| | | | | | | | |
| 30 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| **Mawrth 2019** | | | | | | | |
| 31 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 33 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant (Dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 34 | **Moderneiddio Hamdden** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2018 – Mai 2019

Diweddarwyd 6 Medi 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2019** | | | | | | | |
| 35 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| **Mai 2019** | | | | | | | |
| 36 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2019 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2018/19)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>FFÔN:<br><br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2017/18.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

***1.3.1*** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 2.*

***1.3.2*** *Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch2 ac Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.*

***1.3.3*** *Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

| |
|---|
| ***1.3.4*** *Y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac atgoffa'r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.*<br><br>***1.3.5*** *Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.*<br><br>**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. |
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Amherthnasol |
| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydi |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau** |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 28 Awst ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylchedd** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2018/19 a'r Cerdyn Sgorio |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2017/18 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2017 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2018/19)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo'n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â'r ffrwd waith sy'n nodi ac yn rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.3 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni (yr un modd â blynyddoedd blaenorol) eu penderfynu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â'r dangosyddion a oedd, yn eu barn nhw, yn bwysig.


1.4 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch1 a bydd (ynghyd â'r adroddiad) yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

**2.1** Hon yw'r chweched flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA /y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar ddarpariaeth weithredol.

**2.2** Ceir tystiolaeth o'r effaith honno'n chwarterol a chan ein perfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y MAC.

**2.2.1** Mae'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC), sef cyfres o ddangosyddion sy'n mesur perfformiad yn genedlaethol wedi cael eu cyhoeddi gan Data Cymru am 2018/19. O'r dangosyddion a gyhoeddwyd (ni fydd y dangosyddion ar gyfer Rheoli Gwastraff, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu rhyddhau tan ddiwedd mis Hydref) mae perfformiad blwyddyn ar flwyddyn y Cyngor wedi gwella mewn perthynas â 50% o'r dangosyddion sydd ar gael ac wedi dirywio mewn perthynas â 35.7% ohonynt. Roedd y 14.3% a oedd yn weddill yn ddangosyddion newydd ac o'r herwydd, ni fedrir eu cymharu. (Siart 1)




Siart 1

**2.2.2** O'r data a gyhoeddwyd, mae gan y Cyngor 5 dangosydd yn y Chwartel Uchaf (ymhlith y 6 Cyngor gorau yng Nghymru), 5 yn y Chwartel Canolrifol Uwch (rhwng y 7fed a'r 11eg safle), 5 yn y Chwartel Canolrifol Is (rhwng y 12fed a'r 16eg safle), a 3 yn y Chwartel Is (rhwng yr 17eg a'r 22ain safle). Yn achos y dangosyddion MAC sy'n cael eu tracio yn y Cerdyn Sgorio, gellir gweld eu safleoedd yn chwarteli 2017/18 yn y golofn ddiwethaf.

**2.2.3** Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad cyffredinol drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gaiff ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**2.2.4** Mae'r targedau ar gyfer y dangosyddion MAC sy'n cael eu tracio'n chwarterol eisoes wedi cael eu haddasu ble yr oedd angen gwneud hynny. Bydd y targedau ar gyfer y dangosyddion MAC nad ydynt wedi eu cyhoeddi hyn yma yn cael eu hadolygu yn ystod Ch2 a Ch3 unwaith y bydd y canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi a byddant ar gael ar ddiwedd mis Hydref.

**2.3** Mae'n bwysig nodi y cafwyd cais i gynnwys yr isod wrth lunio'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni –

**2.3.1** Ychwanegu'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol MAC (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) newydd;

**2.3.2** Bod y rhan o'r adroddiad ar Wasanaethau Cwsmer sy'n ymwneud ag ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen yn cael ei rhannu'n ddwy –

- Cwynion Corfforaethol a
- Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

**2.3.3** Yn ychwanegol at hyn, mae nifer y taliadau a wnaed dros y we a'r ffôn hefyd wedi cael eu rhannu'n ddwy er mwyn monitro dulliau talu yn ofalus gyda'r nod o sefydlu a yw nifer y taliadau dros y ffôn yn gostwng a'r nifer a wneir dros y we yn cynyddu o ganlyniad i'r symudiad tuag at ddewis ehangach o sianelau digidol.

## 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Ar ddiwedd Ch1, mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Mae hyn yn beth da ac

yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa yr oeddem ynddi yn ystod Ch1 2017/18. Wedi dweud hynny, rydym yn nodi bod 2 ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol am y flwyddyn ac mae'r rhain wedi ei hamlygu'n Goch neu'n Ambr.

**2.4.2** Mae un o'r dangosyddion hyn yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac roedd yn Goch ar ddiwedd Ch1 –

(i) 04) PM28 – Y targed ar gyfer Ch1 o ran yr amser ar gyfartaledd yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn (dyddiau) oedd 320 o ddyddiau ac mae'r perfformiad ar gyfer Ch1 yn 350 o ddyddiau ar gyfartaledd. Roedd hyn yn cymharu hefyd â pherfformiad o 326.5 o ddyddiau ar ddiwedd Ch1 yn 17/18.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â nifer fach o blant. Bydd adegau pan fydd angen i blant aros ar y gofrestr amddiffyn plant ac mae'n bwysig nodi, er bod hyn yn cael ei ystyried yn goch yn erbyn ei tharged, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchiad ar ymarfer gwaith cymdeithasol o fewn yr adran gan ei fod hefyd yn cynnwys ffactorau cysylltiedig eraill e.e. gorchmynion llys a.y.y.b.

Er hyn, yn ystod Ch1, bu gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac er mwyn gwella ymhellach ar y safonau hyn yn ystod Ch2, awgrymir y dylid cymryd y mesurau lliniaru a ganlyn -

- Bydd achosion yr holl blant sydd wedi bod ar y gofrestr am 10 mis neu fwy yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rhagwelir y bydd y weithdrefn fewnol newydd hon yn arwain at ostyngiad yn y nifer yn y dyfodol ac yn dangos yn glir bod y risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n ddigonol fel y gellir eu tynnu oddi ar y gofrestr neu eu rhoddi arni pan fydd angen.

**2.4.3** Yr unig ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a oedd wedi tanberfformio yn ystod Ch1 ac a oedd yn Goch yn erbyn ei darged oedd –

(i) 11) PM20a – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi ac o oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd perfformiad yn yr achos hwn yn 0% ar ddiwedd Ch1 yn erbyn targed o 50%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion (3) ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch1, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi a ddarparwyd gan y gwasanaeth, darparwyd mwy yn hytrach na llai o ofal ar gyfer yr unigolion hynny. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Oherwydd y nifer fechan o achosion, nid oes arwyddocâd ystadegol i'r data hwn ar hyn o bryd a pharheir i'w fonitro dros Chwarter 2 a 3.

**2.4.4** Mae'r dangosyddion gweddilliol yr adroddwyd arnynt yn yr adran rheoli perfformiad ar gyfer Ch1 oll yn **WYRDD** neu'n **FELYN** ac yn gwneud yn dda o gymharu â'u targedau.

**2.4.5** O'r holl ddangosyddion a amlygwyd fel rhai Coch neu Ambr ar ddiwedd of 2017/18 (8), mae'n galonogol gweld bod 5 o'r 6 y gellir eu tracio yn ystod Ch1

y flwyddyn gyfredol, wedi gwella o ran perfformiad a dim ond un dangosydd sydd ar hyn o bryd yn tanberfformio. Mae'r 5 dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yr unig ddangosydd sy'n parhau i danberfformio yw PM28 ac mae hwnnw wedi cael ei drafod uchod ym mhwynt 2.4.2.

**2.4.5.1** Ar nodyn cadarnhaol, gellir adrodd bod dangosydd SCC/025, a oedd yn Goch ac yn tanberfformio drwy gydol 17/18 wedi gwella ac yn ymddangos yn Felyn ar y cerdyn sgorio ar hyn o bryd gyda pherfformiad o 78% yn erbyn targed o 83%. Mae hyn yn welliant ar y perfformiad yn ystod Ch1 llynedd (17/18), sef 59.93%. Er nad yw'r DP yn cyrraedd y targed a osodwyd gan y gwasanaeth, mae'n ddangosydd cadarnhaol ac yn dangos bod newidiadau a wnaed yn y gwasanaeth ac a gefnogwyd gan yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith yn dechrau cael effaith ar berfformiad.

**2.4.5.2** Mae tystiolaeth bellach o welliant ym mherfformiad y Gwasanaethau Plant yn erbyn dangosyddion perthnasol i'w gweld yn yr 'Adroddiad Gwaith ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd' a gyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod Medi, 2018.

**2.4.6** *Er mwyn cynnal a gwella ein perfformiad a'n statws cenedlaethol fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell –***

**2.4.6.1** Bod targedau'n cael eu hail-asesu yn ystod Ch2 a Ch3 yn dilyn cyhoeddi'r data cymharol cenedlaethol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.


**2.4.7** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn GOCH mae'n bwysig nodi bod y materion hyn yn cael eu rheoli a'u tracio drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

## 2.5 RHEOLI POBL

**2.5.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'r nod o wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.5.2** Un maes ble gellir tracio rheolaeth yw salwch. Ar ddiwedd Chwarter 1, nodir bod cyfraddau salwch y Cyngor (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan reoli pobl)* sef 2.69 o ddyddiau fesul ALlC yn ystod y misoedd rhwng Ebrill a Mehefin yn dangos dirywiad o gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18, sef 2.23. Fodd bynnag, mae cystal â chanlyniadau 2016/17 ble yr oedd perfformiad yn 9.78 o ddyddiau fesul ALlC ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.5.3** Caiff y canlyniad rhagamcanedig hwn ei ddangos gyda'r llinell goch doredig yn Nhabl 1 isod:




Tabl 1

**2.5.4** Er mwyn gwella'r rhagamcan hwn erbyn diwedd y flwyddyn ac er mwyn cwrs â'n targed corfforaethol blynyddol o 9.75, mae targedau'r gwasanaethau wedi cael eu haddasu ar gyfer y flwyddyn nesaf a hynny'n seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol.

Gellir gweld y rhain yn Nhabl 2 isod:

| Gwasanaeth | Targed 2018/19 |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 13.75 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 10.75 |
| Busnes y Cyngor | 7 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 8 |
| Tai | 9.25 |
| Dysgu | 9.5 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 8.75 |
| Adnoddau | 7 |
| Trawsnewid | 7 |


Tabl 2

**2.5.5** **Pwynt i'w nodi** – Os bydd yr holl wasanaethau'n cwrdd â'r targedau uchod, yna bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged ar gyfer absenoldeb salwch, sef 9.75 o ddyddiau fesul ALIC. Yn seiliedig ar ffigyrau 17/18, byddai hyn yn golygu y

byddai perfformiad y Cyngor yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cynghorau Cymru, sef 10.41 o ddyddiau o salwch fesul ALIC.


**2.5.6** Dengys dadansoddiad manylach o berfformiad y gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn yn Ch1 fod 2 o wasanaethau yn tanberfformio o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter, sef:

**2.5.6.1** Gwasanaethau Oedolion – lle gwelir perfformiad o 3.39 o ddyddiau o salwch fesul ALIC yn erbyn targed o 2.78 o ddyddiau fesul ALIC yn ystod Ch1. Y prif reswm am y tanberfformiad yn Ch1 yw nifer fawr o achosion o salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu. Mae'r achosion hyn yn cyfateb i 634 o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch yn Ch1. Mae hyn yn cyfateb i 49% o gyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yn y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.




Tabl 3

**2.5.6.2** Dysgu – COCH – 2.99 o ddyddiau o salwch fesul ALIC (Targed 2.45). Y prif reswm am y tanberfformiad hwn oedd lefelau salwch yn yr Ysgolion Cynradd (dangosydd 04 ar y cerdyn sgorio). Yr un modd â'r Gwasanaethau Oedolion, gellir priodoli hyn yn bennaf i salwch tymor hir, gyda 1255.5 o ddyddiau wedi eu colli fesul ALIC. Gellir priodoli 69% o'r lefelau salwch yn y gwasanaeth Dysgu yn ystod Ch1 i'r ysgolion cynradd.





Tabl 4

**2.5.7** Ar ddiwedd Chwarter 1, ymddengys fod patrwm o salwch tymor hir ar draws Gwasanaethau'r Cyngor gyda chyfanswm o 56% o ddyddiau wedi eu colli oherwydd salwch tymor hir. Mae'r rhesymau am hyn yn niferus ac gallent amrywio o lawdriniaethau i straen a chancr.

**2.5.8** Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae cysylltiad rhwng cyfraddau salwch yn y Cyngor a gwaith 'rheoli' salwch. Rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff â pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio)*.

**2.5.9** Mae'r Cyngor yn parhau i graffu'r arferion hyn yn rheolaidd ar draws ei wasanaethau ac erbyn diwedd Ch1, roedd perfformiad yn gadarnhaol, sy'n welliant o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Gweler tabl 5.




Tabl 5

***2.5.10 O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –***

***2.5.10.1*** *Y dylid defnyddio data salwch yn barhaus i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal panelau herio salwch yn y gwasanaethau yn ystod 2018/19, sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o ran rheoli salwch.*

## 2.6 GWASANAETH CWSMER

**2.6.1** Yn ystod Ch1, defnyddiwyd technoleg AppMôn i gyflwyno 905 o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 85% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan.

**2.6.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor ac roedd y ffigwr yn 4290 ar ddiwedd Ch1. Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei gweddnewid yn ystod y flwyddyn ac am y rheswm hwn, disgwylir y bydd nifer y defnyddwyr cofrestredig yn cynyddu wrth i fwy a fwy o ffurflenni ddod ar gael ar lein a chyda dyluniad sy'n

canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Gyda'r dyluniad newydd hefyd, rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y taliadau a wneir ar y we.

**2.6.3** Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch1 i 27k. Mae hyn wedi ei rannu rhwng Facebook (12k o ddilynwyr) a Twitter (14k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn cynyddu gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor. Mae'n cael effaith hefyd ar faich gwaith tîm corfforaethol bychan sy'n monitro ac yn ymateb i'r presenoldeb hwn ar y cyfryngau cymdeithasol.

**2.6.4** O ran rheoli cwynion gan gwsmeriaid, roedd 13 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch1 o gymharu â 20 yn Ch1 17/18. Mae'r gwasanaeth wedi gwella yn enwedig o nodi fod y cyfan o'r cwynion a oedd angen ymateb erbyn diwedd Ch1 (12) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen ofynnol. O'r cwynion hyn, ni chadarnhawyd 8 ohonynt, cadarnhawyd 3 yn llawn, (Adnoddau [1], Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff [1], a Thai [1]) ac fe gadarnhawyd 1 yn rhannol (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff [1]. Mae hyn yn arwydd unwaith eto ein bod yn flaengar yn ein hymagwedd tuag at ddelio gyda chwynion a'n bod yn eu defnyddio mewn modd rhagweithiol i wella pethau.

**2.6.5** O ran y gwasanaethau cymdeithasol, cafwyd 1 Gŵyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion) a 9 o Gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [5], Gwasanaethau Oedolion [4]) yn ystod Ch1. O'r cwynion hyn, ymatebwyd i 56% ohonynt (Coch ar y cerdyn sgorio) o fewn yr amserlen gyda 4 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant [3] a Gwasanaethau Oedolion [1]). Er nad oedd y Gwasanaethau Plant wedi anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen yn achos 3 o'r 5 Cwyn Cam 1, roedd trafodaeth wedi cael ei chynnal gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen yn achos 4 o'r 5 (80%).

**2.6.6** Roedd canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt yn 80.5% ar ddiwedd Ch1 o gymharu â 78% ar ddiwedd 2017/18 sy'n welliant yn y gyfradd ymateb. Cafwyd cyfanswm o 287 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (cyfanswn o 2042 cwestiwn) yn Ch1 a 56 o ymatebion hwyr. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cyfateb i 32% o'r ymatebion hwyr (43% o'r 42 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 29% (32% o'r 50 a dderbyniwyd gan y gwasanaethau ac Adnoddau gyda 12.5% (13% o'r 55 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth). Mae ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig ac yn gwella ac mae'r UDA a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd.

***2.6.7 O'r herwydd mae'r UDA yn argymell –***

***2.6.7.1*** *Fod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant ail-asesu eu system rheoli cwynion er mwyn gwella nifer yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol.*

## 2.7 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.7.1** Ar ddiwedd Chwarter 1, rhagwelir gorwariant o £1.744m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn debyg iawn i'r gorwariant yn 2017/18. Mae £2.454m o hyn ar gyllidebau gwasanaethau sy'n cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau yn debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

**2.7.2** Disgwylir tanwariant o £0.412m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a rhagwelir y bydd y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, yn casglu gwarged o £0.298m. O'r herwydd, bydd cyfanswm y tanwariant yn gostwng i £1.744m. Mae lefel ragamcanedig y gorwariant yn 1.33% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch yr effaith a gaiff y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol os bydd yn digwydd.

**2.7.3** Er y gellir cyllido'r lefel hon o orwariant o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn 2018/19, bydd yn gostwng lefel y gronfa honno i ffigwr sydd ymhell islaw'r swm a dderbynnir yn gyffredinol fel y lleiafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2018/19, bydd angen cyllido'r gorwariant a chychwyn ar broses o roi arian yn ôl i mewn i'r balansau cyffredinol. Mae'r ymagwedd hon yn un ddarbodus ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**2.7.4** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd craffu rheolaidd gan yr UDA a chamau lliniaru gan Benaethiaid Gwasanaeth o gymorth i'r gwasanaethau reoli'r cyllidebau y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**2.7.5** O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

**2.7.6** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant yn ystod Ch2.

**3.1.2** Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch2 ac Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.

**3.1.3** Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.

**3.1.4** Y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant ail-asesu eu system ar gyfer rheoli cwynion yn ystod y chwe mis nesaf er mwyn gwella'r ganran o ymatebion ysgrifenedig i gwynion sy'n cael eu darparu o fewn yr amserlen.

**3.1.5** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 13 | 18 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | ↑ | 1 | | 9 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↑ | 4 | | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 56% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 9 | | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 22 | | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | | 135 | | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | | 81% | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | | 287 | | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | - | 4290 | | - | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 905 | | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 3.5k | | 11k | |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 1.8k | | 5k | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 27k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 209k | - | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2266 | - | 2252 | 2258 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1263.00 | - | 1244 | 1250 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↑ | 2.69 | 2.4 | 9.96 | 9.78 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.17 | - | 4.63 | 4.72 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.52 | - | 5.32 | 5.06 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 3.78 | 2.45 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.7 | - | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.08 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.18 | 2.45 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.13 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.06 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 80% | 73% | 78% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↑ | 86% | 95% | 85% | 91% |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 69% | 57% |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 11% | 10% |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 90.50% | 80% |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 91.40% | - |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↓ | 13 | - | 12 | 15 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | | £34,868,218 | £35,762,826 | 2.57% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | | £130,899,873 | | | £132,646,393 | 1.33% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | £44,539,000 | | | £22,071,000 | -50.45% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | | £2,521,500 | | | £2,386,500 | -5.35% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | | -£5,268,266 | -£5,351,667 | 1.58% | | |
| 06) Swm a fenthycwyd | | | £9,317,000 | | | £5,847,000 | |
| 07) Chost benthyca | | | £4,491,593 | | | £4,168,876 | -7.18% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Gwyrdd / Green | | | 92.20% | | | |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 98.60% | | | |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 98.60% | | | |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.50% | | | |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | | | 99.77% | | | |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | | | 99.54% | | | |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tueddiad / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result | Chwartel 17/18 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.65% | 2.75% | 11% | 9% | 5% | TBC Hydref / October |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.39% | 90% | 90% | 67.57% | 89.17% | TBC Hydref / October |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 83% | 83% | 63.32% | 79.35% | TBC Hydref / October |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | ↓ | 350 | 320 | 320 | 326.5 | 266 | TBC Hydref / October |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Gwyrdd / Green | | 11.87% | 15% | 15% | - | - | TBC Hydref / October |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | | 96% | 94% | 94% | - | - | TBC Hydref / October |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.29 | 3 | 3 | 6.58 | 6.05 | TBC Hydref / October |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 93% | 93% | 93% | 96% | 94.40% | TBC Hydref / October |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 16.51 | 19 | 19 | 17.44% | 20.51% | TBC Hydref / October |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 90% | 90% | 93.25% | 90.48% | TBC Hydref / October |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | ↓ | 0% | 50% | 50% | 59.26% | 62.60% | TBC Hydref / October |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 60.34% | 62% | 62% | 62.65% | 33.30% | TBC Hydref / October |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (17/18) | Melyn / Yellow | ↓ | 94.42% | 94.80% | 94.80% | 94.80% | | TBC Rhagfyr / December |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (17/18) | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.40% | 94.60% | 94.60% | 94.60% | | Uchaf / Upper |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↑ | 75.07% | 74% | 72% | 72.2% | 65.8% | TBC Hydref / October |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | | 0.13 | 1 | 1 | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | | | 61kg | | 210kg | - | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth | Gwyrdd / Green | | 131k | 111k | 515k | 508k | 464k | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↓ | 97% | 95% | 95% | 98% | 98% | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 90% | 90% | 90% | 86% | - | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 65% | 65% | 47% | - | Isaf / Lower |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 78% | 50% | 50% | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 88% | 80% | 80% | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 56.75% | 55% | 55% | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 24 | 16 | 75 | 75 | - | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 2 | 1 | 4 | 4 | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 156.4 | 175 | 175 | 177 | 238.8 | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | | 11.96 | 12 | 12 | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | | 100% | 100% | 100% | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | Isaf / Lower |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 3% | 3.20% | 2.30% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 5% | 4.40% | 3.20% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 10% | 8.90% | 10.10% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch wedi llithro i Mawrth 2019<br><br>Mae gwaith adnewyddu **Ysgol Brynsiencyn** yn digwydd dros gyfnod yr haf |
| | **Llangefni** | **Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir a Ysgol Henblas**<br>Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus.<br><br>**Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**<br>Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. |
| | **Seiriol De Ddwyrain** | Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith oedd i gymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed. |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae cynnydd da yn cael ei wneud efo'r gwaith adeiladu. Mae'r trosglwyddo wedi llithro hyd at ddiwedd mis Medi gyda thenantiaid yn gallu symud i mewn ddechrau mis Hydref. |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr Adran Dai i edrych ar anghenion tai yn fwy eang o fewn yr ardal sydd yn cynnwys ystyried TGY. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.<br><br>Nawr bod penderfyniad wedi'i gytuno mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, bydd datblygiad y safle yn cael ei adolygu. |
| | **Tai a chefnogaeth mewnol** | Bwriad newydd y prosiect ydi i gadw'r gwasanaeth yn fewnol i'r Cyngor ond i ailfodelu er mwyn sicrhau arbedion ariannol. |
| | **Tai a Chefnogaeth Allanol** | Bwriad y prosiect fydd i ailfodelu ac ail ddylunio'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad agos gyda gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | Mae'r gwaith tendr wedi cwblhau. Contractau newydd mewn lle erbyn diwedd Ch1 2018/19 gyda chyfnod pontio wedi hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion– Hysbysebiad yn y cylchgrawn arbenigol yn Mehefin 2018 i geisio denu diddordeb masnachol.<br><br>Carchar a Llys Biwmares – Gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor tref Biwmares ar amserlen i drosglwyddo'r asedau i Cyngor Tref Biwmares erbyn Hydref 2018 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Gweithio ar y broses ail strwythuro staff i fod mewn lle erbyn Ch2<br><br>Gweithio ar y broses o drosglwyddo'r llyfrgelloedd cymunedol yn Biwmares a Rhosneigr<br><br>Mae llyfrgelloedd Moelfre ac Niwbwrch nawr wedi cau.<br><br>Bydd Cemaes yn parhau ar agor am y flwyddyn ar ôl i'r gymuned leol gytuno ar gyllid i barhau â'r ddarpariaeth llyfrgell dros y tymor byr |
| | **Market Hall** | Mae'r prosiect ar ei hol hi a mae'r dyddiad cwblhau nawr yn Rhagfyr 2018. Mae materion Cyllidol yn gysylltiedig gyda arian ERDF wedi gohirio'r prosiect. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | Mae'r bwrdd Sipsiwn a Theithwyr yn adolygu'r amserlen ar gyfer y prosiect yn Ch1 18/19. Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y safle Star ond mae'r penderfyniad wedi'i ohirio gan y Pwyllgor Cynllunio tan ddyddiad ddiweddarach. |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler y Dangosyddion Perfformiad 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Mae cynllun ar y gweill i ddarparu gwaith lliniaru llifogydd ym Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd yn ystod 2018/19. |

| **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | Slipiau Cyflog - yn symud ymlaen yn dda, gan drosglwyddo slipiau cyflog yn electronig yn ystod Ch2<br><br>Recriwtio trwy'r wefan - Ychydig o broblem dechnegol wedi codi yn y fersiwn Cymraeg yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | golygu y caiff yr ymgyrch ei ohirio. Sesiynau peilot a sesiynau briffio i reolwyr yn llwyddiannus.<br><br>Costau teithio – ar y trywydd iawn ac yn gwneud cynnydd da. |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Cytundeb ar ddau gynllun peilot.  Roedd oedi yn yr ail-strwythuriad o fewn y gwasanaeth llyfrgell yn golygu oediad i gychwyn y peilot.<br><br>Oherwydd yr oedi yn agor Neuadd y Farchnad tan y gaeaf (Rhagfyr 2018), mae hyn yn galluogi ni i ymgymryd a peilot mwy cynhwysfawr yn Amlwch dros gyfnod yr haf. |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | Mae pob canolfan cyswllt wedi llwyddo mynd yn fyw heb unrhyw anhawster i'r cyhoedd<br><br>Mae yna welliant o'r niferoedd o alwadau sydd yn cael ei methu yn cael ei dystiolaethu yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw (hyd at 80% llai o alwadau yn cael ei methu). |
| | **CRM** | Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu. Mae oedi gyda sicrhau'r cyswllt AD ac integreiddio Teleffoni'n yn golygu bod y prosiect yn Goch - mae cynlluniau wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael â'r oedi hwn. |
| | **Gwella Prosesau Busnes** | Penderfyniad i ganolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o edrych ar VOIDS. Mae'r broses wedi sgopio a mae ymdrechion diwygiedig yn parhau. Cytundeb i ail edrych ar hwn yn dilyn ymgorffori yr arfer diwygiedig. |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Cyflwynwyd cynllyn 2018/19 i'r Bwrdd Trawsnewid a mae'r cynllun yn gweithredu.<br><br>Gwaith datblygu adfer pellach yn mynd rhagddo i nodi cyfleoedd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. |
| **Strategaeth TGCh** | | Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020.<br><br>Strategaeth yn cael ei ddiwygio i'w ail-fabwysiadu yn ystod Chwarter 2. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Ar y trywydd iawn |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Strategaeth Cyfathrebu dywededig wedi ohirio tan Rhagfyr 2018 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019/20 – 2021/22** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH Y GWASANAETH:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio’r bwlch cyllidol y sonnir amdano yn yr adroddiad.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i’r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Strategol Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Trafodwyd a chymeradwywyd drafft terfynol yr adroddiad gan gyfarfod o’r UDA a mynychwyd gan y Prif Weithredwr |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Trafodwyd a chymeradwywyd drafft terfynol yr adroddiad gan gyfarfod o’r UDA a mynychwyd gan y Swyddog Monitro |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Atodiad 2 - Amcangyfrif 3 blynedd manwl
Atodiad 3 – Rhagdybiaethau'r Cynllun

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**ATODIAD 1**

**CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019/20 - 2021/22**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r arian sydd ar gael.

**1.2** Mae rhagweld y dyfodol yn anodd mewn unrhyw amgylchiadau ond, ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r economi, goblygiadau penderfyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith y llacio yn ddiweddar ar wariant cyhoeddus gan Lywodraeth y DU ac, yn enwedig felly'r, gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn arwain at gynnydd yn yr arian a ddyrennir i Lywodraeth Cymru ond ni wyddys ar hyn o bryd pa effaith a gaiff hyn ar yr arian a ddaw i lywodraeth leol yng Nghymru.

**1.3** Yn dilyn y newid yn 2017, cyhoeddir cyllideb y DU gan y Canghellor ym mis Tachwedd 2018. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol ym mis Hydref, cyn cyhoeddi cyllideb y DU, a disgwylir mai dyma fydd yr amserlen eto yn 2018.

**1.4** Mae'r cynllun yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau y gwyddys amdanynt ac yn gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y galw). Mae hefyd yn ystyried unrhyw bwysau cyllidebol sy'n deillio o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 - 2022.

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL GYFREDOL Y CYNGOR

**2.1** Ym mis Chwefror 2018, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

**Tabl 1**
**2018/19 Cyllideb Refeniw**

| | £ 'm |
|---|---:|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2017/18** | **126.157** |
| Newidiadau Contractyddol a Newidiadau Eraill yr ymrwymwyd iddynt | 0.877 |
| Chwyddiant Tâl a Phrisiau | 3.108 |
| Trosglwyddo Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd i'r Setliad | 2.618 |
| Pwysau Cyllidebol | 0.707 |
| Arbedion Cyllidebol | (2.522) |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2018/19** | **130.945** |
| | |
| **Wedi'i Ariannu gan** | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 95.812 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 35.133 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **130.945** |

**2.2** Gwelwyd cynnydd o 0.65% yn y cyllid allanol cyfun a chynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor.

**2.3** Yn 2017/18, cafwyd gorwariant o £1.704m ar y gyllideb refeniw net, gyda'r mwyafrif o'r gorwariant hwnnw yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal, Cludiant Ysgol, ffioedd Addysg Allsirol a staff Locwm Cyfreithiol. Mae'r archwiliad o'r cyfrifon terfynol wedi nodi incwm ychwanegol o £600k, na chafodd ei gyfrif yn y cyfrifon drafft ac mae hyn wedi gwella'r sefyllfa gyffredinol ar gyfer 2017/18.

**2.4** Er bod cyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Plant wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2018/19 a bod camau'n cael eu cymryd i geisio lleihau costau yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg, mae'r pwysau cyllidebol hyn yn parhau a'r rhagolygon ar ddiwedd chwarter 1 2018/19 yw y bydd gorwariant eto o £1.7m ar y gyllideb refeniw yn 2018/19. Er bod y rhagolygon hyn yn debygol o newid yn ystod y flwyddyn ariannol, mae diffyg sylfaenol yn y gyllideb refeniw y mae angen mynd i'r afael â fo yn 2019/20.

**2.5** Balans agoriadol y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 1 Ebrill 2018 oedd £6.952m. Yn sgil penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, rhyddawyd £0.496m o'r balansau hyn yn 2018/19 ac, os yw'r gorwariant a ragdybir ar gyfer 2018/19 yn gywir, bydd gostyngiad pellach o £1.7m yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn ystod y flwyddyn gan roi balans yn fras o £4.75m ar 31 Mawrth 2019. Mae'r ffigwr hwn yn is na’r lleiafswm o £6.5 m (5% o gyllideb refeniw net y Cyngor am 2018/19) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2018. Bydd y ffigwr hwn yn cael ei ddiwygio fel rhan o’r broses o osod cyllideb 2019/20, ond y disgwyl yw y bydd lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn is na'r isafswm a argymhellir.

**2.6** Mae'n bosibl i'r Cyngor weithredu gyda chronfeydd wrth gefn sy’n werth llai na’r swm a argymhellwyd, ond po hwyaf y bydd y sefyllfa hon yn parhau, mwya’n y byd yw’r risg i'r Cyngor na fydd mewn sefyllfa i ariannu unrhyw wariant annisgwyl neu gorwariant yn y dyfodol pe bai hynny’n digwydd. Mae'r gostyngiad yn lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf hefyd yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel ffynhonnell o gyllid tymor byr i gydbwyso'r gyllideb. Bydd angen cyllidebu ar gyfer gwarged yn y blynyddoedd i ddod er mwyn i lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol godi yn ôl i’r lefel a argymhellwyd dros amser. Bydd hyn yn bwysau ariannol pellach ar y Cyngor.

**2.7** Roedd y cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gynhelir gan y Cyngor i ariannu prosiectau unwaith ac am byth yr ymrwymwyd iddynt, i ariannu costau disgwyliedig yn y dyfodol (e.e. colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant heb ei ddefnyddio yn £11.9m ar 31 Mawrth 2018, gostyngiad o £1.45m yn ystod y flwyddyn. Er bod modd trosglwyddo rhai o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol e.e. ar gyfer prosiectau yr ymrwymwyd iddynt nad ydynt yn mynd yn eu blaenau, mae’r sgôp yn gyfyngedig ac ni fydd yn cynyddu lefel y balansau cyffredinol yn sylweddol.

**2.8** Mae balansau ysgolion yn dal i fod ymysg yr uchaf yng Nghymru ond fe welwyd gostyngiad ynddynt yn 2017/18 o £220k i £1.87m. Wrth i'r pwysau ar gyllidebau’r ysgolion gynyddu, mae nifer o ysgolion yn bwriadu defnyddio eu cronfeydd wrth gefn yn 2018/19 i geisio cynnal lefelau staffio. Disgwylir, felly, y bydd y balansau'n disgyn eto yn ystod 2018/19.

**2.9** Roedd cyllideb refeniw 2018/19 yn cynnwys rownd bellach o arbedion – cyfanswm o £2.522m, sy’n dod â chyfanswm yr arbedion a nodwyd gan y Cyngor ers 2013/14 i £21.88m. Mae cymharu faint o arbedion a gyfrannwyd gan bob gwasanaeth yn anodd gan fod nifer o ffactorau eraill yn newid y cyllidebau ar gyfer pob gwasanaeth dros amser, mae'r rhain yn cynnwys: trosglwyddo elfennau gwasanaeth rhwng 2 brif wasanaeth, grantiau a chyfrifoldebau newydd sy'n trosglwyddo i mewn neu allan o wasanaethau, effaith arfarnu swyddi ac unrhyw gyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i wasanaethau i gwrdd â newidiadau yr ymrwymwyd iddynt neu bwysau cyllidebol. Fodd bynnag, mae cymhariaeth o gyfanswm yr arbedion y mae pob gwasanaeth wedi eu cyfrannu at gyllideb 2018/19 yn nodi’r gwasanaethau hynny sydd wedi dwyn baich y gostyngiadau yn y gyllideb. Gweler y gymhariaeth hon yn Nhabl 2 isod :-

**Tabl 2**
**Arbedion fesul Gwasanaeth 2013/14 i 2018/19 o gymharu â Chyllideb Refeniw Net 2018/19**

| Gwasanaeth | Cyfanswm Arbedion 2013/14 i 2018/19 £ '000 | 2018/19 Cyllideb £ '000 | 2013/14 i 2018/19 Arbedion fel % o Gyllideb 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 2,014 | 34,978 | 5.8% |
| Addysg Ganolog ac Ieuenctid | 2,174 | 12,232 | 17.8% |
| Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth | 415 | 1,302 | 31.8% |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,412 | 24,568 | 13.9% |
| Gwasanaethau Plant | 862 | 8,160 | 10.6% |
| Hamdden, Morwrol a Datblygu Economaidd | 1,259 | 1,728 | 72.9% |
| Tai | 459 | 912 | 50.3% |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 6,157 | 14,664 | 42.0% |
| Rheoleiddio | 882 | 1,966 | 44.8% |
| Busnes y Cyngor | 327 | 1,485 | 22.0% |
| Adnoddau | 583 | 2,763 | 21.1% |
| Trawsnewid | 721 | 4,461 | 16.2% |
| Cyllidebau Corfforaethol | 2,483 | 21,726 | 11.4% |
| **Cyfanswm** | **21,748** | **130,945** | **16.6%** |

**2.10** Dengys y tabl uchod fod rhywfaint o amddiffyniad wedi'i roi i Ysgolion, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant gyda'r gwasanaethau rheng flaen eraill yn darparu'r gyfran fwyaf o'r arbedion mewn perthynas â'u cyllidebau net.

## 3 RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu Llywodraeth Cymru â'i holl gyllid ac mae'r hyn sy'n digwydd gydag economi a chyllideb y DU yn effeithio'n uniongyrchol ar gyllid Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ac mae asesiad o'r sefyllfa yn y DU yn elfen bwysig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**3.2** Mae llawer iawn o ansicrwydd yn parhau mewn perthynas ag economi'r DU a bydd llawer yn dibynnu ar delerau ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Brexit). Byddai Brexit 'dim bargen' bron yn sicr yn lleihau twf economaidd yn y tymor byr gyda hynny'n cael effaith ar refeniw o drethi a lefelau benthyca'r sector cyhoeddus. Gall y Llywodraeth ariannu unrhyw gynnydd yn y diffyg yn y sector cyhoeddus a geir yn sgil Brexit 'dim bargen' drwy gynyddu benthyca neu efallai y byddant yn ceisio lleihau gwariant y sector cyhoeddus ymhellach.

**3.3** Mae Datganiad Cyllideb y Gwanwyn yn awgrymu rhywfaint o lacio ar y rhaglen lymder ac, er bod y diffyg ar gyfer 2017/18 yn is na'r rhagolygon, mae'n parhau i fod yn £34bn ar gyfer 2019/20 ac mae'r Llywodraeth yn awr yn bwriadu dileu'r diffyg erbyn canol y 2020au o gymharu â'i gynllun ym mis Mawrth 2016 o gael gwarged cyllidebol o £10bn erbyn 2020. Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer 2018/19 yn amcangyfrif y bydd benthyca yn £23.7bn o'i gymharu ag amcangyfrif o £37bn yn Natganiad Cyllideb y Gwanwyn.

**3.4** Cafwyd tystiolaeth bellach o lacio'r rhaglen lymder ers Datganiad Cyllideb y Gwanwyn. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth gynnydd cyfartalog blynyddol (uwch na chwyddiant) o 3.4% yng nghyllideb y GIG yn Lloegr. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £20bn yn y gyllideb mewn termau real erbyn 2023. Bydd y cynnydd hwn mewn cyllid yn arwain at gynnydd canlyniadol yn y cyllid a gaiff Cymru drwy fformiwla Barnett.

**3.5** Mae'r Llywodraeth wedi llacio ei gap cyflog 1% ar gyfer gweithwyr sector cyhoeddus, gan gyhoeddi cynnydd o rhwng 2% a 3.5% ym mis Gorffennaf 2018 ar gyfer nyrsys, meddygon, swyddogion heddlu, athrawon a gweision sifil, er bod disgwyl i Adrannau'r Llywodraeth ariannu'r cynnydd hwn o'r cyllidebau presennol. Mae'r cynnydd yng nghyflogau athrawon a gweithwyr eraill mewn llywodraeth leol yn cael effaith fawr ar gostau'r Cyngor, mae bil cyflog cyfredol y Cyngor yn fwy na £70m. Os na fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn, bydd cynnydd yn lefel yr arbedion y bydd angen i'r Cyngor eu canfod er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys.

**3.6** Mae lefel gyfredol chwyddiant (CPI) yn 2.5% sydd yn uwch na'r targed o 2%, ond disgwylir i'r gyfradd barhau i ostwng yn ystod 2018 ac i aros yn weddol gyson o gwmpas y targed o 2% yn 2019/20.

**3.7** Ym mis Awst 2018, cododd y gyfradd sylfaenol banc o 0.5% i 0.75%, sef ei lefel uchaf ers yr argyfwng bancio yn 2008. Rhagwelir codiadau bychan pellach yn ystod 2019 a 2020, ond bydd llawer yn dibynnu ar yr effaith a gaiff Brexit ar yr economi. Nid yw'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gostau benthyca cyfredol y Cyngor gan fod gan y rhan fwyaf o'r benthyciadau ar gyfradd llog sefydlog, fodd bynnag, mae'r cynnydd yn golygu y bydd benthyca yn y dyfodol yn ddrutach. Bydd y dychweliadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ar ei fuddsoddiadau hefyd yn cynyddu rhywfaint wrth i'r cyfraddau llog godi.

## 4. CYLLIDEB LLYWODRAETH CYMRU

**4.1** Ers cychwyn y rhaglen lymder yn 2010/11, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi gostwng 11% ac mae gwariant ar lywodraeth leol yng Nghymru wedi gostwng 18% mewn termau real o'i gymharu â chynnydd o 16% mewn gwariant ar iechyd dros yr un cyfnod. Mae'r gyllideb Iechyd bellach yn ffurfio 49% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru o'i gymharu â 42% yn 2011/12, tra bod cyllideb Llywodraeth Leol wedi gostwng o 30% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru i 28% dros yr un cyfnod.

**4.2** Fel rhan o setliad cyllidebol 2018/19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru i ddechrau y byddai'r setliad dangosol ar gyfer 2019/20 yn dangos gostyngiad o 1.5% yn y cyllid i lywodraeth leol. Yn dilyn y setliad cyllidebol terfynol, adolygwyd y sefyllfa hon ac, yn ôl yr arwyddion cyfredol, 1% fydd y gostyngiad yn y setliad i lywodraeth leol yn 2019/20.

**4.3** Bydd cyhoeddiad Llywodraeth y DU o £20bn ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr erbyn 2023 yn arwain at gynnydd o £1.37bn i gyllideb Llywodraeth Cymru dros yr un cyfnod. Ar gyfer 2019/20, bydd yn golygu £370m ychwanegol i Gymru. Gan fod cyllido Iechyd yn swyddogaeth sydd wedi ei dirprwyo, mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu faint o'r arian ychwanegol hwn fydd yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Iechyd ac a fydd llywodraeth leol, drwy'r setliad, yn cael unrhyw gyfran ohono.

**4.4** Cyn cyhoeddi'r cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai'r gyllideb Iechyd yn cynyddu 3.1% yn 2019/20. Pe bai'r holl gyllid ychwanegol o £370m hefyd yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, byddai hyn yn golygu cynnydd o 8.5% yn y gyllideb Iechyd. Ar hyn o bryd, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn lobïo Llywodraeth Cymru i roddi peth o'r cyllid ychwanegol hwn i Lywodraeth Leol yn 2019/20.

**4.5** Os na fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael a bod gostyngiad o 1% yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF), byddai hynny'n arwain at ostyngiad o £900k yn AEF Ynys Môn. Byddai hyn angen cynnydd o 2.6% yn y Dreth Gyngor i wneud i fyny am y diffyg.

## 5 PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Leol yn wynebu nifer o bwysau ar y gyllideb ac, yn ogystal, bydd Ynys Môn hefyd yn wynebu ei phwysau cyllidebol unigryw ei hun ac mae'n rhaid i'r rhain gael eu ffactora i mewn i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**i. Y Cyflog Byw Cenedlaethol**

Mae'r cynnydd parhaus yn y cyflog byw cenedlaethol wedi arwain at yr angen i gynyddu'r pwyntiau cyflog isaf ar raddfa gyflog yr NJC i lefel sy'n sylweddol uwch na'r dyfarniad cyflog, e.e. gwelwyd cynnydd o 8% ym mhwyntiau tâl isaf y Cyngor yn 2018/19 a bydd cynnydd pellach o 7.1% yn 2019/20. Canlyniad y cynnydd hwn yw bod y gwahaniaeth rhwng y pwyntiau tâl isaf a'r pwyntiau tâl sydd yn uwch ar y raddfa wedi lleihau. Fel rhan o'r dyfarniad cyflog y cytunwyd arno ar gyfer 2019/20, mae'r raddfa gyflog gyfan wedi cael ei hailstrwythuro. Y cynnydd cyffredinol yw 2%, ond mae'r addasiadau i ben isaf y raddfa gyflog yn golygu bod y bil cyflog cyffredinol ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu yn uwch na 2%. Yn seiliedig ar y strwythur staffio presennol, amcangyfrifir y bydd cynnydd o 3% yng nghostau 2019/20.

**ii. Dyfarniad Tâl Athrawon**

Yn ddiweddar cyhoeddwyd y dyfarniad tâl i athrawon ar gyfer Medi 2018 hyd at Awst 2019. Er mai'r ffigwr cyffredinol oedd 3.5%, roedd y cynnydd ar gyfer y rhai ar raddfeydd uwch yn 1.5% a 2%. Gan ragdybio y bydd y dyfarniad cyflog ym Medi 2019 yn 2% ar gyfartaledd, mae hyn yn rhoi cynnydd cyffredinol o 2% mewn chwyddiant ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar y strwythur staffio presennol.

**iii. Pensiynau Athrawon**

Mae prisiad tair blynedd y cynllun pensiwn i athrawon i fod i ddigwydd yn 2018 a daw cyfraddau cyfraniad newydd y cyflogwr i rym ym mis Ebrill 2019. Disgwylir y bydd yn cynyddu o'r 16.48% cyfredol i 18% o bosibl neu hyd yn oed yn uwch. Bydd pob cynnydd o 1% yn golygu cynnydd oddeutu £200k (6%) yng nghyfraniad y cyflogwr.

**iv. Ardoll y Gwasanaeth Tân**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll bob blwyddyn gyda'r gost yn cael ei dyrannu ymhlith y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru ar sail y boblogaeth. Mae'r cynnydd yn yr ardoll yn cael ei osod gan yr Awdurdod Tân, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r 6 awdurdod. Yna, daw'r ardoll yn gost y mae'r Cyngor yn ei chynnwys yn ei gyllideb. Ar gyfer 2018/19, cyfanswm yr ardoll a osodwyd gan yr Awdurdod Tân oedd £33.49m, sydd 14% yn uwch na'r swm tybiannol sydd wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Gwariant Safonol ar gyfer awdurdodau Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Tân yn ymgynghori ar gynnydd o 5.7% yn yr ardoll ar gyfer 2019/20. Pe byddai hyn yn cael ei weithredu, byddai'n golygu cynnydd o £190k yn yr ardoll ar gyfer Ynys Môn ac yn lledaenu'r bwlch rhwng yr ardoll gwirioneddol a'r swm a nodwyd yn yr Asesiad Gwariant Safonol.

**v. Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae'r galw am wasanaethau yn parhau i godi ac mae hyn, ynghyd â phrinder lleoliadau addas, yn enwedig ar Ynys Môn, wedi rhoi'r gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan bwysau sylweddol. Dyrannodd y Cyngor £265k ychwanegol i'r gyllideb hon yn 2018/19 ac mae hyn, ynghyd â chamau a gymerwyd gan y Gwasanaeth, wedi lleihau'r gorwariant o £1.7m yn 2017/18 i swm rhagdybiedig o £1.3m yn 2018/19. Er y gall newidiadau a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod 2018/19 leihau lefel y gorwariant ymhellach, mae'r gyllideb wedi methu â chynyddu yn unol â'r galw cynyddol a rhaid mynd i'r afael â hyn yn 2019/20. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn caniatáu cynnydd o £1.1m yn 2019/20 gyda chynnydd pellach o £250k yn 2020/21 a 2021/22.

**vi. Cyllidebau Addysg nad ydynt yn ymwneud ag Ysgolion**

Mae'r galw cynyddol am gludiant ysgol yn bryder mawr yn y gyllideb Addysg a rhagdybir y bydd y gorwariant am 2018/19 yn fwy na £300k. Bydd contractau newydd yn cael eu caffael dros y misoedd nesaf a gall hyn arwain at rai arbedion ond, unwaith eto, rhaid mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol hwn yn y gyllideb ar gyfer 2019/20.

**vii. Canolfan Addysg Y Bont**

Cyn agor yr ysgol newydd, capasiti cyfyngedig oedd gan yr ysgol ac roedd niferoedd y disgyblion yn gyson ac, o'r herwydd, nid oedd y broses gyllidebol yn caniatáu ar gyfer newidiadau i niferoedd disgyblion. Ers agor yr ysgol newydd, mae niferoedd y disgyblion wedi dechrau cynyddu ac mae hyn wedi arwain at ddyrannu £73k ychwanegol i gyllideb yr ysgol arbennig yn 2018/19. Rhagwelir y bydd cynnydd pellach o 15 yn niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn 2019/20 a 17 arall yn 2020/21. Mae cost ychwanegol pob disgybl oddeutu £13k a bydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn golygu cynnydd yn y costau addysgu, gofal a chymorth a fydd yn £195k yn 2019/20 ac yn £220k yn 2020/21. Darparwyd ar gyfer y costau ychwanegol hyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, er y byddant yn cael eu hadolygu cyn gosod cyllideb 2019/20.

**viii. Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Wrth i'r boblogaeth fyw'n hirach, mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cynyddu. Amcangyfrifir erbyn 2035 y bydd cynnydd o 35% yn nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru sydd dros 65 oed ac y bydd cynnydd o 113% yn nifer y bobl sydd dros 85 oed. Canfu astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y pwysau y bydd hyn yn ei greu yn cyfateb i dwf o 2.9% bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn rheoli'r galw ac yn cadw ei gostau o fewn y gyllideb ond efallai na fydd y sefyllfa hon yn gynaliadwy.

**ix. Moderneiddio Ysgolion y 21 ain Ganrif**

Ariennir cost adeiladu ysgolion newydd dan y rhaglen foderneiddio gan grant 50% gan Lywodraeth Cymru a benthyca â chefnogaeth a 50% trwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r elfen fenthyca digefnogaeth yn effeithio ar y gyllideb refeniw ar ffurf y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) a thaliadau llog. Mae'r 2 ysgol newydd a adeiladwyd hyd yn hyn yn cynhyrchu arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i ariannu'r taliadau MRP a thaliadau llog. Fodd bynnag, wrth i'r Cyngor symud ymlaen gyda gweddill y prosiectau Band A a Band B, yr arwyddion cychwynnol yw na fydd yr arbedion posibl yn cwrdd â chost lawn yr MRP a'r taliadau llog. Mae hyn, yn ei dro, yn creu pwysau ar y gyllideb refeniw.

**x. Y Lleihad mewn Grantiau Penodol**

Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn nifer o grantiau refeniw i ariannu gwasanaethau, gyda 6 prif grant yn cael eu derbyn (grant Cefnogi Pobl, grant Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysus, grant Gwella Addysg, grant Amddifadedd Disgyblion, grant Addysg Ôl-16, y grant Refeniw Sengl ar gyfer yr Amgylchedd). Yn 2018/19, gwnaed toriadau sylweddol i'r Grant Gwella Addysg a'r Grant Refeniw Sengl ar gyfer yr Amgylchedd. O gofio fod darparu'r gwasanaethau a ariennir gan grantiau wedi'i integreiddio i'r gwasanaethau a ariennir gan gyllidebau craidd y Cyngor, mae'n anodd i'r Cyngor ostwng y gwasanaethau a gafodd eu sefydlu pan ddechreuodd y grant. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud i fyny'r gwahaniaeth er mwyn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth ar yr un lefel.

**xi. Contractau Gwasanaeth Mawr**

Yn ystod y 3 blynedd nesaf, bydd yn rhaid i'r Cyngor aildendro'r contractau ar gyfer darparu prydau ysgol a chasglu gwastraff domestig a glanhau strydoedd. Mae'r Gwasanaethau wedi nodi ei bod hi'n debygol y bydd cost y contractau newydd yn uwch na'r costau presennol, er ei bod yn hynod anodd sefydlu beth fydd y cynnydd gwirioneddol hyd nes y cynhelir yr ymarfer caffael. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y bydd cynnydd yng ngwerth y contractau hyn.

**xii. Pwysau Amrywiol ar y y Gyllideb**

Bob blwyddyn, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o addasiadau (newidiadau ymrwymedig) sy'n adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol, cynnydd mewn costau oherwydd ymrwymiadau cytundebol neu ddrifft cynyddraddol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn caniatáu ar gyfer y newidiadau hyn ond byddant yn cael eu cwblhau pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried y gyllideb gychwynnol ar gyfer 2019/20.

**xiii. Chwyddiant Prisiau Cyffredinol**

Caiff cyllidebau blynyddol eu chwyddo i ystyried chwyddiant cyffredinol neu benodol. Defnyddir y mynegai prisiau defnyddwyr fel y prif ffactor chwyddiant a disgwylir i hyn barhau ar lefel o 2% neu o gwmpas hynny yn y dyfodol rhagweladwy. Yn ddi-wahân bron iawn, mae gan gontractau ddull o gyfrifo chwyddiant blynyddol sydd wedi'i gynnwys yn y contract sy'n seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr, y mynegai prisiau manwerthu neu fynegai sy'n benodol i'r diwydiant. Roedd y mynegai prisiau manwerthu yn hanesyddol rhwng 0.8% ac 1% yn uwch na'r mynegai prisiau defnyddwyr. Mae'r broses gyllidebol yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau chwyddiant gwahanol hyn.

## 6 INCWM

**6.1** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm gyfredol y Cyngor (ac eithrio Grant Cynnal Refeniw, Trethi Annomestig a’r Dreth Gyngor) yn cyfateb i £30.6m, sy'n cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus £17.8m, ffioedd a thaliadau a osodwyd yn statudol neu a reoleiddir gan y Llywodraeth neu gytundebau rhent tymor hir £7.5m a ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod y ffi neu'r tâl £5.2m.

**6.2** Bu’n bolisi gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf (cyn 2017/18) i gynyddu'r ffioedd a'r taliadau dewisol gan 5% bob blwyddyn. Mae'n mynd yn fwyfwy anodd i barhau gyda'r polisi hwn gyda chwyddiant yn llawer is na 5% ac, yn arbennig felly, yn achos y gwasanaethau hynny lle mae'r Cyngor yn cystadlu â'r sector preifat e.e. Hamdden.Yn 2017/18 a 2018/19, cynyddwyd ffioedd anstatudol gan 3% ac, o 2019/20, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd anstatudol yn cynyddu 3% y flwyddyn neu CPI, p'un bynnag yw’r uchaf.

## 7 Y GYLLIDEB DDISYMUD RHAGAMCANEDIG AR GYFER 2019/20 - 2021/22

**7.1** O ystyried yr holl bwysau cyllidebol y gwyddys amdanynt a'r rhagdybiaethau mewn perthynas â chwyddiant a rhagdybiaethau eraill, mae'n bosibl pennu cyllideb ddisymud ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22. Y gyllideb ddisymud yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel, yn yr un modd ag y maent yn cael eu cyflwyno yn 2018/19. Dangosir y gyllideb ddisymud ragamcanedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Nhabl 3 isod: -

**Tabl 3**
**Cyllideb Ddisymud Rhagamcanedig 2019/20 i 2021/22**

| | 2019/20 £ 'm | 2020/21 £ 'm | 2021/22 £ 'm |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **130.94** | **136.72** | **140.63** |
| Costau Unwaith ac am Byth a chostau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sy'n syrthio allan o'r gyllideb | (0.14) | (0.22) | - |
| Pwysau Cyllidebol Newydd | 0.22 | - | - |
| Chwyddiant Tâl, Costau Pensiwn a Drifft Cynyddraddol | 2.55 | 1.73 | 1.71 |
| Prif Gontractau'r Cyngor - Chwyddiant a Newidiadau o ran Cyfaint | 0.77 | 0.92 | 1.10 |
| Newidiadau yn y Gwasanaethau a arweinir gan y galw | 1.38 | 0.59 | 0.38 |
| Chwyddiant nad yw’n ymwneud â Thâl | 0.73 | 0.74 | 0.74 |
| Ardollau | 0.19 | 0.07 | 0.07 |
| Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor | 0.27 | 0.39 | 0.42 |
| Cynnydd mewn Incwm | (0.69) | (0.71) | (0.70) |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 0.50 | 0.40 | 0.53 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddisymud** | **136.72** | **140.63** | **144.87** |

**7.2** Mae'r gyllideb ddisymud ragamcanedig yn cynrychioli cynnydd o 10.7% o ran arian parod yn ystod y cyfnod o 3 blynedd.

**7.3** Mae mwy o fanylion am y gyllideb ddisymud a'r tybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiadau 2 a 3.

## 8. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1** Ariennir y gyllideb ddisymud ragamcanedig o'r cyllid allanol cyfun (AEF) a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (Grant Cynnal Refeniw a Chyllid Cronfa Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae'r sefyllfa ynglŷn â'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2019/20 yn aneglur ac mae'r sefyllfa ar gyfer 2020/21 a 2021/22 hyd yn oed yn anoddach i'w darogan. Yr unig arwydd a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yw y bydd yr AEF yn disgyn gan gyfanswm o 1% ar draws Cymru. Mae nifer o ffactorau yn bwydo i mewn i fformiwla'r Grant Cynnal Refeniw a gall dyraniadau i Gynghorau unigol fod yn uwch neu'n is na'r ffigwr hwn o 1%.

**8.3** Asesiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) o'r cyllid ychwanegol a fydd ar gael i Gymru yn deillio o'r cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr yw: -

2019/20 - £370m, 2020/21 - £180m, 2021/22 - £250m, 2022/23 - £260m, 2023/24 - £310m.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n dyrannu 3.1% ychwanegol i'r GIG yng Nghymru yn 2019/20 cyn i'r cyllid ychwanegol gael ei gyhoeddi. Pe bai'r holl arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r GIG yng Nghymru, byddai hyn yn golygu cynnydd o 8.5% mewn termau arian parod. Byddai cyfyngu cyfanswm y cynnydd arian parod i 5% yn rhyddhau £240m o'r arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau eraill. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw syniad a fydd Llywodraeth Cymru yn dilyn yr hyn y mae CLlLC yn ei argymell. At ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae'r rhagdybiaeth yn parhau i fod yn ostyngiad o 1% yn yr AEF yn 2019/20 a dim newid yn y setliad am y 2 flynedd ddilynol. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r Cyngor ariannu'r holl bwysau chwyddiant a'r galw ar wasanaethau a restrir yn Nhabl 3 o arbedion yn y cyllidebau presennol a chynnydd yn y Dreth Gyngor.

**8.4** Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi amrywio rhwng 2.5% a 4.8%, sy'n uwch na chwyddiant ond bu'n rhaid gwneud y fyny'n rhannol am y gostyngiad yn yr AEF. Y tâl Band D ar gyfer 2018/19 yw £ 1,140, sef y 5ed isaf yng Nghymru, mae'n £30 (2.63%) yn is na'r swm tybiannol a bennwyd yn yr Asesiad Gwariant Safonol, £101 (8.85%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a £48 (4.2%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru.

**8.5** At ddibenion y cynllun, rhagdybir y bydd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, byddai cyfanswm y cyllid a amcangyfrifir fel a ddangosir yn Nhabl 4 isod: -

**Tabl 4**
**Amcangyfrif o Gyllid y Cyngor - 2019/20 i 2021/22**

| | 2019/20<br>£ m | 2020/21<br>£ m | 2021/22<br>£ m |
|---|---|---|---|
| AEF a ddygwyd ymlaen | 95.81 | 94.85 | 94.85 |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | 35.13 | 36.89 | 38.74 |
| **Cyfanswm y Cyllid a ddygwyd ymlaen** | **130.94** | **131.74** | **133.59** |
| Newid yn yr AEF yn ystod y flwyddyn | (0.96) | - | - |
| Newid yn y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn | 1.76 | 1.85 | 1.94 |
| **Cyfanswm y Cyllid a ddygwyd ymlaen** | **131.74** | **133.59** | **135.53** |

## 9 PONTIO’R BWLCH CYLLIDO

**9.1** Y bwlch cyllido yw'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb ddisymud rhagamcanedig (Tabl 3) a'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael (Tabl 4 ). Ceir crynodeb o hyn yn Nhabl 5 isod: -

**Tabl 5**
**Bwlch Cyllido Rhagamcanedig**

| | 2019/20<br>£ m | 2020/21<br>£ m | 2021/22<br>£ m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Ddigyfnewid Ragamcanedig | 136.72 | 140.63 | 144.87 |
| Arbedion a Ddygwyd ymlaen | 0.00 | (4.98) | (7.04) |
| **Cyllideb Ddigyfnewid Ddiwygiedig** | **136.72** | **135.65** | **137.83** |
| Cyllid Rhagdybiedig | 131.74 | 133.59 | 135.53 |
| **Yr Arbedion Blynyddol Angenrheidiol** | **4.98** | **2.06** | **2.30** |
| **% yr Arbedion Angenrheidiol** | **3.64%** | **1.51%** | **1.67%** |

Sylwer - Mae'r ffigwr arbedion a ddygwyd ymlaen yn ffigwr cronnus o'r arbedion yr oedd angen eu gwneud yn y flwyddyn(blynyddoedd) f(blaenorol).

**9.2** Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau wedi'u cynnwys yn y cyllidebau ddisymud na ellir eu lleihau neu sy'n anodd iawn eu lleihau, ac mae'r rhain yn cynnwys: -

Ardoll yr Awdurdod Tân - £3.36m yn 2018/19;
Costau Cyllido Cyfalaf - £7.51m yn 2018/19;
Cynllun Gostyniadau’r Dreth Gyngor - £5.32m yn 2018/19;
Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.05m yn 2018/19;
Cronfeydd ar gyfer Argyfyngau Cyffredinol a Phenodol - £1.14m yn 2018/19.

Felly, bydd raid dod o hyd i'r arbedion angenrheidiol o £9.34m dros gyfnod o 3 blynedd o gyllidebau’r gwasanaethau, cyfanswm o £112.56m (cyllideb 2018/19 ). Mae hyn yn cyfateb i arbedion o 8.3% dros 3 blynedd.

**9.3** Strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y blynyddoedd blaenorol fu lleihau cyllidebau’r gwasanaeth trwy ofyn i wasanaethau adolygu eu cyllidebau presennol ac i leihau'r gyllideb net gyfan trwy: -

- Ddileu penawdau cyllidebol na chawsant eu defnyddio;
- Lleihau costau staffio trwy ailstrwythuro a diswyddiadau gwirfoddol;
- Cynyddu ffioedd a thaliadau uwchlaw cyfradd chwyddiant;
- Nodi ffynonellau incwm newydd;
- Lleihau costau gweinyddol trwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth;
- Lleihau costau trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau'n well;
- Rhoi’r gorau i roi grantiau i'r sector gwirfoddol / trydydd sector;
- Lleihau'r symiau a fuddsoddwyd mewn cynnal a chadw asedau;
- Rhesymoli gofod swyddfa, a thrwy hynny leihau costau swyddfeydd.

**9.4** Mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn heb orfod dibynnu ar y defnydd o falansau cyffredinol. Cyflawnwyd hyn hefyd tra'n parhau i ddiogelu cyllidebau’r Ysgolion a’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**9.5** Fodd bynnag, wrth i ni symud i mewn i'r tair blynedd nesaf, mae'r sgôp i gynhyrchu'r lefel ofynnol o arbedion drwy’r dulliau hyn yn unig yn sylweddol llai, mae cyllidebau refeniw yn gorwario ac mae lefel y balansau cyffredinol wedi gostwng i lefel nad yw’n dderbyniol. Mae'n rhaid i'r Cyngor yn awr newid ei strategaeth er mwyn parhau i sicrhau’r arbedion gofynnol. Mae’r meysydd y bydd angen gweithredu arnynt yn cynnwys: -

- Ceisio trosglwyddo'r ddarpariaeth o rai gwasanaethau o'r Cyngor i Gynghorau Tref a Chymuned, y trydydd sector, grwpiau cymunedol gwirfoddol neu unigolion preifat.
- Creu cyrff eraill sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau - ymddiriedolaethau, cwmnïau masnachu awdurdodau lleol. Mae'r gwasanaethau y gellir eu trosglwyddo yn cynnwys canolfannau hamdden ac Oriel Ynys Môn.
- Moderneiddio ysgolion ac adolygu dyfodol ysgolion bach sydd â llai na 120 o ddisgyblion.
- Adolygu nifer yr ysgolion uwchradd a'r modd y darperir addysg ôl-16 ar Ynys Môn.
- Rheoli'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a lleihau'r gefnogaeth a roddir i'r bobl hynny sydd mewn llai o angen.
- Darparu mwy o ofal i'r henoed yn y cartref neu mewn cyfleusterau gofal ychwanegol. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoliadau mewn cartrefi preswyl a bydd yn arwain at adolygu a fydd y Cyngor yn parhau i weithredu cartrefi gofal preswyl neu'n prynu'r ddarpariaeth gwasanaeth yn gyfan gwbl gan y sector preifat.
- Cynyddu'r ffioedd a godir ar ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau statudol ac anstatudol.
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol.
- Parhau i foderneiddio gweinyddiaeth y gwasanaethau a disgwyl i'r cyhoedd ymgymryd â mwy o drafodion gyda'r Cyngor ar-lein neu trwy AppMôn.
- Penderfynu a yw cael y 5ed Dreth Gyngor isaf yng Nghymru yn gynaliadwy. Efallai y bydd angen cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor uwchlaw'r rhagdybiaeth o 5% er mwyn cynhyrchu cyllid digonol i gydbwyso'r gyllideb refeniw.

**9.6** Bydd cyflawni cyllideb gytbwys dros y 3 blynedd nesaf trwy ddilyn y camau a nodir ym mharagraff 9.5 yn golygu gwneud penderfyniadau anodd ac mae yna nifer o risgiau a all atal y Cyngor rhag cyflawni'r holl gamau gweithredu hyn. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau.
- Disgwyliad gan y cyhoedd y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau ar yr un lefel ag o'r blaen.
- Llywodraeth Cymru yn asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau ac yn dal i ddisgwyl y bydd gwasanaethau'n cael eu gwella.
- Gwrthwynebiad gan y cyhoedd i gynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor, yn enwedig os yw'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn lleihau – byddant yn talu mwy am lai.
- Gwrthwynebiad cryf gan gymunedau ac Aelodau i gau cyfleusterau yn eu hardaloedd. Mae'r Cyngor eisoes wedi gweld hyn yn ystod y broses i foderneiddio ysgolion ar yr Ynys gyda chymunedau yn ymgyrchu i gadw Ysgol Talwrn, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Biwmares ar agor.
- Y capasiti i gyflwyno newid o fewn y Cyngor. Gan fod strwythurau rheoli wedi cael eu hadolygu a'u lleihau, mae nifer y staff profiadol wedi lleihau ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r staff sy'n weddill reoli'r gwasanaethau presennol tra'n gweithredu newidiadau sylweddol.
- Anawsterau o ran dod o hyd i bartneriaid bodlon y gall y Cyngor allanoli gwasanaethau iddynt. Cafwyd anawsterau eisoes wrth allanoli gwasanaethau bychan, megis asedau diwylliannol a thoiledau cyhoeddus.

## 10 CASGLIADAU

**10.1** Mae cyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn ansicr iawn ar hyn o bryd ac mae'n anodd darogan yn gywir y lefelau cyllido ar gyfer y dyfodol.

**10.2** Hyd yn oed petai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau arian ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn ddigonol i bontio'r bwlch cyllido a nodir yn Nhabl 5. Bydd angen toriadau sylweddol i gyllidebau o hyd yn ystod y 3 blynedd nesaf.

**10.3** Bydd yn rhaid i'r toriadau yn y gyllideb ddod o newidiadau o ran y modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a lleihad yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bydd ceisio darparu'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd gyda gostyngiadau sylweddol mewn cyllid yn arwain at orwariant parhaus ar gyllidebau, gostyngiadau pellach yn lefel y balansau cyffredinol a risg sylweddol i hyfywedd ariannol y Cyngor. Bydd yn rhaid cymryd penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd er mwyn i'r Cyngor ddarparu cyllideb gytbwys, sy'n adlewyrchu'n gywir y gost o redeg y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

## CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG — ATODIAD 2

| Gwariant Refeniw | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 20,300,870 | 20,742,492 | 21,213,139 | 21,672,788 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 3,534,520 | 3,650,289 | 3,729,518 | 3,810,330 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,561,430 | 2,617,151 | 2,673,956 | 2,731,895 |
| Pensiynau Athrawon | 3,250,010 | 3,719,073 | 3,799,795 | 3,882,129 |
| Pensiynau staff nad ydynt yn dysgu | 486,460 | 502,393 | 513,298 | 524,420 |
| Glanhau | 843,940 | 870,102 | 887,504 | 905,254 |
| Ynni | 1,219,470 | 1,269,468 | 1,321,516 | 1,374,377 |
| Trethi Annomestig | 857,490 | 883,215 | 909,711 | 935,183 |
| Gwariant arall nad yw'n staff | 4,279,710 | 4,369,584 | 4,461,345 | 4,550,572 |
| Addasiad Niferoedd Disgyblion | - | 213,900 | 511,200 | 602,900 |
| Arianwyd gan Gronfeydd wrth Gefn Addysg | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion** | **37,333,900** | **38,837,668** | **40,020,983** | **40,989,849** |
| **Costau Staff nad ydynt yn Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 556,370 | 568,473 | 580,812 | 593,397 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 32,625,550 | 33,694,162 | 34,425,490 | 35,171,424 |
| Yswiriant Cenedlaethol | 2,876,460 | 2,970,675 | 3,035,153 | 3,100,919 |
| Pensiynau Athrawon | 92,840 | 106,239 | 108,545 | 110,897 |
| Cyfraniadau Cronfa Pensiwn | 5,538,450 | 5,719,856 | 5,844,004 | 5,970,633 |
| Lwfansau Car | 636,260 | 636,260 | 668,073 | 668,073 |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 1,054,680 | 1,087,375 | 1,109,123 | 1,131,305 |
| Costau Staff Arall | 1,648,570 | 1,683,190 | 1,718,537 | 1,752,908 |
| Ardoll Prentisiaeth | 333,300 | 344,217 | 351,688 | 359,308 |
| **Cyfanswm Costau Staffio** | **45,362,480** | **46,810,448** | **47,841,425** | **48,858,865** |
| **Costau Unwaith ac am Byth** | | | | |
| Haulfre | 95,000 | 95,000 | 95,000 | 95,000 |
| Stem (4 mlynedd 2018/19 i 2021/22) | 37,500 | 37,500 | 37,500 | 37,500 |
| Bid Twf Rhanbarthol | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 |
| Tîm Trothwy Gofal | 240,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm Costau Unwaith ac am Byth** | **422,500** | **182,500** | **182,500** | **182,500** |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 4,037,420 | 4,122,206 | 4,208,772 | 4,713,825 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,699,360 | 1,701,059 | 1,702,760 | 1,702,760 |
| Treth Tirlenwi | 17,970 | 18,150 | 18,331 | 18,478 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,221,190 | 4,309,835 | 4,400,342 | 4,488,348 |
| Prydau Ysgol | 2,156,620 | 2,201,909 | 2,468,340 | 2,517,707 |
| Cludiant Ysgol | 2,502,960 | 2,555,522 | 2,609,188 | 2,661,372 |
| Contractau Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus | 1,906,060 | 1,946,087 | 1,986,955 | 2,026,694 |
| Gwasanaeth Addysg ar y Cyd | 3,162,640 | 3,323,935 | 3,393,737 | 3,461,612 |
| Lleoliadau Preswyl | 7,425,560 | 7,648,327 | 7,877,777 | 8,098,354 |
| Contractau Gofal Cartref | 3,566,130 | 3,641,019 | 3,717,480 | 3,791,830 |
| **Cyfanswm Costau Prif Gontractau'r Cyngor** | **30,695,910** | **31,468,048** | **32,383,683** | **33,480,980** |

| **Gwariant Refeniw** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwsanaethau Eraill a Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Lleoliadau Plant | 3,864,230 | 4,911,436 | 5,112,805 | 5,317,317 |
| Lleoliadau All Siriol Ysgolion | 982,520 | 1,052,279 | 1,095,422 | 1,139,239 |
| Byw a Chefnogaeth | 1,312,040 | 1,339,593 | 1,367,724 | 1,395,079 |
| Digartrefedd | 383,740 | 399,473 | 415,852 | 432,486 |
| **Cyfanswm Gwsanaethau a Arweinir gan y Galw** | **6,542,530** | **7,702,781** | **7,991,804** | **8,284,121** |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| Trethi Annomestig | 1,008,200 | 1,038,446 | 1,069,599 | 1,099,548 |
| Ynni | 1,104,940 | 1,150,243 | 1,197,402 | 1,245,299 |
| Costau Eiddo nad ydynt yn Ysgolion | 2,950,154 | 3,012,107 | 3,075,361 | 3,136,869 |
| Costau Cludiant | 228,812 | 233,617 | 238,523 | 243,293 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 18,946,804 | 19,344,687 | 19,750,925 | 20,145,944 |
| Lwfansau Aelodau | 686,700 | 707,988 | 722,147 | 736,590 |
| Ardoll Gwasanaeth Tân | 3,356,173 | 3,546,468 | 3,617,397 | 3,689,745 |
| Ardollau Eraill | 4,154 | 4,154 | 4,154 | 4,154 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,320,867 | 5,586,910 | 5,977,994 | 6,396,454 |
| Adenill Costau - CRT | - 38,050 | - 57,830 | - 70,986 | - 84,406 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 659,166 | 659,166 | 659,166 | 659,166 |
| Rhyddhad Trethol Dewisol Trethi Annomestig | 60,000 | 60,000 | 60,000 | 60,000 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - DRI | 3,036,380 | 3,265,540 | 3,437,882 | 3,667,144 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - Llog | 4,475,082 | 4,752,210 | 4,979,240 | 5,278,582 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **41,199,382** | **42,703,706** | **44,118,806** | **45,678,382** |
| **Pwysau Cyllidebau Posib** | | | | |
| Tendr Contract Gwastraff - Rheoli Prosiect | | 200,000 | | |
| Chwyddiant Ychwanegol Cyflog Athrawon 2018/19 | | 20,000 | | |
| Cronfa wrth Gefn - Cyflog a Graddio | | 100,000 | 100,000 | 100,000 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebau Posib** | **-** | **320,000** | **100,000** | **100,000** |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **161,556,702** | **68,025,152** | **172,639,201** | **177,574,697** |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau / Ad-dalu Cyrff Cyhoeddus | **- 17,816,550** | **- 18,190,698** | **- 18,572,702** | **- 18,944,156** |
| Incwm Statudol | **- 7,513,770** | **- 7,671,559** | **- 7,832,662** | **7,989,315** |
| Incwm Di-statudol | **- 5,281,170** | **- 5,439,605** | **- 5,602,793** | **- 5,770,877** |
| **Cyfanswm Incwm** | **- 30,611,490** | **- 31,301,862** | **- 32,008,157** | **- 32,704,348** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **130,945,212** | **136,723,290** | **140,631,044** | **144,870,348** |
| **Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol** | **-** | **-** | **- 4,979,528** | **- 7,042,779** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET DIWYGIEDIG** | **130,945,212** | **136,723,290** | **135,651,516** | **137,827,569** |

**Cyllidwyd gan:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw | **- 73,237,638** | **- 72,505,262** | **- 72,505,262** | **- 72,505,262** |
| Trethi Annomestig | **- 22,574,199** | **- 22,348,457** | **- 22,348,457** | **- 22,348,457** |
| Y Dreth Gyngor | **- 35,133,375** | **- 36,890,044** | **- 38,734,546** | **- 40,671,273** |
| **CYFANSWM CYLLID** | **- 130,945,212** | **-131,743,762** | **- 133,588,265** | **- 135,524,992** |
| | | | | |
| **Arbedion sydd eu Hangen** | **-** | **4,979,528** | **2,063,252** | **2,302,577** |

## RHAGBYBIAETHAU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG　　ATODIAD 3

| | 2019/20 | Terfynol 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 12.3% | 0.0% | 0.0% |
| Graddfeydd Yswiriant Gwladol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dyfarniad Cyflog nad ydynt yn Dysgu | 3.1% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau staff nad ydynt yn Dysgu | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Addasiad Trosiant Staff | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Drifft Cynyddraddol | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Chwyddiant Lwfans Car | 0.0% | 5.0% | 0.0% |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr - CPI | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Mynegai Prisiau Manwerthu - RPI | 3.0% | 3.0% | 2.8% |
| Chwyddiant Ynni | 4.1% | 4.1% | 4.0% |
| Incwm Anstatudol | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Llwyth Gwaith Lleoliadau Plant | 25.0% | 2.0% | 2.0% |
| Lleoliadau Ysgol All-Sirol | 5.0% | 2.0% | 2.0% |
| Llwyth Gwaith Di-gartrefedd | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Gwasanaeth Addysg ar y Cyd | 3.0% | 0.0% | 0.0% |
| Tunelli Gwaredu Gwastraff | -2.0% | -2.0% | -2.0% |
| Llwyth Gwaith CGDG | 0.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cynnydd Cyfraddau Llôg | 0.3% | 0.3% | 0.3% |
| Ardoll Tân | 5.7% | 2.0% | 2.0% |
| Ardollau Eraill | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Rhagamcanion CAC | -1.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% | 5.0% |
| Casglu Gwastraff | 2.1% | 2.1% | 12.0% |
| Gwaredu Gwastraff | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Treth Tirlenwi | 3.0% | 3.0% | 2.8% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Prydau Ysgol | 2.1% | 12.1% | 2.0% |
| Cludiant Ysgol | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Contractau Bysiau Gwasanaeth Cyhoeddus | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| DRI | 7.5% | 5.3% | 6.7% |
| Llog ar Fenthyciadau Ychwanegol | 5.9% | 4.5% | 5.8% |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **17 MEDI 2018** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2018/19** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES-OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 752663<br>bhofi@ynysmon.gov.uk; clkfi@ynysmongov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2018, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2018/19 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £130.870m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.075m ar gyfer ei wario ar eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Wedi hynny, lleihawyd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor gan £0.045m Felly, cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2018/19 yw £130.900m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2018/19 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.522m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.707m i ddelio gyda'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Mehefin 2018. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2018/19, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.744m. Mae hyn yn cyfateb i 1.33% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn i'w briodoli i bwysau ariannol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2017/18, yn arbennig felly cost y gwasanaethau statudol i blant.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E;
**(vi)** Trafod, argymell a chytuno ar opsiwn ar gyfer defnyddio'r ad-daliad TAW annisgwyl o oddeutu £800k. Mae esiamplau o opsiynnau'n cynnwys: credydu refeniw fel byddai'r arian wrth gefn cyffredinol yn gwella o £800k, credydu cronfa wrth gefn clustnodedig er mwyn buddsoddi yn y Canolfannau Hamdden neu gyfuniad o'r rhain hefo gwerth cytunedig ar gyfer pob un.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

| | | |
|---|---|---|
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydyw | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydyw | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2018/19
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2018/19
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2018/19
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2018/19
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2018/19 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 19 Chwefror 2018 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2018).

**ATODIAD A**

## MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1 2018/19

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor £9.466m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £1.869m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2017/18 at falansau cyffredinol a oedd, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, yn £6.352m. Yn ystod y cyfnod archwilio, nododd y tîm Technegol Cyfrifeg fod credyd o tua £0.600m i'w gredydu i refeniw mewn perthynas ag incwm gordaliadau Budd-daliadau a newidiadau darpariaeth dyledion drwg y Dreth Gyngor. Bydd hyn yn cynyddu'r balans cyffredinol i £6.952m. Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil unrhyw addasiadau a wneir ar ôl yr archwiliad. Yn ogystal, yn Awst 2018, derbyniodd CTheM cais y Cyngor am ad-daliad o DAW a dalwyd drosodd i CTheM ar Wasanaethau Hamdden. Daw hyn i oddeutu £800k net o gostau i'r Cyngor. Dywedodd barn gyfreithiol a wnaed yn Nhachwedd 2017 na ddyled godi TAW ar incwm Wasanaethau Hamdden, gan arwain at yr ad-daliad yn dyddio'n ôl i 2012. Ni ddangosir hyn yn y balansau cyffredinol isod gan ofynnir i'r Pwyllgor Gwaith drafod a chytuno sut dylid defnyddio'r incwm yma. Mae esiamplau o'r opsiynau'n cynnwys: cynyddu'r arian wrth gefn cyffredinol, creu cronfa wrth gefn clustnodedig i fuddsoddi yn y Canolfannau Hamdden neu gyfuniad o'r rhain ar symiau y cytunwyd arnynt. Byddai buddsoddi yn y canolfannau Hamdden yn cynyddu eu gallu i greu incwm yn y dyfodol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu hariannu o'r Gronfa Gyffredinol yn 2018/19:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £ 000 | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -6,952 | Yn amodol ar Archwiliad. |
| 6 Tachwedd 2017 | 125 | Ariannu'r tîm Ynys Ynni. |
| 30 Ebrill 2018 | 42 | Cyllideb i ariannu'r costau o redeg Melin Llynnon yn 2018, i'w hariannu o'r Gronfa wrth gefn Gyffredinol. |
| 21 Mai 2018 | 268 | Am i'r arian hwn gael ei ryddhau o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol am 12 mis i gefnogi a mentora 7 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. |
| Pwerau Dirprwyedig Swyddog Adain 151 | 24 | Trosglwyddo arian i'r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn ar gyfer Maes Parcio Mill Bank. |
| **Balans Cronfa Gyffredin Ddiwygiedig y Cyngor** | **-6,493** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwiliad.** |

Amcangyfrifir y bydd yr alldro rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 yn orwariant o £1.744m. Os bydd y duedd hon yn parhau, bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn debygol o ostwng i £4.749m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ymhell islaw isafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi'i osod ar £6.5m, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018.

## 2. Perfformiad Ariannol Rhagamcanedig fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £2.454m (2.16%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2019. Amcangyfrifir tanwariant o £412k ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £298k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor - mae £243k ohono i'w briodoli i warged ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £1.744m yn y gyllideb refeniw yn ei chyfanrwydd, sef 1.33% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagolygon yn cymryd i ystyriaeth unrhyw bwysau ychwanegol a all godi os ceir tywydd garw yn ystod y gaeaf (costau cynnal a chadw priffyrdd dros y gaeaf, costau gofal cymdeithasol). Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol ar y Cyngor yn parhau i fod yn gostau Rhiantu Corfforaethol. Disgwylir i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd orwario £1.283m. Mae hwn yn wasanaeth statudol a arweinir gan y galw ac ychydig o reolaeth sydd gennym drosto.

| **Crynodeb o'r amrywiadau rhagamcanedig ar 31 Mawrth 2019 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ar 30 Mehefin 2018** | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £ 000** |
| Dysgu | 470 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 1,283 |
| Oedolion | 112 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 167 |
| Trawsnewid | 238 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (144) |
| Costau na fedrir eu rheoli - dyledion drwg, yswiriant a chostau cyfalaf pensiynau | 200 |
| Cyllid Corfforaethol | (412) |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (298) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy’n llai na £100k) | 128 |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau – Gor/(tan)wariant** | **1,744** |

## 3. Esboniad o Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £147k (12.36%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd Chwarter 1. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £540k (13.06%).

**3.1.1.2** Rhagwelir y bydd nifer o or/danwariannau ar draws y Gwasanaeth. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol - Tacsis ble rhagwelir gorwariant o £323k. Disgwylir gorwariant o £127k ar Strategaeth AAA ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd oherwydd tangyflawni incwm £76k a chostau rheoli prosiect gwerth £65k ar gyfer cam 2 y strategaeth. Rhagwelir y bydd gorwariant o £81k o ran costau statudol integreiddio uwchradd a hynny oherwydd cynnydd yn y galw. Bydd y rhagolygon mewn perthynas ag integreiddio yn cael eu mireinio ymhellach unwaith y bydd trefniadau staffio Medi wedi'u cwblhau.

**3.1.1.3** Mae cais gan y Gwasanaeth am arian buddsoddi i arbed ar gyfer y system One Management wedi bod yn llwyddiannus. Disgwylir i fuddsoddiad yn y system hon leihau gwariant ar dacsis yn y blynyddoedd i ddod. Disgwylir hefyd i gydweithio â'r Gwasanaeth Caffael sicrhau arbedion yn y gyllideb tacsis. Disgwylir y bydd y system wedi cael ei hail-dendro erbyn Ionawr 2019, dim ond effaith cyfyngedig gaiff hyn ar sefyllfa’r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ni welir y buddiannau llawn o’r ymarferiad ail-dendro tan 2019/20.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £35k (6.67%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ac mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn danwariant o £70k (5.36%). Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant, sef £50k, yn dod o elfen staffio’r Gwasanaeth Llyfrgell oherwydd swyddi gwag. Rhagwelir tanwariant o £20k ar Amgueddfeydd ac Orielau oherwydd gwelliant ym mherfformiad yr Oriel.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £229k (4.07%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod, gyda'r rhagamcan o ran yr alldro ar gyfer y flwyddyn gyfan yn orwariant o £112k (0.46%).

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn: -

- Gwasanaethau i'r Henoed: tanwariant rhagamcanedig o (£328k);
- Anableddau Corfforol (AC): gorwariant rhagamcanedig o £296k;
- Anableddau Dysgu (AD): gorwariant rhagamcanedig o £344k;
- Iechyd Meddwl (IM): gorwariant rhagamcanedig o £102k;
- Uned Ddarparu: tanwariant rhagamcanedig o (£205k); a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: tanwariant rhagamcanedig o (£97k).

**3.2.3** Yr un modd â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r pwysau cyllidebol mwyaf arwyddocaol yn y Gwasanaethau Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae hyn oherwydd cynnydd yn y nifer o leoliadau arbenigol cost uchel sydd eu hangen i gwrdd â chymhlethdod anghenion y Defnyddwyr Gwasanaeth hyn.

**3.2.4** Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i helpu i wrthbwyso'r gorwariant trwy leihau gwariant yn y meysydd hynny y mae ganddo fwy o reolaeth drostynt. Rhagwelir tanwariant o £205k yn yr uned ddarparu fewnol a thanwariant o £97k erbyn diwedd y flwyddyn mewn perthynas â Rheolaeth a Chefnogaeth.

**3.2.5** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan alw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i geisio rhagamcanu costau y dyfodol o'r gyllideb hon a arweinir gan y galw am wasanaethau. Mae rhagamcanu ar gyfer diwedd y flwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar bob lleoliad i oedolion. Mae hyn yn golygu fod rhagamcanu y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn gyfan yn hynod o anodd ac yn gallu amrywio'n fawr iawn o un cyfnod i'r llall.

**3.2.6** Cyflwynwyd bidiau llwyddiannus am grantiau o'r Cronfeydd Gofal Canolraddol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer Anableddau Dysgu, ac yn benodol i gefnogi trosglwyddiad defnyddwyr gwasanaeth i wasanaethau gwahanol, a all fod yn llai costus, ac sydd, o bosib, yn cynnig gwell canlyniadau i unigolion. Yn ychwanegol at hyn, mae'r adran yn ymgysylltu gyda darparwyr gwasanaethau byw â chymorth ynglŷn â'r posibilrwydd o gyd-gynhyrchu, gyda golwg ar newid y modd y caiff canlyniadau eu diwallu ar gyfer unigolion o fewn yr amgylchedd hwn.

**3.2.7** Mae alldro'r chwarter cyntaf yn dangos cynnydd yn y galw o ran Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol. Bydd asesiad pellach o'r meysydd hyn yn cael ei gynnal er mwyn ystyried unrhyw gamau posibl i reoli gwariant dros y flwyddyn.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Cafwyd gorwariant o £427k (19.43%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £1,283k (15.42%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys gorwariant rhagamcanedig o £1,323k ar Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Darparwyd cyllid ychwanegol o £268k o Gronfa wrth gefn Gyffredinol y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth er mwyn ymestyn contractau gweithwyr cymdeithasol asiantaeth i gefnogi a mentora gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar: -

- rhagdybiaeth achos gwaethaf mewn perthynas â'r galw am / costau'r gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn seiliedig ar gostau'r gwasanaeth / y galw / y galw tebygol yn y dyfodol;
- rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Mae'n anodd iawn rhagweld y rhain a gall amgylchiadau unigol newid, ac maent yn newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau / datblygiadau o ran achosion, gwnaethpwyd y rhagamcan gorau sy'n bosibl. Mae cost PDG, oherwydd natur y gwasanaeth, yn dibynnu ar y galw a gall amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos mewn darpariaeth arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyriadau a gyfeirir gan y llys e.e. asesiadau o lety preswyl / llety â chymorth ar gyfer rhieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill, sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn cael eu harwain gan y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn cynnal yr achosion, sydd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

**3.3.4** Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Plant yn mynd trwy broses ailstrwythuro lle bydd y ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Mae'r strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi plant i barhau i fyw gartref yn ddiogel. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarperir ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal yn cefnogi hyn ond bydd hyn yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yw'r prif reswm pam mae'r Gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn nifer y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn dros y 3 blynedd ddiwethaf. Y gost flynyddol ar gyfartaledd ar gyfer lleoliad preswyl yw £220k.

**3.3.5** I liniaru'r gorwariant ar y lleoliadau hyn, mae'r Gwasanaeth wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer 2018/19 sy'n cynnwys: adolygu'r plant / y bobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd; anelu at gynyddu'r dewisiadau o leoliadau sydd ar gael ar yr Ynys; cefnogi plant i ddychwelyd adref pan fydd yn ddiogel gwneud hynny; ac adolygu'r modd y caiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer lleoliadau preswyl. Erbyn hyn, mae angen caniatâd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer pob lleoliad preswyl.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £29k (5.95%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd gorwariant o £25k (2.45%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn oherwydd pwysau costau llety Gwely a Brecwast Digartrefedd ar y gyllideb.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £102k yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 1 (15.81%). Rhagwelir y bydd y gwasanaeth o fewn y gyllideb (0%) erbyn 31 Mawrth 2019.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tanwariant o ran staffio oherwydd swyddi gwag ac incwm ad-dalu dros ben o raglenni mawr, fodd bynnag, mae costau sy'n gwrthbwyso o ran cyflenwadau a gwasanaethau.

**3.5.1.3** Disgwylir i'r adain Forwrol fod o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys ail-baentio Pier Biwmares ble trosglwyddwyd £75k i gronfa wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd 2017/18 er mwyn ariannu'r gwaith. Yn ogystal, bydd y tanwariant rhagamcanedig o £30k a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â chostau'r gwaith ail-baentio a fydd yn cael ei wneud tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

**3.5.1.4** Rhagwelir hefyd y bydd yr adain Hamdden gyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae incwm y canolfannau hamdden wedi newid oherwydd y newidiadau yn y modd y caiff TAW ar incwm Hamdden ei drin. Fodd bynnag, disgwylir y bydd amrywiadau o fewn y gwasanaeth.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £53k (14.6%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £46k (2.36%) ar gyfer y flwyddyn, sy'n gysylltiedig â'r Adain Gwarchod y Cyhoedd.

**3.5.2.2** Mae'r Adain Gwarchod y Cyhoedd yn rhagweld gorwariant o £46k y gellir ei briodoli i nifer o feysydd. Disgwylir y gorwariant mwyaf arwyddocaol yn yr Adain Iechyd yr Amgylchedd (£30k) lle mae tangyflawni hanesyddol o ran incwm rheoli llygredd a gorwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £20k yn y gwasanaeth rheoli pla oherwydd tangyflawni hanesyddol o ran ffioedd rheoli pla. Disgwylir gorwariant hefyd eto mewn perthynas â Safonau Masnach a Marchnadoedd oherwydd tangyflawni incwm. Fodd bynnag, mae Trwyddedu yn gwneud mwy o incwm na'r disgwyl a rhagwelir tanwariant o £29k erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.5.2.3** Rhagwelir y bydd yr Adain Gynllunio yn cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19. Ni ddisgwylir cyrraedd rhai targedau incwm Cynllunio. Fodd bynnag, bydd tanwariant o ran Gweinyddiaeth a Rheoli Cynllunio a Rheoli Adeiladu yn gwrthbwyso'r diffyg hwn. Mae'r meysydd hyn yn gwneud mwy o incwm na'u targed.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £201k (11.71%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd gorwariant o £5k (0.08%) erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys effaith y gwaith cynnal a chadw y bydd angen ei wneud dros y gaeaf oherwydd mae'n rhy gynnar yn y flwyddyn i asesu hyn.

**3.6.1.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau sy'n gwrthbwyso, a'r gorwariant mwyaf arwyddocaol yw'r swm o £80k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a Chadw a £50k ar y gyllideb waith. Mae'r tanwariant mwyaf i'w weld yng Ngwaith Stryd, ble rhagwelir tanwariant o £100k.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £13k (0.83%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn a rhagwelir gorwariant o £20k (0.27%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn cynnwys effaith y Safle Cynhyrchu Trydan a allai newid y sefyllfa alldro. Mae hyn oherwydd bod y Peiriant Cynhyrchu yn cael ei ddisodli gan ddau beiriant llai. Ni fydd effaith hyn yn hysbys hyd hanner olaf y flwyddyn.

**3.6.2.2** Rhagwelir tanwariant o £10k ar gyfer Penhesgyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £40k yng ngwaredu gwastraff oherwydd y lefelau ailgylchu uchel ac mae deunydd y gellir ei ailgylchu yn rhatach i'w waredu. Disgwylir gorwariant o £20k mewn perthynas â thoiledau cyhoeddus a hynny oherwydd y risg na fydd y targed arbedion yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf arwyddocaol yng Nghasglu Gwastraff, a rhagwelir gorwariant o £60k am y flwyddyn. Gallai'r pwysau cynyddol ar y grant ailgylchu olygu bod llai o gostau casglu gwastraff yn cael eu dyrannu yn erbyn y grant, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb casglu gwastraff.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Rhagwelir gorwariant o £142k (15.67%) yn y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.6.3.2** Amcangyfrifir bydd gorwariant o £65k ar drwsio a chynnal a chadw adeiladau'r Cyngor. Rhagwelir bydd gorwariant o £76k yn y Gwasanaeth Glanhau, mewn perthynas â glanhau ysgolion cynradd, lle nid oes unrhyw arian pellach ar gael gan y Gwasanaeth Dysgu i gyllido'r gwaith hwn. Gwneir pob ymdrech gan y gwasanaeth i adnabod meysydd lle gellid lleihau gwariant er mwyn gostwng y gorwariant. Bydd y Gwasanaeth Eiddo yn gweithio â'r Gwasanaeth Dysgu mewn perthynas â'r cyllidebau Costau Glanhau Ysgolion.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Roedd gorwariant o £433k (8.95%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Disgwylir bydd gorwariant yn Trawsnewid, yn ei gyfanrwydd, o £238k (5.40%) oherwydd gorwariant yn yr Adain TGCh.

**3.7.1.1** Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £327k yn yr Adain TGCh. Mae'r holl gyllidebau ar gyfer meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio rhai'r ysgolion, wedi'u canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn y Gwasanaeth TGCh. Credir nad yw'r cyllidebau meddalwedd yn ddigonol yn hanesyddol ond, unwaith bydd y broses o'u canoli wedi ei sefydlu'n llawn, disgwylir gostyngiad yn y costau hyn. Rhagwelir gorwariant o £257k ar feddalwedd a disgwylir y bydd gorwariant o £70k ar Cyswllt Ynys Môn oherwydd incwm isel gan fod llai o safleoedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Cwblheir gwaith pellach i ddadansoddi costau gwirioneddol caledwedd a meddalwedd ac os oes digon o gyllidebau ar eu cyfer. Gall hyn arwain at drosglwyddo rhagor o gyllidebau o'r Gwasanaethau i TGCh neu drosglwyddo'r costau'n ôl i'r gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn newid yr effaith cyffredinol ar y rhagolwg ar gyfer y Cyngor.

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth AD yn rhagweld cyllideb gytbwys am y flwyddyn.

**3.7.1.3** Rhagwelir y bydd yr adain Trawsnewid Corfforaethol â thanwariant o £89k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd tanwariant ar gyllidebau staffio.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd gorwariant o £21k (2.68%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £29k (1.03%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.8.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £71k yn Refeniw a Budd-daliadau, yn bennaf oherwydd y diffyg o £51k a ragamcenir mewn perthynas â grantiau. Rhagamcenir bydd gorwariant o £31k ar staff oherwydd absenoldeb mamolaeth a gwasanaeth llanw arall, fodd bynnag, mae yna danwariant bychan yn y gwasanaeth a fydd yn lleihau'r gorwariant cyffredinol. Mae'r Adain Archwilio yn rhagamcanu tanwariant o £27k oherwydd nifer o swyddi gwag; llwyddwyd bellach i recriwtio i'r swyddi hyn. Rhagwelir gorwariant o £40k yn yr Adain Gyfrifeg erbyn diwedd y flwyddyn, a bydd y gorwariant mwyaf i'w briodoli i daliadau banc - a fydd, fe dybir, yn gorwario £25k. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £55k yn y gwasanaeth Caffael, yn bennaf oherwydd arbedion o gyllidebau wedi eu canoli.

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd gorwariant o £5k (1.14%) yn y swyddogaeth ar 30 Mehefin 2018 a disgwylir y bydd gorwariant o £28k (1.83%) ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y gorwariant o £181k yn ystod 2017/18.

**3.9.2** Gellir priodoli'r gorwariant mwyaf arwyddocaol ym Musnes y Cyngor i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ble rhagwelir gorwariant o £27k. Disgwylir gorwariant gan y Gwasanaethau Cyfreithiol o £26k ar gostau asiantaeth; rhagwelir diffyg oddeutu £10k ar darged incwm y Gwasanaethau Cyfreithiol; mae gorwariant o £8k ar y swydd Undeb Llafur nad oes cyllideb ar ei chyfer a gorwariant bychan ar Wybodaeth Gorfforaethol a Chwynion. Bydd cyfanswm y gorwariant yn cael ei ostwng rhywfaint oherwydd y gwarged o £20k a ragwelir mewn perthynas ag incwm Pridiannau Tir.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £93k (8.80%) yn y swyddogaeth hon yn ystod y cyfnod. Rhagamcenir tanwariant o £144k (4.19%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Y prif bwysau cyllidebol sy'n effeithio'r swyddogaeth yw costau cwnsela staffio lle disgwylir gorwariant o £25k. Fodd bynnag, mae tanwariant mewn nifer o feysydd. Disgwylir y bydd grant archwilio gwerth £67k yn cael ei ad-dalu ac y bydd arbediad disgwyliedig hefyd oddeutu £12k ar ffioedd archwilio. Mae tanwariant hanesyddol o £56k ar yr addasiad ar gyfer pensiynau. Mae tanwariant hefyd ar y cyfraniadau pensiwn i Wynedd.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £1k (0.61%) yn y swyddogaeth hon ar ddiwedd y Chwarter. Disgwylir cyllideb gytbwys ar gyfer Rheolaeth Gorfforaethol.

### 3.12 Amcangyfrif o effaith Costau Gwasanaeth sydd y tu allan i Reolaeth Penaethiaid Gwasanaethau

**3.12.1** Bob blwyddyn, ceir costau sydd y tu hwnt i reolaeth Penaethiaid Gwasanaethau. Mae'r costau hyn yn dueddol o gynnwys: darpariaethau dyledwyr drwg o ran mân-ddyledwyr nad oes cyllideb ar eu cyfer, costau yswiriant a chostau cyfalaf pensiynau. Rhagamcenir gorwariant o £200k ar y costau hyn na ellir eu rheoli. Nid yw'r costau hyn wedi'u dangos yn erbyn y gwasanaethau unigol gan mai dim ond y costau sydd o fewn rheolaeth y Penaethiaid Gwasanaethau sy'n cael eu hadrodd arnynt yn erbyn llinellau gwasanaeth unigol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, fod â thanwariant o £412k (2.37%) ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £84k mewn perthynas â Budd-daliadau a Roddwyd. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £92k ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gorwariant o £12k ar Daliadau Tai Dewisol. Mae gwarged incwm oddeutu £4k ar Or-daliadau Budd-daliadau Tai. Rhagamcenir tanwariant o £331k hefyd ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd arbedion a wneir yn sgil benthyca'n fewnol, gohirio ail-ariannu benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cydymffurfio â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19.

**4.2** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol o ran cyllidebau wrth gefn ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn a oedd werth cyfanswm £1.789m fel rhan o gyllideb 2018/19. Mae £157k net wedi cael ei drosglwyddo i / o wasanaethau i ariannu prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £1.055m wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn ac mae £577k yn weddill.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2017. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor yn rhagori ar ei ffigwr targed gan £55k. Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £243k yn uwch na'r targed a osodwyd. Yn gyffredinol, felly, rhagwelir y bydd gwarged o £298k ar gasglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2018/19

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.522m o gyllidebau'r gwasanaeth ar gyfer 2018/19 a rhagwelir y bydd gwerth £2.387m o arbedion wedi cael eu cyflawni, neu y byddant wedi cael eu cyflawni, erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, efallai na fydd modd cyflawni £135k. Disgwylir y bydd y diffyg mwyaf o safbwynt arbedion i'w weld yn y Gwasanaeth Dysgu a fydd, fe ragwelir, £89k yn fyr o'r targed oherwydd ail-dendro contractau a'r clwb gofal bore. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Y balans agoriadol gweddilliol ar 1 Ebrill 2018 oedd £652k. Hyd yma, gwariwyd neu ymrwymwyd £104k o'r dyraniad yma o gyllideb yn ystod 2018/19. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nag eraill. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bod un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Lle ni fydd y prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2019/20 a bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghoriaeth

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, mae £224k wedi cael ei wario ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu hariannu'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £149k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant, yn bennaf tra bod y gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £54k ar staff asiantaeth safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £401k ar wasanaeth ymgynghoriaeth yn ystod Chwarter 1 ac fe gafodd £285k o'r swm hwn ei gyllido'n allanol o grantiau neu gyfraniadau. Mae nifer o resymau am y defnydd o ymgynghorwyr ac mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol o'r gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Rhagamcenir gorwariant cyffredinol o £1.744m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn debyg iawn i'r gorwariant drafft o £1.659m yn 2017/18. Mae £2.454m o hyn i'w briodoli i gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n cynnwys nifer o or a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n dal i wynebu pwysau cyllidebol sylweddol yn debyg i 2017/18 (y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn gweithio i leihau'r gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £0.412m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a rhagwelir y bydd y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, yn casglu gwarged o £0.298m. Felly, mae'r gorwariant cyffredinol wedi'i ostwng i £1.744m. Y lefel ragamcanedig o orwariant yw 1.33% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol pe bai'r gorwariant yn digwydd.

**9.2** Er y gall y lefel hon o orwario gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn dihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ffigwr sy'n llawer is na'r isafswm a dderbynnir yn gyffredinol. Yn ystod y broses o osod cyllideb 2019/20, bydd angen ariannu'r lefel sylfaenol o orwariant a dechrau'r broses o ailgyflenwi'r balansau cyffredinol. Mae hon yn ddull ddarbodus ac mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor y Cyngor.

**9.3** Gall y rhagolygon hyn newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd chraffu rheolaidd o du'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chamau adferol gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu'r gwasanaethau i reoli o fewn y cyllidebau y gallent eu rheoli.

**Alldro Refeniw Rhagamcaneidig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2019 – Chwarter 1**

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2018/19 Blwyddyn Gyllidol Hyd yn Hyn | Ch1 Gwariant Gwirioneddol a Gwariant Wedi ei Ymrwymo | Ch1 Amrywiant 2018/19 | Ch1 Gwwariant Gwirioneddol a Gwariant wedi ei Ymrwymo | Ch1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch1 Amcangyfrif Alldro 31 Mawrth 2019 Gor/(tan) wariant | 2018/19 Rhagamcan Gor/(Tan) wariant fel % o Gyfanswm Cyllideb | Gor/Tan Wariant Drafft Flwyddyn Diwethaf 2017/18 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £’000 |
| **ADDYSG GYDOL OES** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig | 43,084 | 11,391 | 11,391 | 0 | 0.00% | 43,084 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog | 4,135 | 1,186 | 1,333 | 147 | 12.36% | 4,675 | 540 | 13.06% | 893 |
| Diwylliant | 1,305 | 527 | 492 | -35 | -6.67% | 1,235 | -70 | -5.36% | -147 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | 24,427 | 5,613 | 5,842 | 229 | 4.07% | 24,539 | 112 | 0.46% | 215 |
| **GWASANAETHAU PLANT** | 8,321 | 2,197 | 2,623 | 427 | 19.43% | 9,604 | 1,283 | 15.42% | 1,778 |
| **TAI** | 1,021 | 485 | 456 | -29 | -5.95% | 1,046 | 25 | 2.45% | 7 |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,264 | 1,714 | 1,914 | 201 | 11.71% | 6,269 | 5 | 0.08% | -100 |
| Eiddo | 906 | 55 | 55 | 0 | 0.00% | 1,048 | 142 | 15.67% | 55 |
| Gwastraff | 7,490 | 1,618 | 1,604 | -13 | -0.83% | 7,510 | 20 | 0.27% | -63 |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,733 | 645 | 746 | 102 | 15.81% | 1,733 | 0 | 0.00% | -10 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,948 | 362 | 309 | -53 | -14.60% | 1,994 | 46 | 2.36% | 9 |
| **TRAWSNEWID** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,231 | 351 | 335 | -16 | -4.52% | 1,231 | 0 | 0.00% | -61 |
| TGCh | 2,352 | 614 | 1,093 | 479 | 77.99% | 2,679 | 327 | 13.90% | 45 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 820 | 160 | 130 | -30 | -18.74% | 731 | -89 | -10.86% | -158 |
| **ADNODDAU** | 2,828 | 789 | 811 | 21 | 2.68% | 2,857 | 29 | 1.03% | -3 |
| **BUSNES Y CYNGOR** | 1,529 | 417 | 422 | 5 | 1.14% | 1,557 | 28 | 1.83% | 181 |
| **COSTAU CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD** | 3,433 | 1,054 | 961 | -93 | -8.80% | 3,289 | -144 | -4.19% | -205 |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2018/19 Blwyddyn Gyllidol Hyd yn Hyn | Ch1 Gwariant Gwirioneddol a Gwariant Wedi ei Ymrwymo | Ch1 Amrywiant 2018/19 | Ch1 Gwwariant Gwirioneddol a Gwariant wedi ei Ymrwymo | Ch1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Ch1 Amcangyfrif Alldro 31 Mawrth 2019 Gor/(tan) wariant | 2018/19 Rhagamcan Gor/(Tan) wariant fel % o Gyfanswm Cyllideb | Gor/Tan Wariant Drafft Flwyddyn Diwethaf 2017/18 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **RHEOLAETH CORFFORAETHOL** | 657 | 163 | 164 | 1 | 0.61% | 657 | 0 | 0.00% | -81 |
| Amcangyfrif o Effaith Costau na ellir eu Rheoli | | | | | | 200 | 200 | | 158 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU GWASANAETH** | **113,483** | **29,339** | **30,681** | **1,342** | **4.57%** | **115,937** | **2,454** | **2.16%** | **2,513** |
| Ardollau | 3,360 | 3,360 | 3,361 | 1 | 0.02% | 3,360 | 0 | 0.00% | -2 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 60 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 63 | 3 | 5.00% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,511 | 0 | -11 | -11 | 0.00% | 7,180 | -331 | -4.41% | -494 |
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,632 | 1,632 | 1,055 | -577 | -36.01% | 1,632 | 0 | 0.00% | 106 |
| Gwasanaethau Cefnogol – Cyfraniad CRT | -693 | 0 | 0 | 0 | 0 | -693 | 0 | 0.00% | -82 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 5,546 | 687 | 687 | 0 | 0.07% | 5,462 | -84 | -1.51% | -310 |
| **CYFANSWM CYLLID CORFFORAETHOL** | **17,417** | **5,679** | **5,095** | **-597** | **-10.33%** | **17,004** | **-412** | **-2.37%** | **-782** |
| **CYFANSWM 2018/19** | **130,900** | **35,019** | **35,774** | **756** | **2.16%** | **132,941** | **2,042** | **1.56%** | **1,731** |
| **CYLLIDO** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | -22,574 | -6,946 | -6,946 | 0 | 0.00% | -22,574 | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | -34,440 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | -34,495 | -55 | 0.16% | -72 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | -648 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | -891 | -243 | 37.47% | |
| Grant Cynnal Refeniw | -73,238 | -22,535 | -22,535 | 0 | 0.00% | -73,238 | 0 | 0.00% | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID 2018/19** | **-130,900** | **-29,481** | **-29,481** | **0** | **0.00%** | **-131,198** | **-298** | **0.00%** | **-72** |
| **CYFANSWM ALLDRO YN CYNNWYS EFFAITH Y CYLLIDO** | **0** | **5,538** | **6,293** | **755** | **13.63%** | **1,744** | **1,744** | **1.33%** | **1,659** |

**Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol ar Gyllidebau Wrth Gefn 2018/19 fel yn Chwarter 1**

| | Cyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Cyllideb Ddiwygedig<br>£ | Ymrwymedig hyd yma (31/12/17)<br>£ | Gweddill Cyfredol sydd heb ei ymrwymo<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol | 359,166 | 15,410 | 374,576 | (44,530) | 330,046 |
| Cyflog a Graddio | 300,000 | (53,030) | 246,970 | - | 246,970 |
| Trothwy Gofal | 240,000 | - | 240,000 | (240,000) | - |
| Cronfa Wrth Gefn Glustnodedig | 739,890 | (119,000) | 620,890 | (620,890) | - |
| Chwyddiant Cyflogau | 150,000 | - | 150,000 | (150,000) | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,789,056** | **(156,620)** | **1,632,436** | **(1,055,420)** | **577,016** |

**ATODIAD CH**

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed – 2018/19

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-wyd £ | Swm a Ddyranwyd (cyfanswm – dim Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm a Wariwyd i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad am 2018/19 £ | Gwariwyd hyd yn hyn 2018/19 £ | Cyllideb sy'n Weddill 2018/19 £ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | System Rheoli Dogfen Electronic ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Darparu datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 127,856 | 42,144 | 42,144 | 31,840 | 10,304 | Rhan fwyaf wedi ei gwblhau, mae rhywfaint o waith yn parhau ar brosesau awtomataidd. |
| **T.G.** | Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd y prosiect yn 2017/18. Gorwariodd y prosiect £4.5k a ariannwyd gan refeniw. |
| **T.G. / Trawsnewid** | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu System CRM | 255,000 | 255,000 | 33,597 | 221,276 | 211,678 | 9,598 | 202,080 | Mae'r prosiect yn dod ymlaen yn dda gyda'r technoleg craidd mewn lle. |
| **T.G./ Adnoddau** | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn galluogi taliadau i gael eu derbyn drwy'r App | 27,000 | 27,000 | 6,000 | 21,000 | 21,000 | 5,225 | 15,775 | Gwaith integreiddio'r Porth Talu wedi cael ei gwblhau ar yr ochr CRM ac AppMon, oedi ar ochr Capita yn dal y prosiect yn ôl. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | Gwella gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau Cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 118,000 | 40,464 | 77,536 | 77,536 | 28,437 | 49,099 | Caiff yr arian ei ddefnyddio'n llawn yn 2018/19 i ariannu'r swydd |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-wyd £ | Swm a Ddyranwyd (cyfanswm – dim Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm a Wariwyd i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad am 2018/19 £ | Gwariwyd hyd yn hyn 2018/19 £ | Cyllideb sy'n Weddill 2018/19 £ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | Gwella'r Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd gyda chysylltiadau i'r ffynhonellau incwm cyfredol ac sy'n caniatâu dulliau newydd o gasglu incwm | 150,000 | 150,00 | 59,078 | 90,922 | 90,922 | 18,147 | 72,775 | Mae'r broses o brynu'r system wedi ei gwblhau a disgwylir y bydd yn weithredol yn ystod 2018/19 |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu modiwlau sydd heb eu defnyddio yn y System Gwybodaeth Reoli UN | 72,000 | 72,000 | 52,529 | 19,471 | 19,471 | 10,551 | 8,920 | Mae'r prosiect yn mynd ymlaen yn dda, disgwylir fod wedi ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2019 |
| **Dysgu Gydol Oes** | Moderneiddio Busnes | Gwefan i'r Oriel | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | Mae'r gwaith yn gysylltiedig â'r prosiect ehangach ar y wefan gorfforaethol. Disgwylir ei ddefnyddio'n llawn yn 2018/19 |
| **T.G. / Trawnewid** | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Ddiofyn | Cyflogi Swyddog Arweiniol Digidol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Nid oes unrhyw wariant wedi'i wneud hyd yn hyn gan fod recriwtio'r arweinydd digidol wedi'i ddal yn ôl hyd nes y bydd System newydd Rheoli Cynnwys y We wedi'i roi ar waith er mwyn alinio pob platfform digidol ac yna cael y gorau o'r 2 flynedd o gyllid ar gyfer y swyddi dros dro. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy - wyd £ | Swm a Ddyranwyd (cyfanswm – dim Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm a Wariwyd i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Dyraniad am 2018/19 £ | Gwariwyd hyd yn hyn 2018/19 £ | Cyllideb sy'n Weddill 2018/19 £ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Cysylltedd digidol gwell o fewn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system ar sail cwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r meddalwedd yn ateb i Gymru gyfan ac mae wedi'i brynu drwy gyfrwng cytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 Cyngor yng Nghymru. | £10,000 bob blwyddyn am 4.5 blynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Nid oes unrhyw wariant wedi'i wario hyd yn hyn ond disgwylir i'r cynllun ddechrau yn y flwyddyn ariannol hon. |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **334,785** | **652,349** | **557,751** | **103,798** | **453,953** | |

**ATODIAD D**

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2018/19

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19<br>£'000 | Cyraeddadwy 2018/19<br>£'000 | Anghyraeddadwy o bosib 2018/19<br>£'000 | Ni chyflawnir o gwbwl<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | 358 | 269 | 89 | 0 | Mae'n debygol cyflawnir £55k o'r arbedion arfaethedig o £79k ar gyfer gostwng costau rheoli dysgu cerddordiaeth, gan disgwylir cyflawnir yr arbedion o Medi ymlaen. Nid yw'r gwasanaeth wedi gallu ail-dendro'r contractau torri glaswellt ysgolion tan yn hwyrach na'r disgwyl, gan arwain at ddiffyg disgwyliedig o arbedion. Fe ail-dendrir y gontract o Rhagfyr 2018. Tangyflawnwyd yn sylweddol ar yr incwm a gasglwyd mewn perthynas â'r clwb gofal bore yn 2017/18 ac, er fod yr incwm a gasglwyd yn y chwarter cyntaf o 2018/19 efallai'n uwch na'r chwarter cyntaf o 2017/18, mae'n dal yn debygol bydd yn sylweddol is na'r gyllideb. Ysgolion sy'n gyfrifol am gasglu'r incwm yma ac fe drafodwyd y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb yma yn y fforwm ysgolion yn ystod 2017/18. Penderfynodd y fforwm i beidio ddirprwyo'r gyllideb am nawr, ac i roi 1 blwyddyn i'r ysgolion i wella eu casglu incwm. Petai'r sefyllfa ddim yn gwella yn 2018/19, trafodwn unwaith eto y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb er mwyn cymell ysgolion i facsimeiddio casglu incwm. |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | 125 | 120 | 5 | 0 | Nid yw'r caffi yng Nghanolfan Hamdden Caergybi wedi ei allanoli eto. Mae wedi cael ei roi allan i gaffael, ac fe ddangoswyd rhywfaint o ddiddordeb. Disgwylir allanoli'r caffi erbyn Medi. Hyd yma, mae'r costau ychydig bach o flaen gwerthiannau, a dylid gyflawni'r arbedion o Medi ymlaen. |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | 366 | 336 | 30 | 0 | Hyd yma nid yw'r gwasanaeth wedi gallu trosglwyddo unrhyw un o'r cyfleusterau y cynlluniwyd gwneud yn ystod 2018/19 oherwydd diffyg diddordeb gan Cynghorau Tref / Cymuned. Mae Eiddo yn parhau i geisio hwyluso allanoni'r Toiledau Cyhoeddus. |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 350 | 350 | 0 | 0 | Er gwaethaf yr oedi wrth agor Hafan Cefni, y disgwylir bellach i agor canol Medi, mae'r ffaith fod y canolbwynt ar sicrhau fod y rheini sy'n cael eu derbyn ar gyfer y fflatiau y rhai a byddai, fel arall, angen lleoliad neu gofal, yn golygu fod yr arbedion dal yn gyraeddadwy. |
| **Tai** | 23 | 19 | 4 | 0 | Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwaith mewn perthynas â'r cynnydd yn y ffî ar gyfer gwaith EPC bellach wedi cyflwyno cais am ddiswyddo gwirfoddol, gan ei wneud yn anodd i wirio a yw'r arbediad arfaethedig yma'n gyraeddadwy neu beidio. Bydd y gwasanaeth yn edrach i gyflawni'r arbediad £4k yn rhywle arall o fewn cyllidebau'r gwasanaeth. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2018/19 £'000 | Cyraeddadwy 2018/19 £'000 | Anghyraeddadwy o bosib 2018/19 £'000 | Ni chyflawnir o gwbwl £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | 40 | 33 | 7 | 0 | Ni chynhyrchwyd unrhyw incwm hyd yma drwy werthu mannau hysbysebu ar wefan y Cyngor ac mae'n edrych yn anhebygol o ddigwydd eleni. Ni chynhyrchwyd unrhyw incwm hyd yma drwy waith ymgynghori allanol, ac mae'n edrych yn anhebygol o ddigwydd eleni. Edrychir yn rhywle arall o fewn cyllidebau'r gwasanaeth am yr arbedion. |
| **Busnes y Cyngor** | 1,236 | 1,236 | 0 | 0 | Mae'r cyllidebau penodol wedi cael eu dileu ac mae'r gwariant o fewn y gyllideb ar hyn o bryd, ac ar darged i gyflawni'r arbedion. Yn ôl ymgynghorwyr, mae'n debygol y cyflawnir yr arbedion a gynnigwyd o ganlyniad i adolygiad o'r polisi DRI. |
| **Adnoddau** | 24 | 24 | 0 | 0 | Fe ddilewyd cyllideb ac, yn gyffredinol, mae'r cyllidebau'n tanwario. |
| **Cyfanswm** | **2,522** | **2,387** | **135** | **0** | |

**Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2018**

| Gwasanaeth | £ | Arianwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| **Gwastraff** | 5,966.62 | Cyllideb Craidd benodol | Swydd wag – Cyflogaeth wedi dod i ben |
| | 350.75 | Cyllideb Craidd benodol | Swydd wag – Cyflogaeth wedi dod i ben |
| | 2,334.62 | Cyllideb Craidd benodol | Swydd wag – Cyflogaeth wedi dod i ben |
| | 662.12 | Cyllideb Craidd benodol | Gwaith Penodol – unwaith ac am byth |
| | 18,343.75 | Cyllideb Craidd benodol | Angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 19,635.87 | Cyllideb Craidd benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD. |
| | 7,214.46 | Cyllideb Craidd benodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD. |
| | **54,508.19** | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 27,080.61 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio ac arian wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag tra mae ail-strwythuro yn cymryd lle |
| | 93,853.19 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio ac arian wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag tra mae ail-strwythuro yn cymryd lle |
| | 3,375.00 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio ac arian wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag tra mae ail-strwythuro yn cymryd lle |

| | £ | Ariannwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| | 23,620.85 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio ac arian wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag tra mae ail-strwythuro yn cymryd lle |
| | 1,020.00 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staffio heb ei ddefnyddio ac arian wrth gefn wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith | I lenwi swyddi gwag tra mae ail-strwythuro yn cymryd lle |
| | **148,949.65** | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 20,008.68 | Cyllideb Craidd | I lenwi swyddi gwag |
| | 750.00 | Arianwyd o Grant | I weithio ar brosiect penodol |
| | **20,758.68** | | |
| **Cyfanswm** | **224,216.52** | | |

**ATODIAD E**

## Gwybodaeth Ynghylch â Monitro Ymgynghorwyr 2018/19

| Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 Fesul Gwasanaeth/Swyddogaeth | |
|---|---|
| | **Ch 1 (£)** |
| Addysg Canolog | 8,133 |
| Diwylliant | 6,070 |
| Economaidd ac Adfywio | 286,501 |
| Eiddo | 640 |
| Priffyrdd | 20,289 |
| Ysgolion | 0 |
| Gwastraff | 7,911 |
| CRT | 9,215 |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,400 |
| Gwasanaethau Plant | 0 |
| Trawsnewid | 2,136 |
| Busnes y Cyngor | 10,711 |
| Adnoddau | 45,911 |
| | |
| **Cyfanswm** | **400,917** |

Rhoddir dadansoddiad manylach o hyn isod.

**Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 1 2018/19**

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Addysg Canolog | 8,050 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Ffioedd Proffesiynnol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Addysg |
| | 83 | | ✓ | ✓ | Craidd | Ffioedd Proffesiynnol ynglyn ag Archwiliad |
| **Cyfanswm Addysg Canolog** | **8,133** | | | | | |
| Diwylliant | 427 | ✓ | | | Craidd | Cynorthwyydd Criw Arlunio |
| | 1,200 | ✓ | | | Craidd | Proffilio Ymwelwyr |
| | 2,450 | ✓ | | | Craidd | Cyflenwi prisio yswiriant a marchnad wedi'i ddiweddaru ar eitemau penodol |
| | 236 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| | 234 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| | 1,000 | ✓ | | | Craidd | Gwaith Curadurol Arddangosfa |
| | 51 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| | 420 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| | 51 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau arlunio byw |
| **Cyfanswm Diwylliant** | **6,070** | | | | | |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Economaidd ac Adfywio | 1,028 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Arolygiad o'r prosiect-Datblygu Cynllun Gweithredu Lleol |
| | 1,500 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 6,498 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 1,620 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Astudiaeth o ganfyddiad ymwelwyr Ynys Môn |
| | 8,597 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Asesiad dadleoli cyflog |
| | 1,025 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Asesiad o effaith Canolfan Hamdden Amlwch |
| | 28,875 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Adroddiadau ar y galw am sgiliau a'r cyflenwad o Llafur lleol |
| | 10,000 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Gwaith brys economaidd-cymdeithasol |
| | 2,992 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cymorth strategaeth-adolygiad o ddogfen DCO |
| | 14,229 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynnol – prosiect Wylfa Newydd |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 63,545 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Ffioedd Proffesiynol- Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| | 1,225 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cyfieithu - Wylfa Newydd SPG |
| | 9,226 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Gwaith Monitro Curadurol |
| | 6,480 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Astudiaeth o Ganfyddiad Ymwelwyr |
| | 7,801 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Ymgynghoriaeth Cyngor Gorllewin Gwlad yr haf |
| | 53,099 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cymorth Strategaeth |
| | 13,783 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Priffyrdd CSYM Cymorth Ymgynghorol |
| | 1,779 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ymgynghoriaeth -prosiect cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol |
| | 15,751 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | Ffioedd proffesiynol -prosiect cysylltiad Gogledd Cymru |
| | 3,834 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol | CSYM traciwr materion Grid Cenedlaethol |
| | 22,998 | ✓ | | ✓ | Cyfraniad Allanol | CSYM Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru |

| | Swm Ch1<br><br>(£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 482 | ✓ | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Gwaith Archeolegol Wylfa i Bentir |
| | 1,332 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cais Cynllunio Amlinellol – Cyn safle Peboc |
| | 2,413 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Astudiaeth Ddichonoldeb Ychwanegol - Berth 8 Porth Caergybi |
| | 1,968 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Cymorth Rheolaeth Datblygu |
| | 698 | ✓ | ✓ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Gwaith Peirianneg |
| | 390 | ✓ | ✓ | ✓ | Grant | Tanysgrifiad i'r app sŵn (50% o'r tanysgrifiad a godir ar Dai) |
| | 1,009 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Archwiliadau Glendid Bwyd |
| | 30 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Tâl defnyddio gofynnol |
| | 167 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Cyfraniad casglu pysgod cregyn or Fenai |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 250 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | 50% o 2018/19 Tanysgrifiadau Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd |
| | 159 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Dadansoddiad o gyflenwadau dŵr preifat |
| | 564 | ✓ | ✓ | ✓ | Grant | Cynhyrchu llythyr ymateb PHE/ Ystad Craig y Don |
| | 186 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Tâl Aelodaeth am y flwyddyn sy'n cychwyn |
| | 250 | ✓ | ✓ | ✓ | Grant | Iechyd Anifeiliaid – Archwiliadau Cŵn |
| | 609 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Testio PAT |
| | 112 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Ymholiadau TAW a ffioedd defnyddio |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **286,501** | | | | | |
| Eiddo | 640 | ✓ | | | Craidd | Arolwg Strwythurol -paratoi a chyhoeddi adroddiad ac argymhellion |
| **Cyfanswm Eiddo** | **640** | | | | | |

| | Swm Ch1<br><br>(£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | | |
| Priffyrdd | 92 | ✓ | ✓ | ✓ | Craidd | Ffi PCN |
| | 7,326 | ✓ | | ✓ | Craidd | Ffioedd ynglyn a PCN's a roddwyd |
| | 3,775 | ✓ | | | Craidd | Arolwg Traffig |
| | 2,084 | ✓ | | ✓ | Craidd | Pont Corsffordd Caergybi |
| | 7,012 | | | ✓ | Grant | Cais am daliad – Cwmni Cyfreithiwr ................ |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **20,289** | | | | | |
| Gwastraff | 24 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Graidd Penodol | Derbyniad Duos yn unig |
| | 2,705 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Peiriant Nwy Penhesgyn - gwaith paratoi tendr |
| | 42 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Ffi Mesur ac Anheddu |
| | 500 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Monitro nwyon perimedr ym Mhenhesgyn |
| | 1,930 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Monitro nwyon perimedr ym Mhenhesgyn – adolygu ac asesu risg |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | | |
| | 660 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Cymorth Technegol Nwy Tirlenwi |
| | 183 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Adolygiad Blynyddol o asesiad risg tân yng nghanolfan gwastraff ac ailgylchu Penhesgyn |
| | 1,685 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol | Monitro Dŵr –blynyddol |
| | 183 | ✓ | | ✓ | Cyllideb Craidd Penodol / Grant Cyfraniad Allanol | Adolygiad Blynyddol o asesiad risg tân ym Mhenhesgyn IVC |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **7,911** | | | | | |
| CRT | 315 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Asesiad atodol - cynllun contractwr cymeradwy |
| | 1,900 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Uwchlwytho M3NHF Atodlen o'r Cyfraddau |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 7,000 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Orchard Tai - Gweithredu negeseuon a rheoli prosiect |
| **Cyfanswm CRT** | **9,215** | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,400 | | | ✓ | Grant | Gwaith Ymgynghorol ynglŷn â Prosiect Gwella WCCIS |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **3,400** | | | | | |
| Trawsnewid | 2,136 | ✓ | | | Grant | Asesiadau Cleientiaid |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **2,136** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,884 | | ✓ | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwasanaethau Proffesiynol – Cyfreithiwr |
| | 8,827 | | ✓ | ✓ | Cyllideb Craidd | Gwasanaethau Proffesiynol - Gwasanaethau Gwybodaeth Corfforaethol |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **10,711** | | | | | |
| Adnoddau | 750 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Gwasanaeth ymgynghori TAW |
| | 7,100 | ✓ | | | Cyllideb Craidd | Gwasanaethau'r Trysorlys - Contractau |
| | 25,138 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Civica - Dyddiau Ymgynghori |

| | Swm Ch1 (£) | Categori – Rheswm Penodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/Cyllideb Staffio nas Defnyddir/Grant/ Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r Gwaith a Gynhaliwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ar y gweill i dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth** | | |
| | 6,000 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Northgate AD/Cyflogau Ymgynghorydd |
| | 5,000 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Adolygiad Disgownt Person Sengl |
| | 1,259 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Rheoli Prosiectau buddsoddi i arbed |
| | 665 | | | ✓ | Cyllideb Craidd | Teithio a threuliau am wasanaethau sy'n ymwneud ag ymgynghoriaeth |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **45,911** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch1 – Ebrill – Mehefin** | **400,917** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 1 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2018/19.

**(ii)** Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2018/19.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.3m.

**(ii)** Roedd y gyllideb cyfalaf ar gyfer 2018/19 yn £12.4m ond dylid nodi nad oedd £3.6m o wariant a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau a'i fod wedi llithro, o'r herwydd, i raglen gyfalaf 2018/19. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm y gyllideb gyfalaf yn £16.0m.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu, ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £6.0m a fyddai'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Mehefin 2018.

**4. Trosolwg**

**(i)** Roedd y sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch1 yn dangos gorwariant o £110k. Bellach mae'r rhagolygon o ran incwm £70k yn waeth na'r gyllideb wreiddiol fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf £42k yn is na'r swm a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £1,811k yn is na'r gyllideb fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £1,741k yn llai na'r gyllideb, sydd i'w briodoli'n bennaf i wariant cyfalaf is na'r disgwyl.

**5. Incwm**

**(i)** Mae’r incwm cyffredinol £9k (0.6%) yn well na’r gyllideb.

**(ii)** ’Roedd incwm rhent £17k yn is na’r gyllideb. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod nifer is o eiddo wedi cael eu comisiynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â’r rhagdybiaeth a adeiladwyd i mewn i’r gyllideb. Mae’r rhagamcan wedi cael ei addasu gan £90k i adlewyrchu hyn.

**(iii)** Roedd rhagdybiaeth yn y gyllideb y byddai’r broses o ailfodelu’r stoc modurdai wedi’i chwblhau ond digwyddodd hynny’n arafach na’r disgwyl. Hyd yma, mae incwm o’r ffynhonnell hon £7k yn uwch na’r gyllideb ac mae’r rhagamcan wedi cael ei addasu gan £20k i adlewyrchu hyn.

**(iv)** Roedd incwm arall £19k yn uwch na’r gyllideb a hynny’n bennaf oherwydd y cynnydd yn y ffioedd am wasanaethau.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud a Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Roedd gwariant £41k yn is na’r gyllideb. Roedd y prif arbedion yn gysylltiedig â swyddi gweigion.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU)yn dangos gorwariant o £171k. Mae hyn yn rhannol oherwydd y defnydd o is-gontractwyr ar adegau pan fo staff yn absennol oherwydd salwch a gwerth ymrwymiadau (archebion prynu a godwyd) sy’n ymddangos yn uchel ac y mae angen ymchwilio iddynt. Bydd y sefyllfa’n cael ei monitro’n agos.

**(ii)** Roedd gorwariant ar waith Trwsio a Chynnal a Chadw arall, yn bennaf oherwydd yr angen i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i’r gwaith trin carthffosiaeth – gofyniad nad oedd wedi ei ragweld ar adeg llunio’r cynllun 30 mlynedd ym mis Rhagfyr.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o’r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 yn werth cyfanswm o £12,417k, a oedd am gael ei ariannu o’r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr £2,665k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £9,752k. Cafodd gwariant cyfalaf cynlluniedig o £3,581k ei ddwyn ymlaen fel llithriant o 2017/18 i roi rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £15,998k. Mae’r gwariant a ragwelir bellach yn £14,187k, sydd £1,811k yn is na’r gyllideb. Mae’r tanwariant mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â phrynu ac adeiladu eiddo newydd.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol Cronfa Wrth Gefn y CRT yn £7,407k. Rhagwelir diffyg o £4,309k yn awr, sydd £1,741k yn well na’r gyllideb, gyda hynny’n gadael balans o £3,098k a fydd ar gael i gyllido gwariant CRT yn y dyfodol.

| |
|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Amherthnasol |
| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth Strategol** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 1.
Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 1.

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb y CRT am 2018/19 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2018).
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2018/48 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2018).

**ATODIAD A**

## *CYFRIF CRT 2018/19*

| | Cyllideb Flynyddol 2018/19 | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 3 | Gwirioneddol i Mis 3 | Amrywiant i Mis 3 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (17,339,000) | (4,317,411) | (4,300,013) | 17,398 | (17,249,000) | 90,000 |
| Modurdai | (190,000) | (47,310) | (54,640) | (7,330) | (210,000) | (20,000) |
| Taliadau Gwasanaeth | (99,000) | (24,651) | (36,500) | (11,849) | (99,000) | 0 |
| Arall | (311,000) | (66,234) | (73,642) | (7,408) | (311,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 219,000 | 0 | 0 | 0 | 219,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(17,720,000)** | **(4,455,606)** | **(4,464,795)** | **(9,189)** | **(17,650,000)** | **70,000** |
| **Gwariant nad yw'n Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenant | 115,820 | 28,812 | 22,736 | (6,076) | 115,820 | 0 |
| Gweinyddu Rhent | 135,360 | 33,541 | 32,993 | (548) | 135,360 | 0 |
| Rheoli Ystadau | 369,560 | 91,372 | 93,977 | 2,605 | 369,560 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,167,040 | 271,259 | 233,967 | (37,292) | 1,167,040 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,787,780** | **424,984** | **383,673** | **(41,311)** | **1,787,780** | **0** |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,016,840 | 751,295 | 922,920 | 171,625 | 3,016,840 | 0 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim HMU) | 852,560 | 211,540 | 188,750 | (22,790) | 852,560 | 0 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 463,730 | 115,495 | 127,268 | 11,773 | 463,730 | 0 |
| **Cyfanswm Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,333,130** | **1,078,330** | **1,238,938** | **160,608** | **4,333,130** | **0** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 2,987,000 | 0 | 0 | 0 | 2,987,000 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Tai | 635,120 | 0 | 0 | 0 | 635,120 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 0 | 0 | 0 | 693,360 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,315,480** | **0** | **0** | **0** | **4,315,480** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,436,390** | **1,503,314** | **1,622,611** | **119,297** | **10,436,390** | **0** |

| | Cyllideb Flynyddol 2018/19 | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 3 | Gwirioneddol i Mis 3 | Amrywiant i Mis 3 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,283,610)** | **(2,952,292)** | **(2,842,184)** | **110,108** | **(7,213,610)** | **70,000** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2018/19 | 15,998,276 | 1,266,272 | 1,224,275 | (41,997) | 14,187,149 | (1,811,127) |
| | | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | (2,665,000) | 0 | 0 | 0 | (2,665,000) | 0 |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **13,333,276** | **1,266,272** | **1,224,275** | **(41,997)** | **11,522,149** | **(1,811,127)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,049,666** | **(1,686,020)** | **(3,055,120)** | **68,111** | **4,308,539** | **(1,741,127)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (7,406,916) | | | | (7,406,916) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng nghronfa wrth gefn y CRT** | 6,049,666 | | | | 4,308,539 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau y CRT** | **(1,357,250)** | | | | **(3,098,377)** | |
| | | | | | | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant i'r Proffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Dros / Tan a Ragwelir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 500,000 | 0 | 38,003 | 38,003 | 500,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw Cynlluniedig | 3,983,495 | 841,272 | 532,463 | (308,809) | 3,983,149 | (346) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | 3,945 | 3,945 | 500,000 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 8,274,781 | 150,000 | 150,100 | 100 | 6,464,000 | (1,810,781) |
| Eiddo – ail-fodelu'r stoc presennol | 190,000 | 190,000 | 189,519 | (481) | 190,000 | 0 |
| Addasiadau'r Sector Gyhoeddus | 350,000 | 85,000 | 111,770 | 26,770 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 0 | 3,491 | 3,491 | 200,000 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 0 | 194,984 | 194,984 | 1,000,000 | 0 |
| **Cyfanswm am CRT Tai** | **15,998,276** | **1,266,272** | **1,224,275** | **(41,997)** | **14,187,149** | **(1,811,127)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir y dylai'r Pwyllgor Gwaith nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2018/19 yn chwarter 1.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E –** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2018/19
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant Rhagamcanedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2018/19 fel y'i hargymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2018; ac
- Adroddiad ar Alldro 2017/18 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 18 Mehefin 2018.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor Rhaglen Gyfalaf o £37.017m am 2018/19 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2018, caniataodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £9.348m gael ei ddwyn ymlaen o 2017/18. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £2.556m, ac adolygiad o gyllidebau penodol yn dod i ostyngiad o £2.485m. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 i £58.853m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2018/19

**2.1** Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2018, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2018 a'r modd y bwriedir cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2018/19.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 3,188 | 275 | 82 | - | 82 | 30 | 3 |
| CRT Tai | 15,998 | 1,266 | 1,205 | 19 | 1,224 | 97 | 8 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,791 | 1,060 | 1,020 | 31 | 1,051 | 99 | 11 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,594 | 451 | 476 | 1 | 476 | 106 | 7 |
| Priffyrdd | 17,892 | 1,076 | 342 | 156 | 498 | 46 | 3 |
| Rheoli Gwastraff | 31 | 31 | 29 | - | 29 | 95 | 95 |
| Eiddo | 843 | - | 7 | - | 7 | - | 1 |
| Trawsnewid | 535 | - | 9 | - | 9 | - | 2 |
| Cynllunio | 2,225 | 20 | 17 | - | 17 | 83 | 1 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,755 | 13 | 11 | 0 | 11 | 87 | 1 |
| **Cyfanswm** | **58,853** | **4,192** | **3,198** | **206** | **3,404** | **81** | **6** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 33,559 | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,224 | | | | | | |
| Bethyca gyda Chefnogaeth | 4,878 | | | | | | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 4,084 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 13,329 | | | | | | |
| Arian Wrth Gefn | 474 | | | | | | |
| Benthyciad | 264 | | | | | | |
| Tanwariant o 2017/18 | 1,040 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **58,853** | | | | | | |

**2.2** Roedd 75% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol wedi ei wario hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, fodd bynnag, dim ond 5% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn ers tro gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis Isadeiledd Strategol Llangefni a phrynu pont bwyso newydd. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, ond mae cyllidebau'r rheini wedi'u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol, megis adeiladu cae 3G ym Mhlas Arthur ac offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi, prynu offer TGCh, atgyweirio adeiladau addysg a sicrhau mynediad i'r anabl i adeiladau addysg. Gweler y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2018/19 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae 97% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, ond dim ond 8% o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb gyfan wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn Ch1 wedi bod yn gysylltiedig â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2017/18, h.y. ymrwymiad a oedd yn cario drosodd. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig newydd a gaffaelir yn ystod Ch1 a chanlyniadau tendro a ddisgwylir yn ystod Ch2 a Ch3 yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer 2018/19 wedi'i hymrwymo'n llawn.

**2.4** Cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a ariennir yn benodol o'r derbyniadau cyfalaf a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti ei chwblhau yn ystod 2016/17. Fodd bynnag, roedd gwaith ar ôl i'w wneud yn 2017/18. Ar ddiwedd 2017/18, roedd diffyg o £0.078m ar y rhaglen, i'w gyllido drwy werthu un mân-ddaliad arall. Ym mis Ebrill 2018, gwerthwyd y mân-ddaliad hwnnw am £0.264m, gan olygu fod gwarged o £0.186m ar y rhaglen. Bydd gwaith cyfalaf pellach gwerth £0.186m yn cael ei wneud yn 2018/19 ac yn cael ei gyllido o'r gwarged hwn. Ar ddiwedd 2018/19, disgwylir y bydd gan y rhaglen gyllideb gytbwys. Daw hyn â'r rhaglen atgyweirio sylweddol i ben a bydd unrhyw waith dilynol yn cael ei gyllido o'r arian refeniw a fydd ar gael.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt ac, isod, ceir diweddariad byr ar y cynlluniau:-

- Ffordd Gyswllt Llangefni - Parhaodd y gwaith ar Ran 3 y cynllun yn ystod chwarter 1, 2018/19. Mae cyrbau wedi cael eu gosod a gwaith ar y rhan ganol wedi cael ei gwblhau hyd at lefel tarmac. Bwriedir cwblhau'r gwaith erbyn Ionawr 2019.

- Isadeiledd Strategol Llangefni - Mae'r cynllun yn un i godi 5 (pump) o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac ehangu'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fursnes ar gyfer eu gosod i'r sector preifat. Cychwynnodd gwaith ar y ddau safle yn ystod rhan olaf 2017/18, parhawyd gyda'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y ddau safle. Gwariwyd £0.472m yn ystod chwarter cyntaf 2018/19, a bydd yn cael ei gyllido drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Rhagwelir y bydd y ddau gynllun wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2018.

- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain – Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan wedi cael ei dynnu'n llwyr o'r rhaglen ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif a bydd unrhyw waith ychwanegol ar yr ysgolion hyn, gan gynnwys talu unrhyw symiau cadw sy'n weddill, yn cael eu gyllido drwy fenthyca ac o adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad 50% y Cyngor tuag at y prosiect. Mae gwaith wedi parhau ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen yn ystod y chwarter, fodd bynnag, roedd gwariant gwirioneddol yn is na'r proffil a ragwelwyd ond disgwylir iddo fod yn ôl ar broffil erbyn diwedd chwarter 2. Bwriedir cwblhau'r gwaith ar Ysgol Brynsiencyn ym mis Medi 2018.

- Neuadd y Farchnad - Yn dilyn cadarnhad o'r cyfraniad grant ERDF tuag at y prosiect, roedd modd i'r Cyngor ymrwymo i'r contract ar gyfer Rhan II y gwaith sydd, i bob pwrpas, yn trawsnewid Neuadd y Farchnad sy'n strwythurol gadarn ac yn gallu gwrthsefyll y tywydd, yn adeilad y gellir ei ddefnyddio, gan ganolbwyntio ar newidiadau y tu mewn i'r adeilad, gwaith peirianneg fecanyddol a thrydanol, rhwydweithiau TG ac inswleiddio/gwresogi. Cychwynnodd y contractwr y gwaith ar 4 Mehefin ac mae'r cynnydd wedi bod yn unol â disgwyliadau'r rhaglen a rhagwelir y daw'r prisiad / cais am daliad cyntaf i law yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 23 Gorffennaf 2018. Oherwydd bod yr holl waith yn gysylltiedig â'r tu mewn i'r adeilad, ni ragwelir unrhyw waith annisgwyl a dylai'r prosiect gael ei gwblhau o fewn y gyllideb.

**3.1.2** Mae cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto neu'n sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y cyrff cyllido. Ceir isod ddiweddariad byr ar y cynllunia hyn:-

- Lliniaru Llifogydd ym Miwmares – mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares yn eu rhaglen am flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain ar gael erbyn diwedd mis Medi ac, os caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y bydd modd cychwyn ar y gwaith ddiwedd mis Hydref. Bydd hyn yn rhedeg i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mai/Mehefin 2019.

- Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth – mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin Pentraeth yn eu rhaglen am flwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, mae'r cynnig ffurfiol yn amodol ar gyflwyno cais gan yr Awdurdod unwaith y bydd yr holl ganiatadau a phrisiau tendr wedi eu derbyn i gychwyn ar y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain ar gael erbyn diwedd mis Medi ac, os caiff y cyllid ei gymeradwyo, gobeithir y bydd modd cychwyn ar y gwaith mis Hydref. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2019.

- Isadeiledd Strategol Caergybi – Cynllun yw hwn i godi 10 (deg) o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi, gyda golwg ar gychwyn gwaith ar y safle yn ystod 2018/19 a'i gwblhau erbyn diwedd 2019. Sicrhawyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu y cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- Galluogi – Sicrhawyd £0.093m o Grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud gwaith addasu i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y cyfan o'r grant hwn wedi cael ei dynnu i lawr erbyn diwedd y flwyddyn.

- Porth Ymwelwyr – Bydd y prosiect yn golygu buddsoddiad yn y cyfleusterau ym Mhorthladd Caergybi gan gynnwys y Rheilffordd, gwella safle eglwys Sant Cybi a'r gaer Rufeinig a gwella'r profiad i ymwelwyr mewn cyrchfannau eiconig megis Mynydd Twr. Mae'r llythyr o gynnig wedi cael ei dderbyn am £1.716m o gyllid ERDF ac mae Swyddogion wrthi'n gweithio ar hyn o bryd i gwblhau'r cytundeb cyn y gellir cychwyn y prosiect.

- Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd – Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwneud gwaith cyfalaf ar yr A5025 rhwng Porthaethwy ac Amlwch. Bydd gwaith yn cychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol ac mae cyllideb o £0.220m wedi ei glustnodi ar gyfer y cynllun.

- Cynllun Buddsoddi mewn Mwynderau i Dwristiaid (TAIS) – Gwariwyd swm bychan o arian yn ystod chwarter 1. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y gwaith tirlunio yn yr Oriel a'r gwaith yn Nant y Pandy wedi eu cwblhau erbyn diwedd Medi 2018. Disgwylir y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Priffordd Newydd i Wylfa Newydd – Nid oes disgwyl i unrhyw waith gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y gwaith ar-lein yn parhau i fynd rhagddynt ond nid ydynt yn debygol o gychwyn tan chwarter 2 2019/20.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma’r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a’r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2018/19 £’000 | Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2018 £’000 | Rhagamcan hyd 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 264 | 264 | 264 |
| Cyffredinol | 1,431 | 6 | 1,431 |
| Diwydiannol | 105 | 0 | 105 |
| Ysgolion | 1,246 | 0 | 1,246 |
| **Cyfanswm** | **3,046** | **270** | **3,046** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd £3.046m o Dderbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019, a dim ond £0.270m oedd wedi dod i law ar 30 Mehefin 2018 (8.9%), a hynny’n bennaf yn sgil gwerthu mân-ddaliad (£0.264m). Mae’r Derbyniadau Cyfalaf a rhagwelir yn cynnwys gwerthu’r tir gweddilliol sy’n rhan o hen Ysgol y Graig, uned ddiwydiannol ac amryfal ysgolion fel rhan o raglen ysgolion yr 21ain Ganrif.

## 4. <u>Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2018/19</u>

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2019, a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | Tan / Gor Wariant Rhagamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 3,188 | 1,450 | - 1,738 | - 55 |
| CRT Tai | 15,998 | 14,187 | - 1,811 | - 11 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,791 | 5,634 | - 4,158 | - 42 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,594 | 4,519 | - 2,075 | - 31 |
| Priffyrdd | 17,892 | 5,088 | - 12,804 | - 72 |
| Rheoli Gwastraff | 31 | 29 | - 2 | - 5 |
| Eiddo | 843 | 836 | - 7 | - 1 |
| Trawsnewid | 535 | 535 | - | - |
| Cynllunio | 2,225 | 2,225 | - | - |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,755 | 1,755 | - | - |
| **Cyfanswm** | **58,853** | **36,258** | **- 22,594** | **- 38** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid Rhagamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 33,559 | 14,883 | - 18,676 | - 56 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,224 | 2,716 | 1,492 | 122 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 4,878 | 3,803 | - 1,075 | - 22 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 4,084 | 2,043 | - 2,041 | - 50 |
| Cyfraniad Refeniw | 13,329 | 11,518 | - 1,811 | - 14 |
| Arian wrth Gefn | 474 | 1,031 | 557 | 118 |
| Benthyciad | 264 | 264 | - | - |
| Tanwariant o 2017/18 | 1,040 | - | - 1,040 | - 100 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **58,853** | **36,258** | **- 22,594** | **- 38** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir y bydd tanwariant o £22.594m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 ac mae’n bosibl bydd yn llithro i Raglen Gyfalaf 2019/20. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2019/20, a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20. Y prif brosiectau ble rhagwelir tanwariant yw:-

- Y Brifforddd Newydd i Wylfa Newydd. Caiff y prosiect hwn ei gyllido'n gyfan gwbl o gyllid allanol (fe'i dangosir fel Grantiau Cyfalaf yn Nhabl 4.1).
- Safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae cychwyn y prosiect hwn yn ddibynnol ar dderbyn y caniatâd cynllunio angenrheidiol. Os caiff ei gymeradwyo, bydd cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid grant i gwrdd â mwyafrif costau'r man stopio dros dro.
- Prynu eiddo cyfredol (CRT) a datblygu eiddo newydd. Caiff y prosiectau hyn eu cyllido o gronfeydd wrth gefn y CRT (a ddangosir fel Cyfraniad Refeniw yn Nhabl 4.1) a thrwy fenthyciadau. Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu eiddo newydd, ond ni ragwelir y bydd digon o brosiectau wedi cael eu datblygu i wario'r gyllideb sydd ar gael. Bydd unrhyw arian nad yw'n cael ei wario yn cael ei gario drosodd i 2019/20.
- Ysgolion yr 21ain Ganrif, adeiladu Ysgol Newydd yn Llangefni – bydd y prosiect hwn yn cael ei ariannu drwy Raglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru – Band A - 50% o grantiau allanol a benthyca â chymorth a 50% o dderbyniadau cyfalaf a benthyca di-gefnogaeth. Er mwyn diogelu'r cyllid, rhaid i'r cynllun busnes terfynol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib, yn ddelfrydol erbyn 31 Mawrth 2019, a gall unrhyw oedi gyda symud y prosiect hwn yn ei flaen golygu colli cyllid Band A.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn £139.470m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca fel y gall ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca £111.422m yn allanol, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £28.048m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2018/19 (Atodiad 11).

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Ar 30 Hydref 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith Strategaeth Gyfalaf am 2018/19 ac argymhellwyd y bydd cyllid Rhaglen Gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir arnynt gan Lywodraeth Cymru) a gwerth rhagdybiedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2019/20 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i gyllido adnewyddu Cerbydau, Buddsoddi mewn TGCh, atgyweirio asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chostau'r Grantiau Statudol ar gyfer darparu Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, bydd cyllid ar gael ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol a chaiff y rhain eu hasesu fesul achos.

Unwaith y bydd y prosiectau uchod wedi cael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y cânt eu nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2017 – 2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau a'r ddiwedd chwarter 1 a'r gwariant rhagdybiedig cysylltiedig ar brosiectau, bod y rhan fwyaf o'r prosiectau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn eu cyllidebau ond disgwylir i 3 o brosiectau mawr (Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Gwelliannau i'r A5025 i Wylfa ac Ysgol yr 21ain Ganrif yn Llangefni) danwario'n sylweddol yn 2018/19. Fodd bynnag, bydd yr arian hwn yn cael ei gario drosodd i 2019/20 ac nid yw'n cael ei ragweld ar hyn o bryd y bydd unrhyw cyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant Rhagdybiedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,006,790 | 251,700 | 75,144 | 0 | 75,144 | -176,556 | 30 | 7 | 1,006,790 | 0 | 0 |
| Safleoedd Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,858,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 120,000 | -1,738,000 | -94 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 199,095 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 199,095 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 93,200 | 23,301 | 6,700 | 0 | 6,700 | -16,601 | 29 | 7 | 93,200 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 477 | 0 | 477 | 477 | 0 | 2 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3,187,735** | **275,001** | **82,321** | **0** | **82,321** | **-192,680** | **30** | **3** | **1,449,735** | **-1,738,000** | **-55** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 500,000 | 0 | 38,003 | 0 | 38,003 | 38,003 | 0 | 8 | 500,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,983,495 | 841,272 | 530,392 | 2,071 | 532,464 | -308,808 | 63 | 13 | 3,983,149 | -346 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | 3,945 | 0 | 3,945 | 3,945 | 0 | 1 | 500,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 8,274,781 | 150,000 | 150,100 | 0 | 150,100 | 100 | 100 | 2 | 6,464,000 | -1,810,781 | -22 |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 190,000 | 190,000 | 189,519 | 0 | 189,519 | -481 | 100 | 100 | 190,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 85,000 | 94,902 | 16,868 | 111,770 | 26,770 | 131 | 32 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 0 | 3,491 | 0 | 3,491 | 3,491 | 0 | 2 | 200,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,000,000 | 0 | 194,984 | 0 | 194,984 | 194,984 | 0 | 19 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **15,998,276** | **1,266,272** | **1,205,335** | **18,939** | **1,224,275** | **-41,997** | **97** | **8** | **14,187,149** | **-1,811,127** | **-11** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 397,331 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | 2,669 | 1 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 543,949 | 0 | 10,702 | 0 | 10,702 | 10,702 | 0 | 2 | 550,000 | 6,051 | 1 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Cybi | 0 | 0 | 1,606 | 6,352 | 7,958 | 7,958 | 0 | 0 | 138,112 | 138,112 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd y Llan | 0 | 60,000 | 58,726 | 3,750 | 62,476 | 2,476 | 0 | 0 | 146,583 | 146,583 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Parc y Bont | 7,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11,874 | 4,874 | 70 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Santes Dwynwen | 3,357,000 | 1,000,000 | 948,546 | 7,581 | 956,127 | -43,873 | 96 | 28 | 3,357,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Brynsiencyn | 203,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 263,072 | 60,072 | 30 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Esgeifiog | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 5,233,000 | 0 | 250 | 13,585 | 13,835 | 13,835 | 0 | 0 | 717,089 | -4,515,911 | -86 |
| **Cyfanswm** | **9,791,280** | **1,060,000** | **1,019,831** | **31,268** | **1,051,098** | **-8,902** | **99** | **11** | **5,633,729** | **-4,157,551** | **-42** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,397,978 | 0 | 1,738 | 0 | 1,738 | 1,738 | 0 | 0 | 400,000 | -997,978 | -71 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,370,000 | 0 | 812 | 0 | 812 | 812 | 0 | 0 | 400,000 | -970,000 | -71 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 3,357,000 | 450,000 | 471,771 | 600 | 472,371 | 22,371 | 105 | 14 | 3,250,000 | -107,000 | -3 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 69,346 | 1,371 | 1,371 | 0 | 1,371 | 0 | 100 | 2 | 69,346 | 0 | 0 |
| Cae Pêl Droed 3G Llangefni | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Offer Ffitrwydd Caergybi | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6,594,324** | **451,371** | **475,692** | **600** | **476,292** | **24,920** | **106** | **7** | **4,519,346** | **-2,074,978** | **-31** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 6,000 | 5,990 | 0 | 5,990 | -10 | 100 | 46 | 12,920 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 150,000 | 120,000 | 0 | 114,650 | 114,650 | -5,350 | 96 | 76 | 150,000 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 1,592,000 | 425,000 | 52,425 | 0 | 52,425 | -372,575 | 12 | 3 | 1,592,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 954,288 | 0 | 21,365 | 670 | 22,035 | 22,035 | 0 | 2 | 950,000 | -4,288 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | -800,000 | -80 |
| Priffordd Newydd i Wylfa Newydd | 12,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -12,000,000 | -100 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,671,000 | 339,000 | 127,973 | 8,752 | 136,725 | -202,275 | 40 | 8 | 1,671,000 | 0 | 0 |
| Grant Tais Oriel Ynys Môn, Lôn Las a Nant y Pandy | 128,000 | 0 | 1,187 | 0 | 1,187 | 1,187 | 0 | 1 | 128,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 120,000 | 120,000 | 91,076 | 31,606 | 122,681 | 2,681 | 102 | 102 | 120,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 264,000 | 66,000 | 42,258 | 0 | 42,258 | -23,742 | 64 | 16 | 264,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17,892,208** | **1,076,000** | **342,274** | **155,677** | **497,951** | **-578,049** | **46** | **3** | **5,087,920** | **-12,804,288** | **-72** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Pont Pwyso Newydd | 30,590 | 30,590 | 28,995 | 0 | 28,995 | -1,595 | 95 | 95 | 28,995 | -1,595 | -5 |
| **Cyfanswm** | **30,590** | **30,590** | **28,995** | **0** | **28,995** | **-1,595** | **95** | **95** | **28,995** | **-1,595** | **-5** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 406,934 | 0 | 0 | 0 | 8,500 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | -6,934 | -2 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 186,000 | 0 | 7,141 | 0 | 0 | 7,141 | 0 | 4 | 186,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **842,934** | **0** | **7,141** | **0** | **8,500** | **7,141** | **0** | **1** | **836,000** | **-6,934** | **-1** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 182,701 | 0 | 8,500 | 0 | 8,500 | 8,500 | 0 | 5 | 182,701 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwydded MS | 106,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 106,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,643 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,643 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **535,344** | **0** | **8,500** | **0** | **8,500** | **8,500** | **0** | **2** | **535,344** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 2,225,000 | 20,000 | 16,524 | 0 | 16,524 | -3,476 | 83 | 1 | 2,225,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,225,000** | **20,000** | **16,524** | **0** | **16,524** | **-3,476** | **83** | **1** | **2,225,000** | **0** | **0** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 731,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 731,000 | 0 | 0 |
| Wifi Canolfan Byron - Buddsoddi i Arbed | 8,750 | 3,000 | 2,708 | 0 | 2,708 | -292 | 90 | 31 | 8,750 | 0 | 0 |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Garreglwyd | 15,424 | 10,000 | 8,599 | 6 | 8,605 | -1,395 | 86 | 56 | 15,424 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,755,174** | **13,000** | **11,307** | **6** | **11,313** | **-1,687** | **87** | **1** | **1,755,174** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **58,852,865** | **4,192,234** | **3,197,919** | **206,491** | **3,405,769** | **-787,824** | **81** | **6** | **36,258,393** | **-22,594,472** | **-38** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG(ION) CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS/CLAIRE KLIMASZEWSKI (EST. 2675/1865)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Chynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am 2017/18 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2018 a'i basio ymlaen i'r Pwyllgor hwn heb sylwadau. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn dilyn y Pwyllgor hwn.

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar weithgareddau reoli trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2017/18. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2017/18, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2017);
- adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2018);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am yr alldro mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd bod y Pwyllgor Archwilio yn sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio, darparwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Mehefin 2018.

Yn ystod 2017/18, cydymffurfiodd y Cyngor â'i anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys Gwirioneddol | 2016/17 Gwirioneddol £000 | 2017/18 Gwreiddiol £000 | 2017/18 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 28,033 | 39,799 | 20,064 |
| • CRT | 8,607 | 12,873 | 9,291 |
| • Cyfanswm | 36,640 | 52,672 | 29,355 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | |
| • Dim-CRT | 91,515 | 101,286 | 95,218 |
| • CRT | 42,499 | 41,648 | 41,648 |
| • Cyfanswm | 134,014 | 142,934 | 136,866 |
| Benthyca Gros | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Dyled Allanol | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Byddsoddiadau | | | |
| • Mwy na blwyddyn | | | - |
| • Dan flwyddyn | 13,319 | 15,000 | 5,993 |
| • Cyfanswm | 13,319 | 15,000 | 5,993 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig) ei dorri.

Gwelwyd yr un amgylchedd buddsoddi heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;

**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 sydd yn yr adroddiad hwn;

**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2017/18 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 3 Gorffennaf 2018
Atodiad 4 - Sylwadau gan Capita Asset Services ar yr Economi, Graddfeydd Buddsoddi a Benthyca

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18
Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys am 2017/18
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2017/18
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2017/18

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r swyddogaethau / gweithgareddau / canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2017/18:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Symudiadau'r graddfeydd llog yn y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF Y CYNGOR 2017/18

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei gyllido.

| | **2016/17 Gwirioneddol (£m)** | **2017/18 Amcangyfrif (£m)** | **2017/18 Gwirioneddol (£m)** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 28 | 40 | 20 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 13 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **37** | **53** | **29** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT | 28 | 40 | 20 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 9 | 13 | 9 |
| **Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **11** | **13** | **7** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **0** | **0** | **0** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2017/18 a gyllidwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Dengys y tabl uchod fod £7m o wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor yn cael ei gyllido drwy fenthyca. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol Tymor Hir gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, yn hytrach, benthycwyd yn fewnol gyda balansau'r Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr er mwyn gostwng taliadau llog. Fodd bynnag, y disgwyliad yw yn y tymor hir i fenthyca er mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion sylfaenol benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw, MRP, er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2017/18 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LIC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 ar 28 Chwefror 2017.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR : Cronfa'r Cyngor | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 84 | 92 | 92 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf cyllidwyd drwy fenthyca (fel uchod) | 11 | 13 | 7 |
| Llai MRP/VRP* | (3) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 92 | 101 | 95 |

| CFR : CRT | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 43 | 42 | 42 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 0 | 0 | 0 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 42 | 41 | 41 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y terfyn awdurdodedig.

## 3.4 Benthyca Gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canol a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2017/18. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2017 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2018 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2018 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 117.1 | 125.0 | 117.0 |
| CFR | 134.0 | 142.9 | 136.9 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2017/18, defnyddiwyd benthyciadau mewnol i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol ar gyfer holl ofyniad benthyca'r Cyngor, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf.

**3.4.2** Bellach, mae'r strategaeth o fenthyca'n fewnol wedi cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyciad gros o £117.0m ar 31 Mawrth 2018 yn llai na'r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | Gwirioneddol 2017/18 (£m) | Amcangyfrif 2018/19 (£m) | Amcangyfrif 2019/20 (£m) |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 136.9 | 148.9 | 165.3 |

Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:-

**3.5.1** **Y terfyn awdurdodedig** - y terfyn awdurdodedig yw'r "terfyn benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y terfyn awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2017/18.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y terfyn awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost gyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | **2017/18** |
|---|---|
| Terfyn awdurdodedig | £169.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £117.0m |
| Terfyn Gweithredol | £164.0m |
| Costau cyllido fel cyfran o ffrwd refeniw net - Cronfa'r Cyngor | 6.25% |
| Costau cyllido fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 23.02% |

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2018

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i Aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2016/17 a 2017/18 fel a ganlyn:-

| | **31 MAWRTH 2017** | | | **31 MAWRTH 2018** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **Graddfa Cyfartalog (%)** | **Aeddfed-rwydd Cyfartalog (bl)** | **£000** | **Graddfa Cyfartalog (%)** | **Aeddfed-rwydd Cyfartalog (bl)** |
| Dyled | 117.110 | 5.25 | 22.7 | 117.029 | 5.15 | 23.36 |
| CFR | 134,014 | | | 136.866 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (16,904) | | | (19,837) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < I flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 5,000 | 0.35 | | | | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 8,319 | 0.15 | | 5.993 | 0.39 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 13,319 | 0.22 | | 5,993 | 0.39 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Nid aethpwyd dros ben y terfynau ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu fel:-

| | **31 MAWRTH 2017** | | **31 MAWRTH 2018** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **% o'r cyfanswm** | **£m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyciadau | 117.1 | 100 | 117.0 | 100 |
| Llai na 12 mis | 5.5 | 4.7 | 10.1 | 8.63 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 5.1 | 4.3 | 5.1 | 4.36 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 9.6 | 8.2 | 7.0 | 5.98 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 5.6 | 4.8 | 5.8 | 4.96 |
| 10 mlynedd a mwy | 91.3 | 78.0 | 89.0 | 76.07 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw.

**4.4** Dalwyd holl adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos at y gyfradd sylfaenol bresennol, £5.993m ar 0.39% ar 31 Mawrth 2018 (31 Mawrth 2017 – £8.3m ar 0.15%). Roedd y cyfan o'r buddsoddiadau am lai na blwyddyn.

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2017/18

**5.1** Roedd y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2017/18 yn cynnwys disgwyliad am gyfraddau llog na fyddai'r Gyfradd Banc yn cychwyn codi o 0.25% hyd chwarter 2 2019 ac yn codi ond unwaith wedi hynny cyn 31 Mawrth 2020. Byddai cynnydd graddol hefyd yn y cyfraddau benthyca sefydlog am gyfnodau canolig a hwy yn ystod 2017/18 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynnol. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008, parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca, lle yr oedd hynny'n bosibl, i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Yn ystod 2017/18, roedd cyfraddau PWLB am y tymor hwy yn anwadal iawn ond heb fawr gyfeiriad cyffredinol, tra bod cyfraddau PWLB am y tymor byrrach yn cynyddu yn ystod ail hanner y flwyddyn.

## 6. ALLDRO BUDDSODDI AR GYFER 2017/18

**6.1** Polisi Buddsoddi – caiff polisi buddsoddi'r Cyngor ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael eu gweithredu yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2017. Yn y polisi hwn, nodir y dull y dylid ei ddefnyddio wrth ddewis gwrthbartïon buddsoddi ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddarperir gan y 3 brif asiantaeth cyfraddau credyd ynghyd â data ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis y rhagolygon o ran graddfeydd, cyfnewid risg credyd ('credit default swaps'), prisiau cyfranddaliadau'r banciau ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio gyda'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw broblemau o safbwynt hylifedd.

**6.2** Cyfradd y Banc ar gychwyn y flwyddyn ariannol oedd 0.25%, fodd bynnag, cododd i 0.5% ar 2 Tachwedd 2017. Roedd hynny'n golygu bod cyfraddau llog y sefydiadau gwrthbarti ar gyfrifon nodweddiadol y gellir galw arnynt yn amrywio rhwng 0.10% a 0.40%.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod o hyd at £26m fod ar gael, yn amrywio rhwng £5m a £26m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.058% neu £15k ar ôl addasu ar gyfer cyfraddau uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £31.2k (0.12%) ar falansau a oedd, ar gyfartaledd, yn £14.4m.

## 7. DIOGELWCH BUDDSODDI AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda'r sefydliadau mwyaf ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

## 8. ALLDRO BENTHYCA 2017/18

**8.1** Benthyciadau – yr unig fenthyciad a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd benthyciad o £5m o Gronfa Bensiwn Tyne & Wear. Gwnaed hynny ar 20 Hydref 2017 ar gyfradd log o 0.33% am gyfnod hyd at 3 mis. Wedi i'r benthyciad aeddfedu ar 19 Ionawr 2018, cafodd ei ymestyn am 3 mis pellach ar gyfradd log o 0.50%.

**8.2** Ail-drefnu – ni chafodd unrhyw fenthyciadau eu hail-drefnu yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y gwahaniaeth cyfartalog o 1% rhwng cyfraddau benthyca newydd PWLB a'r cyfraddau ar gyfer talu'n ôl o flaen amser yn golygu y byddai ail-drefnu yn anhyfyw.

**8.3** Ad-daliadau – aeddfedodd 2 o fenthyciadau PWLB yn ystod y flwyddyn. Aeddfedodd y cyntaf ar 6 Mehefin 2017 am swm o £2.5m. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol yn 2009 ar gyfradd log o 3.25%. Aeddfedodd yr ail fenthyciad ar 17 Gorffennaf 2017 am swm o £3.5m, ac fe'i cymerwyd yn 1992 ar gyfradd log o 10.375%. Ad-dalwyd y benthyciadau hyn drwy ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd i ail-ariannu'r benthyciadau.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2017/18

**9.1** Ar 19 Ebrill 2018, cafodd benthyciad o £5m gan Gronfa Bensiwn Tyne & Wear ei ad-dalu gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**9.2** Yn ystod misoedd cyntaf 2018/19, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi parhau i fuddsoddi mewn cyfrifon y ceir mynediad iddynt yn syth, sy'n golygu bod yr arian ar gael pan mae ei angen.

**9.3** Hyd yma, nid oes unrhyw fenthyciadau newydd wedi cael eu cymryd yn ystod 2018/19.

**9.4** Nid oes unrhyw fenthyciadau PWLB wedi cael eu had-dalu hyd yma yn 2018/19.

## 10. NEWIDIADAU YN YSTOD 2017/18

**10.1** Codau Diwygiedig CIPFA – yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) Gôd diwygiedig ar gyfer Rheoli Trysorlys a Chanllawiau Traws Sector ynghyd â Chôd Pwyllog diwygiedig. Roedd y codau diwygiedig hyn â ffocws penodol ar y modd y dylid delio gyda buddsoddiadau awdurdodau lleol nad oeddynt yn rhai o fath trysorlys, e.e. drwy fuddsoddi mewn prynu eiddo er mwyn cynhyrchu incwm ar gyfer yr Awdurdod ar lefel uwch o lawer na'r lefel y gellir ei sicrhau drwy fenthyciadau trysorlys. Un argymhelliad oedd y dylai awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad newydd i Aelodau i roi crynodeb lefel uchel o'r strategaeth gyfalaf gyffredinol fel y gallai Aelodau weld y modd yr oedd adnoddau arian yr Awdurdod wedi cael eu rhannu rhwng buddsoddiadau trysorlys a rhai nad oeddynt yn gysylltiedig â'r trysorlys. Bydd swyddogion yn adrodd i'r Aelodau unwaith y bydd goblygiadau'r codau newydd hyn wedi cael eu hasesu o ran eu heffaith debygol ar yr Awdurdod.

**10.2** Cyfarwydd Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol II (MiFID II) – pennodd yr UE 3 Ionawr 2018 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau dan MiFID II. Mae'r rheoliadau hyn yn rheoli'r berthynas a fydd gan sefydliadau sy'n cynnal trafodion benthyca gydag awdurdodau lleol o'r dyddiad hwnnw. Ychydig o effaith mae hyn wedi ei gael ar yr Awdurdod hwn ac eithrio gorfod llenwi'r ffurflenni a anfonwyd gan bob sefydliad sy'n delio gyda'r Awdurdod hwn ac ar gyfer pob math o'r offerynnau buddsoddi yr ydym yn eu defnyddio ac eithrio adneuon ariannol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu.

## 11. CASGLIAD

**11.1** Mae adolygiad o'r perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 wedi ei ddarparu uchod. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad gan Gronfa Bensiwn Tyne & Wear am swm o £5.0m am 3 mis a gafodd ei ymestyn am 3 mis pellach pan aeddfedodd. Cafodd 2 o fenthyciadau PWLB gwerth £5.5m eu had-dalu yn ystod y flwyddyn. Gostyngodd dychweliadau ar fuddsoddiadau i'r cyfraddau isaf erioed oherwydd cyfradd sylfaenol isel y banciau ac roedd gan y Cyngor falansau ariannol priodol bob amser, er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 a'i amcanion allweddol, sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn Atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2018.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 7 AWST 2018**

## Crynodeb o Werth y Portffolio
## Ar 31 Mawrth 2018

| | Nominal / Prifswm (£) | Gwerth Teg (£) |
|---|---|---|
| **ASEDAU ARIANNOL** | | |
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 5,993,375 | 6,007,584 |
| **YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | |
| Benthyciad PWLB - Sefydlog | **111,184,478** | 166,042,050 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 241,122 | 372,142 |
| Benthyciad LlC | 131,400 | 131,400 |
| Salix | 471,881 | 471,881 |
| Cronfa Bensiwn Tyne & Wear | 5,000,000 | 5,000,000 |

**Gwrthbartïon**

| | | |
|---|---|---|
| **(1)** | Arian (cyfrifon llog) | 2,074,120 |
| | Santander | 3,684,119 |
| | Bank of Scotland | 233,447 |
| | Nat West Cash Manager A/c | 1,690 |
| | RBS | 5,993,376 |

**ATODIAD / APPENDIX 2**

**Cyfraddau Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2018 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2018***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term) ** | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Cyfradd Dychweliad/ Rate of Return % | Cyfradd Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Royal Bank of Scotland plc | **3,684** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **2,074** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **233** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.05** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartïon yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterparty Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Cyfraddau Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 29 Mehefin 2018 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 29 June 2018***



| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term) ** | Cyfnod (O-I) / Period (From - To) | Cyfradd Dychweliad/ Rate of Return % | Cyfradd Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Royal Bank of Scotland plc | **7,487** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Oren –12 mis/ Orange - 12 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **1,207** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **A-** | **F2** | **A1** | **P-1** | **A-** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.05** | **A-** | **F2** | **A1** | **P-1** | **A-** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartïon yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 / The Counterparty Criteria can be found at Appendix 6 of the 2018/19 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

# 1. The Economy and Interest Rates

**UK.** The outcome of the EU referendum in June 2016 resulted in a gloomy outlook and economic forecasts from the Bank of England based around an expectation of a major slowdown in UK GDP growth, particularly during the second half of 2016, which was expected to push back the first increase in Bank Rate for at least three years. Consequently, the Bank responded in August 2016 by cutting Bank Rate by 0.25% to 0.25% and making available over £100bn of cheap financing to the banking sector up to February 2018. Both measures were intended to stimulate growth in the economy. This gloom was overdone as the UK economy turned in a G7 leading growth rate of **1.8% in 2016**, (actually joint equal with Germany), and followed it up with another **1.8% in 2017**, (although this was a comparatively weak result compared to the US and EZ).

During the calendar year of 2017, there was a major shift in expectations in financial markets in terms of how soon Bank Rate would start on a rising trend. After the UK economy surprised on the upside with strong growth in the second half of 2016, growth in 2017 was disappointingly weak in the first half of the year; quarter 1 came in at +0.3% (+1.7% y/y) and quarter 2 was +0.3% (+1.5% y/y), which meant that growth in the first half of 2017 was the slowest for the first half of any year since 2012. The main reason for this was the sharp increase in inflation caused by the devaluation of sterling after the EU referendum, feeding increases into the cost of imports into the economy. This caused a reduction in consumer disposable income and spending power as inflation exceeded average wage increases. Consequently, the services sector of the economy, accounting for around 75% of GDP, saw weak growth as consumers responded by cutting back on their expenditure. However, growth did pick up in quarter 3 to 0.5% before dipping slightly to 0.4% in quarter 4.

Consequently, market expectations during the autumn rose significantly that the MPC would be heading in the direction of imminently raising Bank Rate. The **MPC meeting of 14 September** provided a shock to the markets with a sharp increase in tone in the minutes where the MPC considerably hardened their wording in terms of needing to raise Bank Rate very soon. The **2 November MPC quarterly Inflation Report meeting** duly delivered on this warning by withdrawing the 0.25% emergency rate cut which had been implemented in August 2016. Market debate then moved on as to whether this would be a one and done move for maybe a year or more by the MPC, or the first of a series of increases in Bank Rate over the next 2-3 years. The MPC minutes from that meeting were viewed as being dovish, i.e. there was now little pressure to raise rates by much over that time period. In particular, the GDP growth forecasts were pessimistically weak while there was little evidence of building pressure on wage increases despite remarkably low unemployment. The MPC forecast that CPI would peak at about 3.1% and chose to look through that breaching of its 2% target as this was a one off result of the devaluation of sterling caused by the result of the EU referendum. The inflation forecast showed that the MPC expected inflation to come down to near the 2% target over the two to three year time horizon. So this all seemed to add up to cooling expectations of much further action to raise Bank Rate over the next two years.

However, GDP growth in the second half of 2017 came in stronger than expected, while in the new year there was evidence that wage increases had started to rise.

The **8 February MPC meeting** minutes therefore revealed another sharp hardening in MPC warnings focusing on a reduction in spare capacity in the economy, weak increases in productivity, higher GDP growth forecasts and a shift of their time horizon to focus on the 18 – 24 month period for seeing inflation come down to 2%. (CPI inflation ended the year at 2.7% but was forecast to still be just over 2% within two years.) This resulted in a marked increase in expectations that there would be another Bank Rate increase in May 2018 and a bringing forward of the timing of subsequent increases in Bank Rate. This shift in market expectations resulted in **investment rates** from 3 – 12 months increasing sharply during the spring quarter.

**PWLB borrowing rates** increased correspondingly to the above developments with the shorter term rates increasing more sharply than longer term rates. In addition, UK gilts have moved in a relatively narrow band this year, (within 25 bps for much of the year), compared to **US treasuries**. During the second half of the year, there was a noticeable trend in treasury yields being on a rising trend with the Fed raising rates by 0.25% in June, December and March, making six increases in all from the floor. The effect of these three increases was greater in shorter terms around 5 year, rather than longer term yields.

As for **equity markets**, the FTSE 100 hit a new peak near to 7,800 in early January before there was a sharp selloff in a number of stages during the spring, replicating similar developments in US equity markets.

The major UK landmark event of the year was the inconclusive result of the **general election** on 8 June. However, this had relatively little impact on financial markets. However, **sterling** did suffer a sharp devaluation against most other currencies, although it has recovered about half of that fall since then. Brexit negotiations have been a focus of much attention and concern during the year but so far, there has been little significant hold up to making progress.

The **manufacturing sector** has been the bright spot in the economy, seeing stronger growth, particularly as a result of increased demand for exports. It has helped that growth in the EU, our main trading partner, has improved significantly over the last year. However, the manufacturing sector only accounts for around 11% of GDP so expansion in this sector has a much more muted effect on the average total GDP growth figure for the UK economy as a whole.

**EU.** Economic growth in the EU, (the UK's biggest trading partner), was lack lustre for several years after the financial crisis despite the ECB eventually cutting its main rate to -0.4% and embarking on a massive programme of quantitative easing to stimulate growth. However, growth eventually picked up in 2016 and subsequently gathered further momentum to produce an overall GDP figure for 2017 of 2.3%. Nevertheless, despite providing this massive monetary stimulus, the ECB is still struggling to get inflation up to its 2% target and in March, inflation was still only 1.4%. It is, therefore, unlikely to start an upswing in rates until possibly towards the end of 2019.


**USA.** Growth in the American economy was volatile in 2015 and 2016. 2017 followed that path again with quarter 1 at 1.2%, quarter 2 3.1%, quarter 3 3.2% and quarter 4 2.9%. The annual rate of GDP growth for 2017 was 2.3%, up from 1.6% in 2016. Unemployment in the US also fell to the lowest level for 17 years, reaching 4.1% in October to February, while wage inflation pressures, and inflationary pressures in general, have been building. The Fed has been the first major western central bank to start on an upswing in rates with six increases since the first one in December 2015 to lift the central rate to 1.50 – 1.75% in March 2018. There could be a further two or three increases in 2018 as the Fed faces a challenging situation with GDP growth trending upwards at a time when the recent Trump fiscal stimulus is likely to increase growth further, consequently increasing inflationary pressures in an economy which is already operating at near full capacity. In October 2017, the Fed also became the first major western central bank to make a start on unwinding quantitative easing by phasing in a gradual reduction in reinvesting maturing debt.

**Chinese economic growth** has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus and medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems.

**Japan.** GDP growth has been improving to reach an annual figure of 2.1% in quarter 4 of 2017. However, it is still struggling to get inflation up to its target rate of 2% despite huge monetary and fiscal stimulus, although inflation has risen in 2018 to reach 1.5% in February. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.


# 2. Borrowing Rates in 2017/18

**PWLB certainty maturity borrowing rates**As depicted in the graph and tables below and in appendix 3, PWLB 25 and 50 year rates have been volatile during the year with little consistent trend. However, shorter rates were on a rising trend during the second half of the year and reached peaks in February / March. During the year, the 50 year PWLB target (certainty) rate for new long term borrowing was 2.50% in quarters 1 and 3 and 2.60% in quarters 2 and 4. The graphs and tables for PWLB rates show, for a selection of maturity periods, the average borrowing rates, the high and low points in rates, spreads and individual rates at the start and the end of the financial year.





# 3. Investment Rates in 2017/18

Investment rates for 3 months and longer have been on a rising trend during the second half of the year in the expectation of Bank Rate increasing from its floor of 0.25%, and reached a peak at the end of March. Bank Rate was duly raised from 0.25% to 0.50% on 2.11.17 and remained at that level for the rest of the year. However, further increases are expected over the next few years. Deposit rates continued into the start of 2017/18 at previous depressed levels due, in part, to a large tranche of cheap financing being made available under the Term Funding Scheme to the banking sector by the Bank of England; this facility ended on 28.2.18.




# 4. Other Graphs

**UK, US and EZ GDP growth**





**Inflation UK, US, Germany and France**




# 5. Borrowing and investment rates

Below are supplementary graphs and tables, and the PWLB rates are based on the maturity debt certainty rate.




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3/4/17 | 0.850% | 0.870% | 1.000% | 1.120% | 1.250% | 1.930% | 2.620% | 2.370% | 1.100% |
| 29/3/18 | 1.670% | 1.720% | 1.870% | 1.960% | 2.050% | 2.430% | 2.770% | 2.490% | 1.290% |
| High | 1.510% | 1.600% | 1.790% | 1.900% | 2.010% | 2.530% | 2.930% | 2.640% | 1.310% |
| Low | 0.800% | 0.820% | 0.940% | 1.030% | 1.140% | 1.780% | 2.520% | 2.250% | 1.040% |
| Average | 1.107% | 1.143% | 1.276% | 1.384% | 1.503% | 2.083% | 2.688% | 2.415% | 1.157% |
| Spread | 0.710% | 0.780% | 0.850% | 0.870% | 0.870% | 0.750% | 0.410% | 0.390% | 0.270% |
| High date | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 21/03/2018 |
| Low date | 03/05/2017 | 03/05/2017 | 30/05/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 08/09/2017 | 08/09/2017 | 04/04/2017 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/17 | 0.85% | 1.25% | 1.93% | 2.62% | 2.37% |
| 31/3/18 | 1.67% | 2.05% | 2.43% | 2.77% | 2.49% |
| Low | 0.80% | 1.14% | 1.78% | 2.52% | 2.25% |
| Date | 03/05/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 08/09/2017 | 08/09/2017 |
| High | 1.51% | 2.01% | 2.53% | 2.93% | 2.64% |
| Date | 21/03/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 |
| Average | 1.11% | 1.50% | 2.08% | 2.69% | 2.41% |

# 6. Money market investment rates 2017/18

| | 7 day | 1 month | 3 month | 6 month | 1 year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/17 | 0.111 | 0.132 | 0.212 | 0.366 | 0.593 |
| 31/3/18 | 0.364 | 0.386 | 0.587 | 0.704 | 0.878 |
| High | 0.366 | 0.390 | 0.587 | 0.704 | 0.879 |
| Low | 0.099 | 0.122 | 0.140 | 0.273 | 0.461 |
| Average | 0.215 | 0.233 | 0.286 | 0.401 | 0.606 |
| Spread | 0.267 | 0.268 | 0.447 | 0.432 | 0.418 |
| High date | 27/2/18 | 22/3/18 | 29/3/18 | 29/3/18 | 28/3/18 |
| Low date | 4/7/17 | 10/8/17 | 7/8/17 | 7/9/17 | 6/9/17 |

**SOURCE LINK GROUP 2018**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 17 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Children & Families Services Transformation Programme Manager<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig rydych yn gwbl ymwybodol o'r cefndir ynglŷn â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

Ers yr adroddiad diwethaf mae ffocws y gwaith o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod ar:

**1. Recriwtio a Chadw**

Mae'r gwasanaeth wedi hysbysebu am "Weithwyr Cymdeithasol Profiadol", ac er gwaetha'r prinder cenedlaethol o weithwyr o'r fath, llwyddwyd yn ddiweddar i recriwtio dau Weithiwr Cymdeithasol profiadol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweithredu'r cynllun wrth gefn, hynny yw, recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (NQSW) i'r swyddi hyn ac yna cyflogi gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol "gor gapasiti" am gyfnod o 1 flwyddyn. Pwrpas hyn yw cefnogi'r gweithwyr NQSW drwy gydol eu tair blynedd gyntaf mewn fframwaith Ymarfer, sy'n fframwaith statudol. Yn ddiweddar rydym wedi penodi 5 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso i'r Gwasanaeth. Byddwn yn parhau i recriwtio nes ein bod wedi penodi Gweithwyr Cymdeithasol parhaol.

Ym Mai 2008 cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ryddhau £268,008 o gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu'r gofynion ychwanegol o ran recriwtio. Defnyddir yr arian hwn i:

- gyflogi 7 NQSW i dimau gwaith maes o Hydref 2018 (3 eisoes wedi'u penodi);
- cefnogi'r 7 NQSW trwy sefydlu 4 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso am 12 mis;

- ymestyn y capasiti cyfreithiol o fewn y Gwasanaeth (1.5 FTE ar hyn o bryd) trwy gyflogi Cyfreithiwr 1 FTE ychwanegol am gyfnod o 12 mis;
- recriwtio 3 Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso ac 1 Arweinydd Ymarfer i weithio ar Achosion Hanesyddol.

Mae'r Tîm Achosion Hanesyddol yn eu lle ac yn archwilio, asesu a gwneud cynnydd ar achosion hanesyddol i'r cynllun cywir neu i'r Llysoedd. Mae'r achosion hyn naill ai'n:

1. Achosion lle gwnaed penderfyniad gwael yn y gorffennol
2. Achosion sydd wedi drifftio
3. Achosion heb fod ar y cynllun cywir
4. Goddefgarwch proffesiynol o ran esgeulustod a cham-drin emosiynol
5. Diffyg dull gwaith cymdeithasol ymholgar

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r Tîm Lleoli Plant a'r Tîm Cefnogi Teuluoedd. Mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi dod i ben. Y rhain yw'r rhannau olaf ond un o'r Gwasanaeth sy'n cael eu hailstrwythuro. Bydd yr ailstrwythuro'n lleihau nifer y gweithwyr yn y timau a bydd yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Ni chaiff swyddi eu colli gan fod swyddi gwag eraill o fewn y Gwasanaeth.

**2. <u>Adroddiad Tîm Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (IST)</u>**

Mae'r Tîm Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (IST) wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i helpu i wneud gwelliannau yn sgil yr archwiliad ar gais y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd canlynol:

- Gwirio pryderon a leisiwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth ynglŷn ag ansawdd yr ymarfer;
- Mesur cynnydd o ran datblygu Strategaeth Gweithlu effeithiol;
- Sefydlu'r graddau yr oedd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn ei le;

Maent wedi gwneud cryn waith gyda'r Gwasanaeth ac wedi bod yn adolygu gwahanol agweddau gan roi adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella. Cyflwynwyd eu hadroddiad terfynol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn ystod mis Gorffennaf 2018.

Dywedodd yr IST *"mae nifer o nodweddion calonogol a chadarnhaol sydd wedi dod yn amlwg yn ystod gwaith yr IST ac mae'n bwysig bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i'w cynnal ac adeiladu arnynt":*

- *Mae arweinyddiaeth/strwythur rheoli clir yn ei le;*
- *Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi chwarae rhan amlwg yn y broses o ymateb i Adroddiad AGGCC ac mewn gwaith i gryfhau perfformiad gwasanaethau plant.*
- *Mae'n cael ei chefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth a benodwyd ym mis*

*Tachwedd 2017. Mae ganddo brofiad sylweddol a pherthnasol ac mae'n darparu eglurder ac egni gwych wrth fynd i'r afael â'r rhaglen wella.*

- *Mae'r tîm o 4 Rheolwr Gwasanaeth oll yn weithwyr proffesiynol profiadol sy'n cael eu parchu;*
- *Bu i'r Awdurdod ymateb yn gyflym i Adroddiad Archwilio 2017 trwy baratoi Cynllun Gwella Gwasanaeth cynhwysfawr, gan ddechrau camau i weithredu ei rannau ? a monitro cynnydd pob un o'r rhain yn rheolaidd. Mae'n bwysig cydnabod y rhan bwysig y chwaraeodd y Pennaeth Gwasanaeth Interim i ddatblygu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chydlynu'r adolygiad parhaus o'r cynnydd a wnaed;*
- *Gwnaed trefniadau i gynnig gwell rheolaeth, mentora a chefnogaeth i Weithwyr Cymdeithasol a sefydlwyd strwythur gweithredu newydd yn cynnwys creu 9 o swyddi Arweinydd Ymarfer gyda phob un yn gyfrifol am dîm bach o Weithwyr Cymdeithasol;*
- *Roedd yr holl Arweinwyr Ymarfer yn eu swyddi erbyn Awst 2017;*
- *Mae trefniadau gwaith ar lefel weithredol rhwng y gwasanaeth ac Adnoddau Dynol Corfforaethol yn dda ac yn arwain at drefn recriwtio effeithiol i swyddi gwag a rhaglenni hyfforddi a datblygu staff perthnasol;*
- *Mae'r Uned Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Gwella, o dan arweinyddiaeth ei Rheolwr Gwasanaeth newydd, wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n gweithredu. Bellach mae mewn sefyllfa i adrodd yn rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth, trwy weithio gyda'r Rheolwyr Gwasanaeth eraill, er mwyn cyfrannu at wella'r gwasanaeth;*
- *Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn cael ei harwain gan Reolwr Gwasanaeth hynod o ymroddedig, mae'n gweithio'n dda, yn cynyddu o ran effeithiolrwydd ac mae'n fodel y gallai awdurdodau eraill ddysgu oddi wrthi;*
- *Mae'n bwysig cydnabod bod rhai arwyddion o wella yn ansawdd yr ymarfer. Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynglŷn â'r graddau y mae hyn yn digwydd yn gyson;*
- *Yn gyffredinol mae staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau sydd wedi'u gwneud ac yn nodi bod angen newid, yn arbennig yn y model gwasanaeth a ddatblygir yn yr Awdurdod;*
- *Mae'r Prif Weithredwr yn neilltuo amser i oruchwylio'r cynnydd o ran gwella gwasanaethau cymdeithasol plant, mae'n disgwyl y bydd hyn yn digwydd ac mae'n darparu cefnogaeth ymarferol ac ariannol pa fo angen rhoi sylw i broblemau penodol;*
- *Mae Arweinydd yr Awdurdod wedi ffurfioli ei chefnogaeth i'r gwasanaeth trwy gadeirio Panel Gwella Gwasanaethau Plant a hefyd mae'n ymgymryd â chyfrifoldebau deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r olaf yn drefniant anarferol yng nghyd-destun llywodraeth leol yng Nghymru ac mae i'w groesawu'n fawr yn y sefyllfa a wynebir gan yr Awdurdod;*
- *Mae lefel dealltwriaeth wleidyddol, yn arbennig ar ran Uwch Aelodau, o'r materion sy'n cael sylw o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant yn uchel. Mae tystiolaeth o hyn yn nhrafodaethau'r Panel Gwella, ym mherfformiad y Pencampwr Plant ac yng nghysylltiad Cadeirydd y Bartneriaeth a'r Pwyllgor Sgriwtini Adfywio.*

*Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio ystod arbennig o ffactorau sy'n argoeli'n dda i sicrhau gwelliant parhaus ar draws gwasanaethau cymdeithasol plant yn yr Awdurdod.*

Dyma gasgliadau'r IST o ganlyniad i weithio gyda'r Gwasanaeth:

- *Mae'n bwysig cydnabod yr her yr oedd yr Awdurdod yn ei hwynebu mewn ymateb i ganfyddiadau Adroddiad Archwilio AGGCC a'r argymhellion ynddo. Paratowyd Cynllun Gwella Gwasanaeth yn gyflym a gweithredwyd rhaglen wella gynhwysfawr. Gwnaed newidiadau strwythurol pwysig, yn cynnwys creu haen newydd o Arweiniwyr Ymarfer, pob un â thîm bach o Weithwyr Cymdeithasol, a gweithredwyd trefniadau ar gyfer Rheolwr Gwasanaeth newydd. Sefydlwyd Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae hwn yn darparu model y gallai eraill ei hefelychu. Llwyddodd y Cyfarwyddwr i sicrhau cytundeb Corfforaethol a Gwleidyddol ar gyfer y newidiadau hyn a phenodi Pennaeth Gwasanaeth newydd erbyn Tachwedd 2017. Gweithredwyd y trefniadau staffio newydd dros gyfnod byr o amser.*

- *Mae graddau'r newid yng ngwasanaethau plant wedi bod yn sylweddol ac yn ystod ei waith, mae'r IST wedi sylwi ar welliant amlwg o ran morâl ac ymrwymiad i'r cyfeiriad y mae'r gwasanaeth yn mynd iddo. Mae cynnydd calonogol hefyd wedi'i wneud i leihau dibyniaeth y gwasanaeth ar Weithwyr Cymdeithasol Asiantaeth a chynyddu nifer y penodiadau parhaol y mae wedi gallu eu gwneud.*

- *Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), fodd bynnag, wedi cael effaith niweidiol ar ymdrechion yr Awdurdod i wella. Cyfeiriwyd at ei chyfyngiadau difrifol drwy gydol yr Adroddiad hwn, Mae rheolwyr yn glir iawn ynglŷn â'r broblem, a bellach mae rhaglen waith i geisio mynd i'r afael â diffygion y system yn ei lle. Bydd angen sylw parhaus i hyn a gobeithio y bydd y gwasanaeth yn gallu symud i sefyllfa lle y gall sicrhau, ar lefel weithredol a strategol, yr hyn oedd wedi gobeithio ei gael ar y dechrau o'r system.*

- *Ym marn yr IST, mae materion amlwg y bydd angen rhoi sylw parhaus iddynt os yw'r Awdurdod am adeiladu ar y llwyfan calonogol y mae bellach wedi'i chreu. Nodir y rhain yn yr Adroddiad ac fe'i rhannwyd gydag Uwch Swyddogion wrth i'n gwaith ddatblygu. Ar hyn hoffwn dalu teyrnged i'r ffordd agored a chadarnhaol y mae staff o fewn gwasanaethau plant ac ar draws yr Awdurdod ynghyd â Chynghorwyr wedi cydweithredu gyda ni yn ystod ein gwaith. Mae rheolwyr wedi sicrhau ein bod yn cael y mynediad oedd ei angen arnom drwy'r amser ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol trwy roi sylw i'r materion yr ydym wedi'u codi. Mae tystiolaeth o hyn mewn nifer o bwyntiau yn yr Adroddiad ac yn arbennig yn yr adran sy'n dwyn y teitl "Materion sydd Angen ac sy'n Cael Blaenoriaeth". Dyma'r adeg briodol i gofnodi ein diolch i*

*bawb.*

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried er mwyn parhau i wneud gwelliannau yn y Gwasanaeth.

**3. Gwelliant o ran Dangosyddion Perfformiad**

Mae gwelliant amlwg yn erbyn Dangosyddion Perfformiad (DP) yn ystod y chwarter diwethaf. Dylid nodi, oherwydd niferoedd cymharol isel plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn yr Awdurdod Lleol, fod nifer fach o blant a phobl ifanc (2-4) yn gwneud newidiadau sylweddol i'r DP, ond gellir gweld yn glir bod gwelliannau wedi'u gwneud.

Dyma dystiolaeth o'r gwelliant yn ystod Chwarter 1 2018/19 o'i gymharu â'r ffigyrau cronnus ar gyfer 2017/18 ar y Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol penodol hyn a'r Dangosyddion Perfformiad lleol:

| | **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **2017/18 Cronnol** | **Chwarter 1 2018/19** |
|---|---|---|---|
| PM C-24 | Canran asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith). | 67.57% | 96.39% |
| PM C-27 | Canran ail-gofrestriadau plant ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol o fewn 12 mis i ddiwedd y cofrestriad blaenorol. | 6.35% | 0% |
| PM C-32 | Canran plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol (1) neu fwy o weithiau, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod yn derbyn gofal, nad oedd o ganlyniad i drefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. | 32.29% | 0% |
| PM C-33 | Canran plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. | 9.15% | 1% |
| PM C-34 | Canran yr holl rai sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol (2016-17 ar gyfer 2017-18 a 2017-18 ar gyfer 2018-19) sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis ar ôl gadael gofal. | 38.00% | 63% |
| PM C-36 | Canran y rhai sydd wedi gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, i gynnwys yr holl bobl ifanc berthnasol rhwng 16 a 24. | 5.00% | 4.00% |
| SCC006 | Canran atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad o fewn 1 diwrnod gwaith. | 86.31% | 96.00% |
| SCC/010 (Lleol) | Canran atgyfeiriadau sy'n ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis | 15.00% | 11.87% |

Mae'r ffigyrau'n galonogol ac yn dangos bod y Gwasanaeth yn gwella yn erbyn dangosyddion perfformiad, a bod y Gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwelliant yn cael ei gynnal a'i wella ymhellach.

**4. <u>Sylwadau Cadarnhaol</u>**

Mae nifer y sylwadau cadarnhaol wedi cynyddu o fewn y Gwasanaeth sy'n welliant cadarnhaol iawn o ran ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Ynys Môn.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf bu cynnydd mewn sylwadau cadarnhaol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2017/18, cafwyd 96 o sylwadau cadarnhaol gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd gyda 32 ohonynt gan weithwyr proffesiynol eraill, tra bod 64 gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, neu aelodau'r teulu, neu ofalwyr maeth.

Cafodd y Gwasanaeth 33 o sylwadau cadarnhaol yn ystod chwarter 1 eleni sy'n galonogol i'r Gwasanaeth. Mae cwynion i'r Gwasanaeth hefyd wedi lleihau, ond rhaid cydnabod bod natur y Gwasanaeth a'r swyddogaethau y mae'n eu cyflawni'n golygu ei bod yn anochel ein bod yn derbyn cwynion.

**5. <u>Perfformiad Corfforaethol</u>**

Gwelwyd gwelliant sylweddol o ran perfformiad y Gwasanaeth mewn perthynas â chyrraedd safonau perfformiad corfforaethol.

Yn y gorffennol nid yw'r Gwasanaeth wedi perfformio cystal o ran cyflawni safonau corfforaethol fel y targed absenoldeb salwch corfforaethol a chwblhau'r modiwlau hyfforddiant arlein mandadol, mae'r Gwasanaeth bellach yn perfformio'n well yn erbyn targedau.

O ran hyfforddiant arlein mae lefel cydymffurfio'r Gwasanaeth Plant wedi gwella'n sylweddol, gyda chyfradd cydymffurfio ar gyfartaledd yn 99% ar 24 Gorffennaf 2018, o'i gymharu â chanran gyfartalog o 57% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos.

**6. <u>Digwyddiad Dathlu Gofalwyr Maeth CSYM – 10 Gorffennaf 2018</u>**

Yn ddiweddar trefnodd y gwasanaeth ddigwyddiad dathlu ar gyfer gofalwyr maeth i ddweud "diolch" wrth holl ofalwyr maeth yr awdurdod lleol a theuluoedd a chyfeillion (pobl gysylltiedig) gofalwyr maeth.

Roedd hwn yn gyfle, nid yn unig i ofalwyr maeth gyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, staff ac aelodau etholedig y Cyngor, ond hefyd, yn bwysicach, roedd yn gyfle i'r awdurdod gydnabod yn ffurfiol y gwaith gwerthfawr y mae gofalwyr maeth yn ei wneud, 24 awr y dydd, gyda rhai o blant a phobl ifanc mwyaf bregus Ynys Môn.

Estynnodd y Cynghorydd Llinos Medi wahoddiad fesul un i'r gofalwyr maeth dderbyn tystysgrif diolch a rhannu ychydig o eiriau am eu profiad o faethu. Boed yn ofalwyr

prif lif neu'n ofalwyr sy'n berthnasau, yn ofalwyr newydd eu cymeradwyo neu'n rhai mwy profiadol, rhoddodd pawb enghreifftiau diffuant o'r hyn mae'n ei olygu i helpu plentyn i gyflawni ei botensial a'r pleser o'i weld/gweld yn ffynnu a llwyddo.

Roedd y gwasanaeth hefyd yn falch o allu cyhoeddi Aelodaeth am ddim i Wasanaethau Hamdden Ynys Môn i ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ac i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y digwyddiad. Cytunwyd yn flaenorol i ddarparu aelodaeth hamdden am ddim i rai sy'n gadael gofal yn Ynys Môn, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwasanaeth hamdden am ymestyn hyn i gynnwys holl ofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn.

Cododd yr angen i gynnal y digwyddiad yn sgil trafodaethau rhwng y Gwasanaeth a'i ofalwyr maeth yn Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn. Cytunodd y fforwm bod rhyw fath o gydnabyddiaeth ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol, fel rhiant corfforaethol, i gydnabod rôl gofalwyr maeth yn bwysig. Roedd yr Awdurdod Lleol yn arfer cynnal seremoni 'gwobrau gwasanaeth hir' yn flynyddol ar gyfer gofalwyr maeth, ond ni chynhaliwyd seremoni ers nifer o flynyddoedd. Roedd y dathliad hwn yn wahanol iawn a dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath yn Ynys Môn.

Roedd yr adborth gan ofalwyr maeth oedd yn gallu bod yn bresennol yn gadarnhaol, a chafwyd sylwadau am y dathliad, a sut yr oedd yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff ar bob lefel a gweinyddiaeth o fewn yr Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn dymuno diolch i'r aelodau etholedig oedd yn bresennol yn y Digwyddiad Dathlu.

**7. <u>Gweithdy Partneriaid Strategol - 19 Gorffennaf 2018</u>**

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r broses o weithio mewn partneriaeth ac yn benodol gyda phartneriaid strategol. Cynhaliwyd Gweithdy Partneriaid Strategol ar 19 Gorffennaf 2018 er mwyn rhannu cynnydd gyda phartneriaid a gofynnwyd iddynt barhau i fod yn rhan o'r llwybr tuag at wella. Yn y gweithdy esboniwyd canfyddiadau'r archwiliad ac amlinellwyd sut mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed gan AGGCC. Rhannwyd y cynnydd a wnaed y llynedd a thrafodwyd blaenoriaethau 2018-19 ac amlinellwyd datblygiadau yn y dyfodol.

**8. <u>Oblygiadau Ariannol</u>**

O safbwynt monitro cyllideb Chwarter 1, rhagwelir y bydd y Gwasanaeth yn gorwario o £1.28m yn 2018/19. Mae'r swm hwn ar ôl rhyddhau'r arian wrth gefn a'r treuliau annisgwyl ar gyfer Teuluoedd Cydnerth/Gwasanaethau Gofal Ymylol, Costau Staff Asiantaeth a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Serch hynny, mae hwn yn welliant sylweddol ers y ffigyrau terfynol ar gyfer 2017/18 sy'n dangos gorwariant o of £1.78m.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i graffu ar yr holl gontractau ac yn achlysurol bydd yn herio costau yn arbennig ar gyfer darpariaeth plant sy'n derbyn gofal. Gwneir ymdrech hefyd i leihau gwariant ar draws y gwasanaeth ac mae hyn yn ei dro wedi

| |
|---|
| lleihau'r gorwariant a ragwelir hyd yma.<br><br>**ARGYMHELLION**<br><br>➢ I gadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd i symud ymlaen i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a graddau'r cynnydd.<br><br>➢ I gadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â graddau'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith eu bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 28 Awst 2018. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Mae'r adroddiad yn mynd i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Medi 2018. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |
| | | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi 2018**<br>**Cyngor Llawn 25 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>**Dafydd R Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod cyfeiriad newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rhan 8 y Ddeddf a'r Côd Ymarfer perthnasol yn nodi rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn unol â'r Ddeddf, cytundeb y Cyngor yw'r Protocol hwn sy'n nodi rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sef un o swyddogaethau'r Prif Weithredwr Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes.

Mae'r protocol sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn nodi trefniadau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â dyletswyddau'r Cyfarwyddwr. Cafodd y Protocol gwreiddiol ei ddrafftio 2 flynedd yn ôl ac fe'i adolygwyd yn 2018 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chymorth y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes, drwy ymgynghori gydag uwch swyddogion ar draws yr awdurdod lleol.

Argymhellion:

Bod y Cyngor:

1.1. Yn mabwysiadu'r Protocol sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1;

1.2. Yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yn y Cyfansoddiad ac unrhyw newidiadau'n deillio o hynny, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Protocol yn Atodiad 1 wedi cael ei fabwysiadu.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni chafodd unrhyw opsiynau eraill eu trafod oherwydd mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 8, y Côd Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu rôl y cyfarwyddwr. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Oherwydd bod yr adroddiad yn cynnig newid i'r Cynllun Dirprwyo, sydd yn rhan o'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Dim goblygiadau i'r gyllideb. |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd y papur mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 28 Awst 2018 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Trafodwyd y papur mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 28 Awst 2018 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ymgynghorwyd gyda'r Swyddog Monitro ynghylch cynnwys y Protocol ac mae wedi drafftio newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Protocol i Alluogi'r Cyfarwyddwr i gwrdd â Disgwyliadau'r Swydd yn Ynys Môn |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 8 y Côd Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol) http://gov.wales/docs/dhss/publications/160322part8en.pdf |

**RÔL AC ATEBOLRWYDD CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL DAN RAN 8 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014: PROTOCOL I ALLUOGI'R CYFARWYDDWR I GYFLAWNI DISGWYLIADAU'R SWYDD YN YNYS MÔN.**

**CYFLWYNIAD**

Rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi swyddog, a elwir yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth wneud hynny rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y person wedi dangos cymwyseddau a bennir gan Weinidogion Cymru (Atodiad 1). Nodir y rhain yn y Côd Ymarfer a gyhoeddwyd gan Weinidogion i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth wraidd Cymdeithas Cymru ac yn gyfrifol am gefnogi, diwallu anghenion a diogelu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, pobl anabl, sydd ag anableddau dysgu, profiad o iechyd meddwl gwael a phobl hŷn. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn ac am sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu poblogaeth o ran gofal a chymorth. Mae'r Côd Ymarfer yn nodi'r rôl arweinyddiaeth strategol y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr ei chyflawni os bydd yr awdurdod yn sicrhau y caiff llesiant ei hyrwyddo a'r gwasanaethau gofal a chymorth, sy'n cyflawni'r egwyddorion y sefydlir y Ddeddf arnynt, eu darparu'n effeithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn ffynhonnell cyngor i'r awdurdod ar holl faterion y gwasanaethau cymdeithasol a bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas ag unigolion yn ei ardal yn unol â gofynion deddfwriaeth. Mae'r Côd Ymarfer yn glir ynghylch y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau eu rhoi ar waith ac mae'r ddogfen hon yn ystyried goblygiadau'r Côd ar gyfer rôl ac atebolrwydd y Cyfarwyddwr yn yr Awdurdod hwn.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn atebol am ansawdd gwasanaethau a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau at ddibenion cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith. Mae'r cyfarwyddwr yn chwarae rhan hollbwysig o safbwynt sicrhau'r gefnogaeth

wleidyddol a chorfforaethol hanfodol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i’r Cyfarwyddwr reoli gwasanaethau a pherfformiad yn effeithiol a dangos ymdeimlad clir o gyfeiriad strategol ynghyd ag arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer staff a gwasanaethau; meithrin cydberthnasau cydweithio effeithiol oddi mewn i’r awdurdod lleol a’r tu allan iddo, gan gynnwys trefniadau integredig ffurfiol gyda byrddau iechyd a hybu’r gwaith o gyflawni canlyniadau gwell i bobl. Lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn partneriaeth, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n parhau i fod yn atebol am gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.

Dylid deall rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a dylai'r Awdurdod Lleol gael trefniadau ar waith sy'n galluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r eithaf. Er bod y Protocol hwn yn anelu at gyfleu’r ddealltwriaeth honno, nid yw'n sefyll ar ei ben ei hun, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r dogfennau llywodraethu cyffredinol eraill. Mae'n cwrdd â gofynion y Côd bod “rhaid i drefniadau gweithio a ddiffiniwyd fod ar waith rhwng cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ac uwch-swyddogion eraill yn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir atebolrwydd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol".

Mae'r Côd yn mynnu bod "Rhaid cytuno’n iawn ar y berthynas rhwng pennaeth y gwasanaeth cyflogedig  a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a rhaid iddi gael ei chyfleu’n briodol i gynghorwyr, swyddogion a phartneriaid. Rhaid i hynny gael ei ategu mewn dogfennau llywodraethu a dirprwyo a ddylai gael eu hadolygu’n rheolaidd." Mae'r Côd yn rhoi pwyslais mawr ar y rhan hollbwysig y mae'n rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ei chwarae i sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r disgwyliadau sy'n rhan o'r rôl, bod y rôl hon yn cael ei deall ar draws yr Awdurdod a chan bartneriaid a bod effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. I gydnabod hyn, mae Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig wedi goruchwylio ac wedi adolygu gwaith paratoi’r Protocol hwn i sicrhau ei fod wedi'i gynhyrchu ar y cyd â'r holl chwaraewyr allweddol. Mae'r Protocol hwn yn diffinio'r berthynas a'r trefniadau gweithio rhwng Cyfarwyddwr  y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Uwch-swyddogion ac Aelodau i sicrhau y bodlonir atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol. Cytunwyd y bydd y Protocol yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd, neu pan geir newidiadau strwythurol neu ddeddfwriaethol. Rhaid i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, mewn partneriaeth â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, werthuso effeithiolrwydd y trefniadau a ddiffiniwyd wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau.

Mae'r Protocol wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan Uwch-dîm Rheoli'r Awdurdod a'r Cyngor. Mae'n tynnu ar ofynion y Côd Ymarfer, yn nodi Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr ac yn disgrifio'r fframwaith trefniadau sydd ar waith yn yr Awdurdod i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ar ran yr Awdurdod.

**LLYWODRAETHIANT AC ATEBOLRWYDD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Perthynas â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, a byddant yn cael amser cyfarfod rheolaidd fel rhan o'u perthynas atebolrwydd. Rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau ei fod yn goruchwylio trefniadau'n fanwl bob amser a sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae gan bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig swyddogaeth allweddol o safbwynt galluogi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, a rhaid iddo sicrhau bod seilwaith corfforaethol yn cynorthwyo'r cyfarwyddwr i gyflawni ei atebolrwydd statudol.

Yn y cyd-destun hwn, rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: -

- Â swydd digon uchel i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod;

- Yn aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a bod â mynediad uniongyrchol at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac Aelodau Etholedig ac adrodd yn uniongyrchol iddynt;
- Yn rhinwedd yr aelodaeth honno, rhaid iddo allu cyfrannu at weledigaeth a chyfeiriad y Cyngor a sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth;
- Sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth gorfforaethol;
- Sicrhau bod y Cyfarwyddwr yn adrodd i'r Cyngor yn unol â'r atebolrwydd craidd.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau bod:

- Fframwaith Perfformiad yr Awdurdod Lleol yn gadarn ac yn adrodd ar faterion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y sefydliad, gan adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Aelodau Etholedig ar berfformiad yr awdurdod.
- Fframwaith Perfformiad yr Awdurdod Lleol yn caniatáu i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig ganfod unrhyw fethiant systemig a pharhaus yng nghyswllt safonau ac ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Fel aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i ystyried goblygiadau cyffredinol o ran adnoddau, gan gynnwys materion cyllidebol. Mae Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod cynghorwyr yn cael cyngor clir ynghylch lefel yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn i awdurdod lleol allu cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr:

- Sicrhau bod Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Pwyllgor Gwaith a chynghorwyr yn gallu cael y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol orau, ddiweddaraf am bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth;

- Rhoi sicrwydd i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a chynghorwyr bod swyddogaethau statudol a bennwyd i'r awdurdod wedi'u cyflawni, a bod gwybodaeth reoli briodol a chofnodion cywir yn cael eu cadw;
- Mewn cydweithrediad â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, adnabod blaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meysydd lle mae problemau staffio'n cael effaith ar allu'r cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, a chynghori cynghorwyr yn eu cylch;
- Briffio Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a chynghorwyr allweddol ynghylch achosion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o beri pryder i'r cyhoedd;

**Datrys Gwahaniaethau:**

Ar adegau, gallai gwahaniaethau barn a gwahaniaethau mewn cyngor posib i Gynghorwyr weithiau godi rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch-swyddogion eraill. Mae materion sy'n ymwneud â Gweithlu ac anghenion adnoddau yn feysydd penodol lle gallai hyn godi. Mae'n bwysig bod y Protocol hwn yn pennu'r safon y dylid ei defnyddio i ddatrys y sefyllfaoedd hyn a dangosir isod sut caiff ei ddefnyddio.

Bydd y mater o ran yr adnoddau sydd ar gael i fodloni rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol yr Awdurdod bob amser yn fater sensitif ac anodd. Bydd tensiynau rhwng yr angen am adnoddau ychwanegol ar y naill law ac i gyflawni arbedion ar y llall. Mewn sefyllfa o'r fath, mae gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau, gyfrifoldeb dros sicrhau bod Uwch-swyddogion a Chynghorwyr yn cael cyngor clir ar y sefyllfa ariannol y mae'r Awdurdod yn ei wynebu ac ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â rhwymedigaethau statudol y Cyngor a dyheadau polisïau eraill. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi cyngor ar yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod a gallai hyn fod yn her o fewn y sefyllfa ariannol gyffredinol sy'n bodoli.

Bydd rhaid i'r trefniadau gweithio y cytunir arnynt rhwng y Cyfarwyddwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ymdrin â sefyllfaoedd lle mae gwahaniaethau barn nad ydynt wedi'u

datrys trwy sicrhau bod cyngor y Cyfarwyddwr ar gael i'r Cynghorwyr ochr yn ochr â barn Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

Rhaid i'r Awdurdod fod wedi ymrwymo i sicrhau bod penderfyniadau a gyrhaeddir ar ôl cwblhau'r broses hon yn eiddo i'r Awdurdod yn gyffredinol. Dylai'r dull hwn gael ei weithredu mewn sefyllfaoedd eraill lle ceir gwahaniaethau barn nad yw swyddogion wedi gallu eu datrys eu hunain.

**Cyflawni Atebolrwydd Craidd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Protocol yn cyfeirio'n benodol at y cyfraniad y mae'n rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Uwch-reolwyr o fewn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Dysgu ei wneud i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r atebolrwydd craidd sy'n rhan o'r rôl. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan eraill ymhlith Uwch-reolwyr yr Awdurdod ran yr un mor bwysig i'w chwarae. Mae'n bwysig sicrhau bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n cael eu cydnabod, ond bydd disgwyl y bydd y ffaith y byddant yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn cryfhau perfformiad yr Awdurdod tra hefyd yn peidio â pheryglu meysydd cyfrifoldeb unigol.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr allu galw ar gefnogaeth cydweithwyr lle mae angen cyfraniadau penodol mewn meysydd megis datblygu polisïau a gwasanaethau, mentrau cydweithio a chynhyrchu Adroddiadau sy'n ymdrin â chyflawni cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys y rhai hynny i Uwch-dîm Rheoli'r Awdurdod neu'r Cyngor ac a wneir fel rhan o fusnes arferol neu sy'n ymateb i faes pryder penodol. Cyfeirir at Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr yn ddiweddarach yn y Protocol hwn ac mae'n rhaid yn bendant gael cyfraniadau gan brif swyddogion sy'n gyfrifol am feysydd gwasanaeth eraill ar gyfer hwn. Yn yr un modd, rhaid iddynt hefyd fod yn effro i'r angen i sicrhau y gofynnir am farn y Cyfarwyddwr ar bob mater a allai gael effaith ar y modd y mae’r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac y caiff ei nodi mewn unrhyw adroddiadau a gyflwynir ar gyfer gwneud penderfyniad.

Yn yr un modd, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth i brif swyddogion eraill mewn meysydd lle mai’r Cyfarwyddwr sydd â’r prif gyfrifoldeb. Mae rhoi

cyngor ac arweiniad i adrannau eraill ar ffyrdd o gryfhau eu trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn enghraifft arbennig o bwysig o'r gefnogaeth y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr ei rhoi fel rhan o drefniadau'r naill ochr a'r llall a ddylai fodoli rhwng y Cyfarwyddwr a chydweithwyr uwch eraill.

Rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fodloni ei hun fod yr holl drefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol a bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cyflawni'r disgwyliadau sy'n rhan o'r rôl.

**Perthynas â'r Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth**

Mae angen trafod yn glir a phenodol drefniadau gweithio rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch-swyddogion eraill o fewn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Lle mae cyfrifoldeb dros gyflwyno unrhyw ran o swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i reolaeth llinell uniongyrchol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yna mae angen dogfennu'r trefniadau hyn i egluro a sicrhau y cyflawnir swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol. Mae angen nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir yn y modd hwn mewn Cynlluniau Dirprwyo Cymeradwy ar gyfer Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn glir na ellir dirprwyo atebolrwydd yn y pen draw a phery hwn gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: a byddant yn cael amser cyfarfod rheolaidd fel rhan o'u perthynas atebolrwydd. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol, broffesiynol a gweithredol o fewn eu gwasanaethau, gan sicrhau bod mesurau diogelu perthnasol ar waith i ddiogelu plant a phobl fregus, bod lefel dda o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, yn ogystal ag i'w gofalwyr, ac annog canlyniadau da i blant a phobl. Rhan allweddol o'u rôl yw sicrhau y gweithredir ar atebolrwydd statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithiol trwy gyflenwi a dirprwyo, gydag atebolrwydd clir am berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan y ddau Bennaeth Gwasanaeth fframweithiau perfformiad yn eu lle a chyflwynant adroddiadau perfformiad chwarterol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol: ac yn chwarterol, ceir adroddiad cynhwysfawr ar berfformiad, ariannol a rheoli risg.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r Unigolyn Cyfrifol yn yr uned darparwyr. Mae gan yr Uned Darparwyr Bolisi Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd sy'n amlinellu y bydd y Cyfarwyddwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwe mis ac y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae dyletswydd ar yr Unigolyn Cyfrifol i roi gwybod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am faterion sy'n peri pryder pan fyddant yn codi.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Tai mewn perthynas â llesiant a'r rhaglen ataliol a nodwyd yn y polisi hwn.

Mewn perthynas â'r berthynas â'r holl Benaethiaid Gwasanaeth, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Sicrhau fod gan bob Gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i warchod oedolion a phlant sy'n fregus. Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth Unigol fod yn atebol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran eu trefniadau diogelu.
- Sicrhau, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) bod systemau priodol ar waith ar gyfer cynllunio, hyfforddi a datblygiad proffesiynol gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hyrwyddo gwaith cadw staff ac ansawdd y gwasanaethau.
- Rhoi arweiniad strategol i sicrhau bod gwasanaethau unigol awdurdod lleol yn cyfrannu at hyrwyddo llesiant pawb sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

**Rôl y Pennaeth Dysgu**

Mae Adran 27 Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer y gwasanaethau plant a phobl ifanc i gydlynu a goruchwylio

trefniadau i wella llesiant plant yn ardal yr awdurdod lleol yn Ynys Môn. Y person a ddynodir yw'r Pennaeth Dysgu.

Yn yr Awdurdod Lleol hwn, mae dwy rôl wahanol ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd gorgyffwrdd rhwng y ddwy rôl. Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ceisio rhoi sylw i anghenion llesiant pob plentyn. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ganolbwyntio ar wella llesiant plant yn benodol gydag anghenion o ran gofal a chymorth a gwarchod plant rhag niwed. Wrth weithredu'r Protocol hwn, rhaid i'r Awdurdod fod yn glir ynghylch yr hyn y mae bob rôl yn canolbwyntio arno. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu gweld yn ategu ei gilydd ac mae'n rhaid i'r unigolion sy'n ymgymryd â'r rolau priodol hyn gydgysylltu'n rheolaidd ac yn ffurfiol bob wyth wythnos. Rhaid i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn ôl yr angen.

**Perthynas â Chymuned Fwy Diogel**

Yn yr Awdurdod Lleol hwn, y prif weithredwr cynorthwyol (Partneriaeth) sy'n arwain ar ddiogelwch cymunedol. Rhaid i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol gysylltu'n rheolaidd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau faes.

**Perthynas â'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ddatblygu capasiti'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio i gefnogi'r rôl a dal deilyddion swyddi i gyfrif, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio yn glir ynghylch y wybodaeth y dylent ei disgwyl mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau penodol gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau ehangach i hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio y cyngor a’r wybodaeth broffesiynol, ddiweddaraf ar bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth; sicrhau bod y swyddogaethau statudol a osodwyd ar yr awdurdod wedi'u cynnal, a bod gwybodaeth reoli gywir a chofnodion cywir yn cael eu cadw; a sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol friffio'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar faterion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder i'r cyhoedd ac ar strategaethau ar gyfer gwella dulliau ymyrryd, darparu gwasanaethau, ymarfer a defnyddio adnoddau. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nodi a chynghori'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio ar flaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws bob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys amgylchiadau lle mae materion staffio yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Bydd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol amser cyfarfod rheolaidd gydag Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio.

**Perthynas ag Aelodau**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ddatblygu capasiti Aelodau Etholedig i gefnogi'r rôl a dal deilyddion swyddi i gyfrif, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod Aelodau Etholedig yn glir ynghylch y wybodaeth y dylent ei disgwyl mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau penodol gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau ehangach i hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Plant a bydd yn defnyddio'r trefniadau presennol, gan gynnwys Sesiynau Briffio Aelodau, perthynas â'r Deilydd Portffolio, yr Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith a Chadeirydd Sgriwtini. Bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi’r cyngor a’r wybodaeth broffesiynol, ddiweddaraf ar bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth; sicrhau bod y swyddogaethau

statudol a osodwyd ar yr awdurdod wedi'u cynnal, a bod gwybodaeth reoli gywir a chofnodion cywir yn cael eu cadw; a sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynghori aelodau arweiniol ar faterion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder i'r cyhoedd ac ar strategaethau i wella dulliau ymyrryd, darparu gwasanaethau, ymarfer a defnyddio adnoddau. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nodi a chynghori Aelodau Etholedig ar flaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws bob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys amgylchiadau lle mae materion staffio yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**Perthynas ag Arolygiaethau a Rheoleiddwyr**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol arwain a chynorthwyo gwaith ymgysylltu a chydweithredu parhaus ag arolygiaethau a rheoleiddwyr bob un o swyddogion yr awdurdod lleol yng nghyswllt paratoi a chynnal unrhyw adolygiadau o berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, ac unrhyw wasanaethau gofal a chymorth eraill a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod arolygiaethau a rheoleiddwyr yn cael yr holl wybodaeth berthnasol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr adrodd i'r cyngor ar fanylion unrhyw adroddiad arolygu neu reoleiddio ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Bydd yn egluro, mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, pa gamau gweithredu priodol a gymerir i wella gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth neu i atal anghenion o'r fath rhag datblygu neu i arafu'r graddau y maent yn datblygu.

**Plant a'u Teuluoedd**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod trefniadau strategol ar waith i ddarparu ar gyfer cydweithredu ar draws yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaeth gofal a chymorth yn effeithiol. Rhaid rhoi pwyslais cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar, yn ogystal â rhwyddineb mynediad at wybodaeth a chyngor. Rhaid canolbwyntio ar alluogi teuluoedd i fod yn wydn a thynnu ar eu hadnoddau a'u cymuned eu

hunain. Y nod yw cefnogi oedolion a theuluoedd sy'n fregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi arweiniad a dangos strategaeth i reoli risg yn hyderus a chydweithredu'n effeithiol gyda'r ystod lawn o bartneriaid i weithio gyda theuluoedd ar 'ymyl gofal', gan sicrhau bod yr anghenion yn cael eu hasesu'n gywir a'u bodloni, fel mai dim ond y plant hynny y mae angen llety arnynt sy'n cael eu lletya a bod trefniadau'n cael eu gwneud ar yr adeg iawn. Mae gan yr Awdurdod Lleol Banel Rhiant Corfforaethol y mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod ohono. Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer gwaith cynllunio sy'n cynnwys pob agwedd ar les y plentyn, gan gynnwys anghenion iechyd a datblygiad, sefydlogrwydd a pharhad, a chyrhaeddiad addysgol, ac maent yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Elfen allweddol o'r cyfrifoldebau yw gweithio gyda rhieni, teuluoedd a gofalwyr maeth i gadw plant a phobl ifanc yn eu cymunedau, lle bo'n bosib ac yn briodol.

**Lleisiau defnyddwyr gwasanaeth**

Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl wrth wrando ar leisiau a phryderon defnyddwyr gwasanaethau. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant oedolion a phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo annibyniaeth pobl i roi llais a rheolaeth gryfach iddynt.

**Llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried y ddyletswydd llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol eraill sy'n ymwneud â'r modd y mae'r awdurdod lleol yn arfer

pob un o’i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth strategol o safbwynt sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol yn ceisio hyrwyddo llesiant pawb sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Wrth wneud hynny, bydd y Cyfarwyddwr yn gallu galw ar adnoddau ehangach yr Awdurdod Lleol. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo cydweithrediad o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth unigol a chyfarfod misol y Penaethiaid Gwasanaeth, fel corff llywodraethu cyfunol, rôl ac atebolrwydd allweddol wrth geisio sicrhau y bodlonir llesiant holl drigolion yr Ynys.

**Cydweithredu, gweithio mewn partneriaeth ac mewn modd integredig**

- Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol arwain ar ddatblygu trefniadau effeithiol, gan gynnwys ar lefel partneriaeth ranbarthol, i hyrwyddo cydweithrediad i:
- gwella llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr y mae angen cymorth arnynt;
- gwella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i bobl, gan gynnwys cefnogaeth i ofalwyr;
- gwarchod oedolion sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth ac sydd mewn perygl neu'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso; a
- gwarchod plant sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

Mae gan yr Awdurdod Lleol fframweithiau yn eu lle i gefnogi'r amcan hwn, gan gynnwys cymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, a'r Cydweithio Rhanbarthol dan Gydweithrediaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o'r ddau fwrdd ac yn cefnogi gwaith y byrddau, ac yn sicrhau bod gwybodaeth gan y byrddau yn dangos yn glir sut mae unrhyw swyddogaethau’r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyflawni. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y cydweithrediad rhanbarthol hwn yn arwain at well effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal a

chymorth i roi sylw i anghenion o ran gofal a chymorth, ac anghenion o ran cymorth i ofalwyr, a nodir yn yr Adroddiad Asesu Poblogaeth.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol geisio datblygu amgylchedd effeithiol ar gyfer hyrwyddo cydweithrediad â phartneriaid allanol, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, Heddlu Gogledd Cymru, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yng nghyswllt pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Yn lleol, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain y cydweithredu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol trwy Gyfarfod Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig y Gorllewin sy'n adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â'r corff ymbarél ar gyfer y trydydd sector - Medrwn Môn - yn rheolaidd: a bydd yn cwrdd â chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn flynyddol o leiaf.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod unrhyw broblemau o gydweithrediad rhyngasiantaethol a bylchau rhwng gwasanaethau'n cael eu nodi a'u datrys.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw cyfraniad y Cyfarwyddwr a chyfraniad y partneriaethau hyn yn cael effaith ar atebolrwydd y Cyfarwyddwr i Gyngor Sir Ynys Môn mewn unrhyw ffordd nac yn gwanhau nac yn tywyllu'r cyfryw atebolrwydd rhag cyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.

**Ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau, wrth nodi ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ymateb i'r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd gan yr asesiad poblogaeth, sicrhau y mabwysiedir dull cydweithredol o gynllunio, datblygu, caffael a darparu gwasanaethau. Mae gan yr Awdurdod Lleol fforymau cyfranogi a phroses i gefnogi hyn, gan gynnwys Fforwm Cynghorau Tref a Chymyned. Ymgymerir â'r rôl hon ar y cyd gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau)

**Diogelu**

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd y rôl Diogelu: "Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu’u hesgeuluso. Fodd bynnag, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid perthnasol."

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweiniad i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith o fewn yr awdurdod lleol a chan bartneriaid perthnasol. Yn y cyd-destun hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru. Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr, mae'n bosib y gallai swyddog arall sy'n dderbyniol i'r Cyfarwyddwr ac sydd â swydd ddigon uchel fynd yn ei le. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol a sicrhau bod y Byrddau Diogelu’n arfer eu dyletswyddau diogelu’n effeithiol ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys mewn perthynas â:

- Chyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl
- Codi ymwybyddiaeth o achosion o gam-drin, esgeuluso a niweidio mewn ardal Bwrdd
- Adolygu’n rheolaidd pa mor effeithiol yw mesurau diogelu lleol
- Cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion a sicrhau bod gwersi’n cael eu dysgu ohonynt
- Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a gwaith dysgu’n ymwneud â Diogelu
- Sicrhau bod ymarferwyr ar draws pob partner diogelu’n cael hyfforddiant priodol ynghylch diogelu neu’n gallu cael gafael ar hyfforddiant o’r fath
- Sicrhau y ceir trefniadau effeithiol a ddeellir ac a hyrwyddir ar gyfer adrodd ynghylch plant ac oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu’u hesgeuluso.

Mae'r Cyfarwyddwr yn cadeirio'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Strategol). Mae’r aelodaeth yn cynnwys yr holl Benaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch-dîm Rheoli, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae gan yr Awdurdod Lleol ei Bolisi Diogelu Corfforaethol, ei Gynllun Gweithredu a'i Fframwaith Adrodd yn eu lle sy'n gosod y disgwyliadau ar bob gwasanaeth a'u hatebolrwydd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â diogelu. Cefnogir y Cyfarwyddwr yn ei rôl gan y Rheolwr Gwasanaethau ar gyfer Diogelu a Gwella Ansawdd. Ei rôl ef/hi yw rhoi cyngor i'r Cyfarwyddwr ar bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae gan bob gwasanaeth arweinydd diogelu sy'n aelod o'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (gweithredol). Ceir atebolrwydd am faterion gweithredol wrth ymdrin ag achosion unigol trwy reolaeth llinell uniongyrchol y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a’r Pennaeth Gwasanaethau Plant.

Bob blwyddyn bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn nodi ei amcanion Diogelu ar gyfer y flwyddyn a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn ei Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth. Ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau y caiff hyn ei gymhwyso'n gyson yn y Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar y mater hwn. Bob chwarter bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn adolygu ei gynnydd mewn perthynas â chyflwyno ei Gynlluniau Darparu Gwasanaeth, gan gynnwys yr amcanion Diogelu.

Ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau y caiff hyn ei gymhwyso'n gyson, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar y mater hwn. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu sicrhau ei hun o gadernid y trefniadau diogelu sydd ar waith.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Aelodau Etholedig, o leiaf bob blwyddyn, ar weithredu, monitro a gwella systemau diogelu plant ac oedolion o fewn yr awdurdod lleol.

**Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddigonol ei nifer a bod ganddo'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddiwallu anghenion pobl yn ardal yr Awdurdod. Mae cael gweithlu o'r fath yn ei le yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac i gyflawni cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod. Rhaid i'r Cyfarwyddwr weithio gydag eraill, ac yn bwysig gyda phennaeth adnoddau dynol, i sicrhau bod gan yr Awdurdod Strategaeth Gweithlu sy'n adlewyrchu'r anghenion a'r amgylchiadau penodol sy'n gysylltiedig â gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn arbennig â'r farchnad sy'n ymwneud â gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr.

Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl arweinyddiaeth strategol i hyrwyddo safonau uchel ar draws y gweithlu gofal a chymorth, gan gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod Bwrdd Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau bod cynllun gweithlu sector cyfan ar waith. Mae gan y Cyfarwyddwr rôl allweddol wrth hyrwyddo dysgu gweithlu cydweithredol trwy rwydweithiau a pherthynas â chyrff eraill, gan gynnwys Prifysgol Bangor. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol), sicrhau fod gan yr Awdurdod Lleol Strategaethau Gweithlu yn eu lle ar gyfer Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr sicrhau bod gan yr awdurdod lleol bolisïau hollgyffredinol ynghylch personél a gwaith recriwtio diogel, sy'n ategu'r angen am weithlu gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol, gan gynnwys yr angen i sicrhau'r gallu i ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaethau'n darparu arweinyddiaeth strategol i sicrhau y caiff gofynion *Mwy na Geiriau* eu bodloni.

Rhaid i’r Cyfarwyddwr gynghori cynghorwyr, partneriaid a darparwyr eraill os yw diffygion o ran y gweithlu’n rhwystro capasiti’r awdurdod lleol i gyflawni cyfrifoldebau statudol, a rhaid iddo nodi’r camau gweithredu sy’n angenrheidiol i gywiro’r diffygion hynny.
Rhaid i'r Cyfarwyddwr hefyd ragweld newidiadau yn y cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol ar draws y sector wrth i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol ehangach newid, gan gynnwys effaith datblygiadau mawr a newidiadau deddfwriaethol.

**Adroddiad Blynyddol**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y modd y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael eu harfer. Rhaid i’r adroddiad blynyddol hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a rhaid iddo werthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt y flwyddyn honno a rhaid iddo gynnwys y gwersi a ddysgwyd. Dyma adroddiad yr Awdurdod ar berfformiad a rhaid iddo hefyd esbonio sut mae swyddogaethau ehangach yr Awdurdod, megis addysg, tai, hamdden a thrafnidiaeth wedi cyfrannu at gyflawni deilliannau llesiant unigolion a sut byddant yn cyfrannu yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd nodi amcanion mewn perthynas â hybu llesiant pobl y mae angen arnynt o ran gofal a chymorth, a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt, am y flwyddyn i ddod. Rhaid i brif swyddogion eraill gyfrannu at yr Adroddiad o'u meysydd cyfrifoldeb. Rhaid i'r Adroddiad:

- Rhoi sicrwydd fod trefniadau strwythurol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn gryf
- Rhoi sicrwydd fod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol
- Rhoi sicrwydd fod trefniadau diogelu’n gryf
- Gwybodaeth am ymdrin â chwynion ac am y gwersi a ddysgwyd ohonynt
- Rhoi ymateb i unrhyw arolygiadau
- Gweithredu Fframwaith Strategol y Gymraeg yr Awdurdod, "Mwy Na Geiriau"

Mae’r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr Adroddiad yn adlewyrchu:

- Barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan gynnwys plant a'u rhieni, ar sut mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol;
- Gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol statudol. Rhaid darparu hon a rhaid iddi ddangos sut y sicrhawyd hyn;
- Barn asiantaethau sy’n bartneriaid a darparwyr ar weithio mewn partneriaeth;

Rhaid i'r Adroddiad ddangos sut mae'r Cyfarwyddwr wedi ymgysylltu â phobl wrth ei gynhyrchu a sut mae'n adlewyrchu profiad defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau.

Rhaid ysgrifennu a pharatoi’r adroddiad mewn fformat hygyrch a rhaid ei gyhoeddi a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ac i Weinidogion Cymru.

**SICRHAU Y GWEITHREDIR Y PROTOCOL YN EFFEITHIOL**

Rhaid ystyried gweithrediad effeithiol y Protocol yn rheolaidd yn y cyfarfodydd a gynhelir rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Rhaid cael caniatâd i unioni diffygion yn syth a gweithredu hyn. Yn ogystal, rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Cyfarwyddwr gynnal adolygiad ffurfiol bob tair blynedd neu'n amlach os yw hyn yn angenrheidiol. Rhaid i bob adolygiad gynnwys yr uwch-dîm rheoli a rhaid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor arno fel y gellir gwneud unrhyw newidiadau y gallai bod eu hangen i gryfhau'r Protocol.

**Cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel y nodir yn rhan 8 para 91 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 wrth benodi neu ddynodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1.

**Atodiad 1**

**Cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol (Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)**

Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol iddo oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi dangos y gyfres lawn o gymwyseddau rhyngberthynol sy'n diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan y swyddogaeth. Yn gyffredinol, mae'r cymwyseddau hyn yn gyson â Model Ymddygiad Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

**Rhinweddau Craidd**

**Hunanymwybyddiaeth a dysgu**

- y gallu i ddangos gweledigaeth, creadigrwydd, hyblygrwydd, blaengaredd a deallusrwydd emosiynol gan fabwysiadu agwedd eangfrydig at gyfleoedd dysgu a datblygu ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer pobl eraill

- ymrwymiad i sicrhau bod pob gwasanaeth a phob person ar draws pob sector sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn datblygu'n barhaus

**Awydd i sicrhau canlyniadau a chydnerthedd**

- profiad sylweddol ym maes rheoli a darparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol
- gwybodaeth am gyd-destun deddfwriaethol a strwythurol gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- parodrwydd i'w ddwyn ei hun i gyfrif, a dwyn pobl eraill i gyfrif, am y modd y caiff canlyniadau eu cyflawni

## Gweithio yn y dyfodol

### Hyrwyddo blaengaredd a newid

- y gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol gref, a'r gallu i sicrhau ac ysbrydoli newid a gwelliant drwy fod yn ddylanwadol, bod yn agored a chyfathrebu'n effeithiol

- y gallu i gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth

### Cyfeiriad Strategol

- gwybodaeth a phrofiad ym maes cynllunio a datblygu'r gweithlu, a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gweithlu effeithiol ym mhob sector

- y gallu i ddwyn pobl a gwasanaethau i gyfrif drwy sicrhau bod llif a systemau gwybodaeth, llinellau adrodd a dulliau archwilio proffesiynol ac archwilio rheolaeth ar waith

## Cydweithio ag eraill

### Meithrin cydweithredu a phartneriaeth

- y gallu i hyrwyddo dulliau effeithiol o weithio mewn partneriaeth, gan gyfrannu at ddatblygu atebion cydweithredol a lunnir ar y cyd rhwng y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n gwneud yn fawr o arbenigedd ac adnoddau

- y gallu i wneud penderfyniadau strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol mewn modd cydweithredol

- y gallu i fod yn hyblyg ac yn barod i addasu wrth arwain, a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau

**Sgìl ac ymwybyddiaeth wleidyddol**

- dealltwriaeth o weithio, a phrofiad o weithio, ar lefel uwch mewn cyd-destunau gwleidyddol cenedlaethol a lleol sy'n atebol i'r cyhoedd

- gwybodaeth dda am amgylchedd gweithredol mudiadau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth

**Cyflawni**

**Canolbwyntio ar ddinasyddion a gwerth**

- sicrhau bod yr awdurdod lleol a phob partner yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n ceisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth

- darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth gofal a chymorth yn cael ei ddylunio a'i ddarparu mewn partneriaeth â dinasyddion a'i fod yn canolbwyntio ar alluogi dinasyddion i sicrhau eu llesiant eu hunain

- dangos sgiliau ardderchog o safbwynt rheolaeth ariannol yng nghyswllt cyllideb yr awdurdod lleol a chyllidebau a rennir

**Rhannu Arweinyddiaeth**

- y gallu i ddangos arweinyddiaeth a gaiff ei thywys gan werthoedd er mwyn sicrhau ymrwymiad staff a rheolwyr ar bob lefel i gynnal safonau uchel ac arfer da, drwy eu grymuso i ddangos uchelgais a chymryd cyfrifoldeb

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Medi, 2018** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J Williams**<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | R K Rowlands<br>**2822**<br>**rkrpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Fod yr Awdurdod yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac yn gweithredu'r cynllun datblygu.

<u>Crynodeb Gweithredol</u>

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gan Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i sefydlu dull o adfywio Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor. Mae datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol newydd sydd yn egluro rolau a chyfrifoldebau holl randdeiliaid y Cyngor wedi bod yn ffrwd gwaith allweddol ar lefel uwch swyddogion. Mae diwygio rôl Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch fel eu bod yn fwy gweithredol o ran gwella iechyd a diogelwch yn newid arwyddocaol yn y trefniadau.

Cofnodwyd cyfanswm o 1322 o ddigwyddiadau, 111 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y ffigwr hwn yn cynnwys disgyblion, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd. Cofnodwyd cyfanswm o 249 digwyddiad ar gyfer gweithwyr yn unig. Roedd hyn 46 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynir dadansoddiad o'r mathau o ddigwyddiadau yn yr adroddiad. Lle digwyddodd tueddiadau neu batrymau digwyddiadau felly fe wnaed gwaith i leihau'r risg. Dylai hyn fod wedi cynorthwyo gyda'r gostyngiad mewn digwyddiadau. Mae hon yn broses barhaus.

Adroddwyd cyfanswm o 20 digwyddiad i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn unol â gofynion RIDDOR. Darparwyd adroddiadau ar bob digwyddiad i'r HSE. Ni chymerodd yr HSE unrhyw gamau dilynol a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwaith a wnaed i atal ail-ddigwyddiad

Darparwyd cyfanswm o 92 o gyrsiau hyfforddi byr mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch gyda 892 o aelodau staff yn mynychu.

Gwnaethpwyd gwaith partneriaeth gyda'r chwe Thîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng

| |
|---|
| Ngogledd Cymru a derbyniwyd gwybodaeth gan WLGA i gynorthwyo ffrydiau gwaith Iechyd a Diogelwch. Mae Cyngor Gwynedd wedi darparu cefnogaeth Iechyd Galwedigaethol a Hyfforddiant.<br><br>Darparwyd gwybodaeth i gynorthwyo'r HSE. Ni chafwyd dim ymyrraeth gan HSE yn 2017/18. Darparodd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 336 o ymyriadau gweithredol er mwyn cynorthwyo gyda materion Iechyd a Diogelwch. Cyflwynwyd bwletin Iechyd a Diogelwch misol fel modd o godi ymwybyddiaeth. Datblygwyd Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i wella safonau Iechyd a Diogelwch yn yr Awdurdod. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gwneud dim – diystyrwyd yr opsiwn hwn gan y gallai roi'r argraff nad yw'r awdurdod yn rhoi ystyriaeth i Iechyd a Diogelwch ac na fyddai'n cefnogi'r gwaith sydd wedi cael ei wneud. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith ystyried trefniadau a pherfformiad Iechyd a Diogelwch. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydy |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Adroddiad cytunedig |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Darparwyd gwybodaeth am Hyfforddiant a Iechyd Galwedigaethol |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Gweithredu gan yr HSE yn erbyn yr awdurdod |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2017/18<br>Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2017/18

# Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Rheolaeth Gorfforaethol | 2 |
| 3 | Gwybodaeth Ystadegol | 3 |
| 4 | Partneriaethau | 8 |
| 5 | Ymgynghoriad ar y Cyd | 8 |
| 6 | Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol | 9 |
| 7 | Prif Gyflawniadau | 9 |
| 8 | Perfformiad Diogelwch | 10 |
| 9 | Cynllun Gweithredu Strategol | 10 |
| 10 | Casgliad | 11 |
| 11 | Cynllun Datblygu | 12 |


## 1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Perfformiad Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau'n cynnwys cyfres o benawdau fel cyfrwng i adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch. Nid bwriad y fframwaith hwn oedd darparu dadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond yn hytrach dylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan CLlLC.

Dros nifer o flynyddoedd gwelwyd newid sylweddol yn strwythur rheoli'r awdurdod a gostyngiad sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i'r cyngor. Bu'n rhaid wrth gryn ymdrech i gynnal perfformiad cyson a cheisio gwella perfformiad o dan yr amgylchiadau hynny.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol

Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd ac maent wedi bod yn allweddol o ran sefydlu dulliau llywodraethu newydd. Yng nghyfarfodydd rheolaidd yr UDA ystyriwyd adroddiadau ar faterion cyfredol a'r posibilrwydd o gyflwyno dulliau gweithio newydd. Mae hynny'n sicrhau fod gan yr UDA drosolwg o reolaeth y cyngor.

Dylai cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Penaethiaid sicrhau fod unrhyw faterion yn cael eu huwchgyfeirio i'r UDA er mwyn sicrhau fod camau priodol yn cael eu cymryd i ddatrys problemau, boed y materion hynny'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ai peidio.

Mae cyfansoddiad y cyngor yn nodi cyfrifoldebau o fewn y strwythur rheoli. Yn ystod 2017/18 datblygwyd fersiwn diwygiedig o'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r polisi diwygiedig yn nodi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch pellach. Cyn hynny roedd y cyfrifoldebau'n cael eu nodi yn y Ddogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn datgan bwriad y cyngor i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a'r dulliau er mwyn cyflawni hynny. Mae nodi rolau a chyfrifoldebau yn y Polisi Iechyd a Diogelwch yn symleiddio'r modd o gyflwyno'r wybodaeth.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar y Porth Polisi Corfforaethol ac mae'n orfodol i bob aelod o staff ddarllen a derbyn y cynnwys. Dylai hynny sicrhau ymwybyddiaeth lwyr o'r cynnwys ac atgyfnerthu ymhellach rolau a chyfrifoldebau'r holl staff.

Mae'r gwaith Adolygu Perfformiad yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau busnes blynyddol sy'n cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan yr UDRh. Mae hynny'n fodd o sicrhau atebolrwydd ar draws y cyngor gyda thargedau ac amcanion yn cael eu nodi yn y cynlluniau busnes.

Yn ystod 2017/18 datblygwyd Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'w weithredu gan y Gwasanaethau. Cynhaliwyd nifer sylweddol o gyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr, aelodau'r Tîm AD ac aelodau'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddatblygu Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a dogfennau cefnogol.

Tra bod y dogfennau uchod yn cael eu datblygu, roedd disgwyl i'r Gwasanaethau ddatblygu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth unigol a ddylai liniaru mwyafrif y risgiau yn y Gwasanaethau unigol.

## 3 Gwybodaeth Ystadegol


Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau gafodd eu hadrodd yn ystod 2017/18. Dosberthir damweiniau a digwyddiadau yn fewnol i dri chategori, sef Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mân ddamweiniau a digwyddiadau yw damweiniau / digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu'r golled yn arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafwyd unrhyw niwed neu golled a lle na fyddai'r canlyniad posib yn sylweddol petai niwed neu golled wedi digwydd.

Damweiniau / digwyddiadau difrifol lle'r oedd y canlyniad wedi arwain at niwed neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o niwed neu golled sylweddol. Mae hyn yn cynnwys damweiniau neu ddigwyddiadau lle na chafwyd niwed neu golled ond lle byddai'r canlyniad posib yn sylweddol petai niwed neu golled wedi digwydd.

Damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yw damweiniau neu ddigwyddiadau oedd yn cwrdd â meini prawf penodol ac yr oedd rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn eu cylch. Cynhwysir y meini prawf ar gyfer adrodd ar fathau o ddamweiniau a digwyddiadau yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a digwyddiadau ar gyfer yr awdurdod yn ei gyfanrwydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau oedd yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr a chyfleusterau yn ogystal â gweithwyr.





**Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2017/18**

**Cyfanswm 1322**

**Mân 1128**

**Difrifol 174**

**RIDDOR 20**




**Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2016/17**


**Cyfanswm 1433**

**Mân 1221**


**Difrifol 196**

**RIDDOR 16**

Mae’r tablau isod yn cyflwyno nifer y damweiniau a digwyddiadau oedd yn ymwneud â gweithwyr yn unig.




| Cyfanswm y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
|---|
| Cyfanswm 249 |
| Mân 195 |
| Difrifol 43 |
| RIDDOR 11 |




| Cyfanswm y Digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
|---|
| Cyfanswm 295 |
| Mân 253 |
| Difrifol 35 |
| RIDDOR 7 |

Mae'r tabl isod yn rhestru'r mathau o ddigwyddiadau a gafwyd. Mae'r rhestr yn dilyn trefn esgynnol, gan ddechrau gyda'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn 2017/18. Cyflwynir nifer y digwyddiadau cyffelyb yn 2017/18 yng ngholofn 3 y tabl.

| Mathau o Ddigwyddiadau | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Colli Cydbwysedd | 184 | 148 |
| Damwain/digwyddiad ar yr Iard (ysgolion) | 155 | 193 |
| Llithro, Baglu, Disgyn, ar yr un lefel | 136 | 248 |
| Math arall o ddamwain | 124 | 90 |
| Ymosodiad Corfforol gan berson (ymddygiad heriol) (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion) | 103 | 56 |
| Taro gwrthrych sefydlog neu ddisymud | 88 | 113 |
| Colli Eiddo neu Ddifrod i Eiddo | 72 | 57 |
| Digwyddiad Treisgar (cam-drin, aflonyddu) | 53 | 73 |
| Disgyn allan o'r gwely (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid) | 50 | 22 |
| Cael eu taro gan wrthrych sy'n symud/hedfan | 47 | 58 |
| Ymosodiad Corfforol gan berson | 45 | 37 |
| Cyflwr Meddygol | 42 | 34 |
| Damwain Chwaraeon (Digwyddiadau hamdden, gweithgareddau chwaraeon) | 22 | 47 |
| Ymddygiad Heriol (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion) | 21 | 17 |
| Disgyn oddi ar Gadair/Desg (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion) | 21 | 33 |
| Cael anaf wrth Drin a Chodi ac ati | 20 | 26 |
| Anaf ar Ochr y Pwll (Digwyddiadau hamdden, gweithgareddau chwaraeon) | 16 | 18 |
| Disgyn o uchder llai na 2m | 16 | 30 |
| Damwain Addysg Gorfforol (ysgolion) | 15 | 15 |
| Digwyddiad Treisgar (cam-drin, aflonyddu, anableddau dysgu) (digwyddiadau'n ymwneud â chleientiaid a disgyblion) | 15 | 5 |
| Damwain fu bron â digwydd | 13 | 13 |
| Methiant gan Reolwyr | 13 | 27 |
| Dod i gysylltiad â sylwedd niweidiol | 10 | 8 |
| Disgyn oddi ar offer chwarae (ysgolion) | 7 | 6 |
| Llosgi | 7 | 9 |
| Dod i gysylltiad â pheiriannau yn symud | 6 | 7 |
| Gwydr/Offer Miniog | 6 | 14 |
| Hunan Niweidio | 4 | 6 |
| Amgylchiadau Annymunol | 3 | 2 |
| Cael eu Taro gan Gerbyd yn Symud | 3 | 7 |
| Disgyn o uchder dros 2m | 2 | 1 |
| Dod i gysylltiad â Thrydan | 1 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Dod i gysylltiad â thân | 1 | 1 |
| Cael anaf gan anifail | 1 | 7 |

**Noder** fod dau fath ychwanegol o ddigwyddiad yn 2016/17 ac un digwyddiad yr un wedi'i gofnodi ar eu cyfer:
Disgyn o gerbyd
Ymosodiad Corfforol (ymddygiad rhywiol)

**Dadansoddiad o Data Digwyddiadau**

Roedd y data am ddigwyddiad a ddarparwyd uchod wedi'i ddadansoddi i nodi materion posibl y gallai fod angen sylw arnynt. Roedd gwaith blaenorol gyda'r Gymuned yn nodi bod cwympiadau o fewn yr adran ofal fel mater o bwys, digwyddiadau Colli Balans oedd y math o ddigwyddiad a gofnodwyd fwyaf. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn adrodd / cofnodi o'r digwyddiadau hyn. Pan fydd y digwyddiadau hyn yn digwydd, cynhelir asesiadau risg cleient penodol.

Dynodwyd digwyddiadau maes chwarae a baglu, llithro a chwympiadau fel y nifer uchaf o ddigwyddiadau nesaf. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â digwyddiadau yn yr ysgol lle roedd gan ddisgyblion fân ddigwyddiadau ond roedd gofyn iddynt gael eu cofnodi.

Roedd pedwar categori ar gyfer y math o ddigwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol a allai gael eu hystyried yn y nifer uchaf o ddigwyddiadau sy'n effeithio ar weithwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer systemau i gynorthwyo â lleihau'r ffigurau hyn.

Lle mae digwyddiadau tebyg yn digwydd o fewn cyfnod byr o amser, gwneir gwaith i atal neu leihau'r risg ar lefel leol.

Roedd 20 digwyddiad a adroddwyd i'r HSE yn ofyniad RIDDOR. Darparwyd adroddiadau ar bob digwyddiad. Ni chymerodd yr HSE unrhyw gamau dilynol a fyddai'n nodi na chafwyd unrhyw faterion gyda'r trefniadau gweithio.

**Hyfforddiant**

Isod, ceir crynodeb o sesiynau hyfforddiant seiliedig ar sgiliau ar gyfer staff y Cyngor Sir yn ystod cyfnod yr adroddiad. Trefnir yr hyfforddiant yn dilyn derbyn yr anghenion a nodwyd gan y Gwasanaethau. Mae'r holl ddarparwyr hyfforddiant wedi cael eu hachredu ac yn gymwys i gyflwyno cyrsiau penodol ac, o dan rai amgylchiadau, eu teilwra er mwyn diwallu anghenion y sefydliad. Mae adborth staff yn gyson ac yn adlewyrchu safon y ddarpariaeth ar draws nifer o wasanaethau.

| **Math o Gwrs** | **Nifer Sesiynau** | **Nifer o Ymgeiswyr** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth Asbestos | 2 | 28 |
| Hylendid Bwyd Sylfaenol | 9 | 84 |
| Ymwybyddiaeth COSHH | 1 | 24 |
| Aseswyr DSE | 2 | 25 |
| Cymorth Cyntaf Mewn Argyfwng (Diwrnod Cyfan) | 10 | 58 |

| | | |
|---|---|---|
| Marsial Tân | 8 | 56 |
| Diogelwch Tân | 2 | 17 |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod) | 2 | 13 |
| Hyfforddiant Diweddaru Cymorth Cyntaf (2 ddiwrnod) | 5 | 38 |
| Ymwybyddiaeth Rheoli Haint | 2 | 46 |
| Cwrs Diweddaru IOSH | 1 | 9 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Staff | 5 | 41 |
| Lles Meddyliol yn y Gwaith ar gyfer Rheolwyr | 3 | 23 |
| Meddyginiaeth - un diwrnod | 5 | 62 |
| Cymorth Cyntaf i Blant | 1 | 7 |
| Pasbort Trin â Llaw A-B<br>Modiwl A – Cyflwyniad<br>Modiwl B – Trin llwyth difywyd a defnydd ymarferol o ergonomeg | 7 | 89 |
| Pasbort Trin â Llaw A-F<br>A a B – Gweler uchod<br>Modiwl C – Eistedd, sefyll a cherdded<br>Modiwl D – Symudedd yn y Gwely<br>Modiwl E – Trosglwyddiad Ochrol<br>Modiwl F – Defnyddio Offer Codi | 5 | 43 |
| Diweddaru'r Pasbort | 4 | 29 |
| Trais Lefel 1 a 2 | 5 | 70 |
| Trais Lefel 3 | 12 | 114 |
| Gweithio ar Uchder | 1 | 16 |

Cydweithiwyd â thîm Iechyd a Diogelwch Gwynedd er mwyn darparu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel ac IOSH Arwain yn Ddiogel a gynhaliwyd mewn ysgolion yn Ynys Môn.

## 4 Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Cyfarfu Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru unwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd dau swyddog o'r Sir yn bresennol i adrodd ar ddigwyddiadau RIDDOR CSYM yr oedd rhaid eu hadrodd i'r HSE. Roedd eitemau eraill ar y rhaglen yn cynnwys Dirgryniad Llaw a Braich, Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a thrafodaeth ar yr arolygiaeth ysgolion ynglŷn â materion iechyd a diogelwch. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn. Er na chynhelir cyfarfodydd rheolaidd, mae'r timau'n cyfathrebu â'i gilydd ar nifer o faterion. Fel arfer mae hynny'n golygu codi ymwybyddiaeth am broblemau posib neu gyflwyno ceisiadau am gyngor ynglŷn ag arfer orau.

Yn ogystal, cydweithiwyd â Thimau Iechyd a Diogelwch Cynghorau Conwy a Gwynedd, y gwasanaethau addysg a hamdden mewn perthynas â datblygu Arfer Ddiogel o ran Polisi Nofio Ysgolion, Canllawiau a Gweithdrefnau.

**CLlLC**

Darparodd CLlLC wybodaeth i holl Awdurdodau Cymru ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch.

**Contractwyr**

Mae nifer o gontractau tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd rheoli rheolaidd gyda'r contractwyr er mwyn adolygu perfformiad y contract, yn cynnwys Iechyd a Diogelwch.

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)**

Roedd materion iechyd yn flaenoriaeth yng ngwaith yr HSE. Yn sgil hynny dull gweithredu'r HSE oedd gofyn i'r holl Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth am ddulliau rheoli Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS). Darparwyd gwybodaeth i'r HSE am ddulliau rheoli ar gyfer gweithwyr uniongyrchol a chontractwyr pan ofynnwyd am yr wybodaeth honno.

## 5 Ymgynghoriad ar y Cyd

**Grŵp Iechyd a Diogelwch**

Yn hanesyddol roedd y Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod gyda'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cadeirio ar y cyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy. Mae'r grŵp yn cynnwys Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch o holl wasanaethau'r cyngor. Roedd cynrychiolwyr undeb yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd.

O ganlyniad i adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch rhoddwyd mwy o gyfrifoldebau i'r Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch a dylai hynny olygu fod cyfarfodydd y grŵp yn fwy pwrpasol.

Mae'r Polisi'n disgwyl i gynrychiolwyr Undeb fod yn bresennol yn y cyfarfod a dylai hynny ganiatáu i'r cyngor ymgynghori â'r Undebau ar faterion Iechyd a Diogelwch.

Mae Adnoddau Dynol yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori rheolaidd gyda'r Undebau er mwyn trafod Polisïau a Gweithdrefnau.

## 6 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Ar hyn o bryd mae Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol yn cael ei ddarparu o dan gytundeb gyda Chyngor Gwynedd ac mae gweithwyr Iechyd Galwedigaethol cymwys yn ymweld â swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni i gynnal cymorthfeydd, profion iechyd, ac ati. Yr adain AD sy'n rheoli'r contract ac mae'n cydymffurfio ag arferion caffael safonol. O dan amodau'r ddarpariaeth, disgwylir fod achosion sy'n ymwneud â materion Cyhyrysgerbydol neu absenoldeb salwch oherwydd Straen yn cael eu cyfeirio ar unwaith.

Mae materion perfformiad a phroblemau'n cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng y Darparwr ac AD.

## 7 Prif Gyflawniadau

### Polisi Iechyd a Diogelwch

Dylai datblygu Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, sy'n cynnwys rôl ddiwygiedig ar gyfer y Cydlynydd Iechyd a Diogelwch, gynorthwyo i ddatblygu trefniadau rheoli a monitro Iechyd a Diogelwch. Mae hwn yn newid sylweddol o ran rheoli Iechyd a Diogelwch o fewn y cyngor. Mae datblygu'r Polisi, Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch a chanllawiau i gefnogi hynny wedi bod yn gyflawniad allweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

### Caffael

Yn y gorffennol mae Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch wedi nodi'r angen i ystyried Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod caffael. Mae swyddogaeth y tîm caffael wedi datblygu dros amser ac mae ganddynt rôl ragweithiol o ran safonau iechyd a diogelwch.

Ar hyn o bryd y Tîm Caffael sy'n gyfrifol am y gyllideb ar gyfer prynu offer swyddfa er mwyn cynorthwyo i sicrhau fod offer addas yn cael ei brynu fel bod materion iechyd a diogelwch yn cael sylw.

### Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ar hyn o bryd mae HSE wedi nodi Iechyd a Chlefydau Galwedigaethol fel maes gwaith y bydd Arolygwyr yn canolbwyntio arno. Yn 2017/18 cafwyd un RIDDOR o ganlyniad i Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS). Cynhaliwyd ymchwiliad mewnol a pharatowyd adroddiad. Gofynnodd yr HSE am yr adroddiad fel cam dilynol i'r adroddiad digwyddiad RIDDOR. Hyd yn hyn ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau pellach gan HSE am wybodaeth ynglŷn â'r achos hwnnw.

Gan na chafwyd unrhyw geisiadau dilynol, ni fu dim ymyrraeth gan yr HSE yng ngwaith y cyngor yn ystod 2017/18. Mae cynnal gwaith y cyngor heb unrhyw ymyrraeth gan yr HSE i'w ystyried fel llwyddiant arwyddocaol.

### Bwletinau Misol

Cyflwynwyd bwletinau Iechyd a Diogelwch misol yn ystod 2017/18. Pwrpas y bwletinau oedd codi ymwybyddiaeth am bynciau ym maes iechyd a diogelwch, risgiau posib a'r camau angenrheidiol i leihau'r risgiau.

## 8 Perfformiad Diogelwch

Cynhaliodd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol archwiliadau ac ymyriadau er mwyn cynorthwyo i fonitro a gwella safonau Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor. Mae'n ofynnol i sefydliadau adrodd ar ddigwyddiadau penodol i'r HSE. Pennir terfynau amser ar gyfer adrodd ac ymateb i'r mathau hyn o ddigwyddiadau. Dangosydd perfformiad ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yw ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR o fewn pum niwrnod.

Isod cyflwynir gwybodaeth am archwiliadau ac ymyriadau gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR.

| | Ch. 1 | Ch. 2 | Ch. 3 | Ch. 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar safleoedd y Cyngor | 90 | 72 | 89 | 85 | 336 |
| Canran yr ymatebion i ddamweiniau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 niwrnod | 6/6 | 4/4 | 4/4 | 6/6 | 20/20 |

## 9 Cynllun Gweithredu Strategol

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fydd yn cael ei roi ar waith. Mae'r cynllun yn cynnwys chwe phennawd.

**Polisïau, Trefniadaeth a Threfniadau**

Y Canlyniadau a Ddymunir: egluro Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch ar bob lefel yn y sefydliad. Diben hyn yw sicrhau fod gweithgareddau pawb sydd ynghlwm â rheoli iechyd a diogelwch yn eglur ac yn cael eu cydlynu'n effeithiol. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ymrwymiad CSYM i iechyd a diogelwch a chyfleu hynny a gwella diwylliant iechyd a diogelwch.

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig yn nodi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn strwythur y Cyngor.

**Cymhwysedd Iechyd a Diogelwch**

Y Canlyniadau a Ddymunir: sicrhau fod gan y Cyngor staff cymwys i nodi a rheoli risgiau a bod tystiolaeth o'r cymhwysedd hwnnw'n bodoli ar bob lefel drwy'r Cyngor o'r UDA i lawr, drwy ddarparu hyfforddiant â chymorth a chyfleoedd datblygu.

Adolygwyd, diwygiwyd a diweddarwyd y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol er mwyn darparu canllawiau clir ar y safonau cymhwysedd disgwyliedig mewn perthynas â hyfforddiant iechyd a diogelwch ar draws y cyngor.

**Proffilio Risg**

Y Canlyniadau a Ddymunir: sicrhau fod y risgiau cywir yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu er mwyn gweithredu arnynt ac na roddir gormod o flaenoriaeth i fân risgiau a sicrhau fod mesurau rheoli risg yn seiliedig ar wybodaeth.

Ysgrifennwyd canllawiau er mwyn hysbysu'r Gwasanaethau o'r angen i gynnal asesiad proffilio risgiau ar y Gwasanaeth. Defnyddiwyd dull cyffelyb i nodi risgiau busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn y gorffennol. Mae'r Canllawiau'n rhoi enghreifftiau o risgiau posib a sut y gallent gael eu hamlygu yn y Gwasanaethau unigol.

**Adrodd ar Ddamweiniau, Digwyddiadau a Damweiniau fu bron â digwydd**

Y Canlyniadau a Ddymunir: gwella adrodd ar ddamweiniau, digwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd a chlefydau galwedigaethol a'r broses ymchwilio a monitro. Dylai hynny arwain at ganolbwyntio'n well ar iechyd a lles y gweithiwr.

Byddai hynny'n golygu adolygu'r system bresennol ar gyfer adrodd ar ddamweiniau gyda'r bwriad o nodi dulliau o wella'r system. I wneud hynny byddai'n rhaid adolygu Polisi Damweiniau, Digwyddiadau, Clefydau Galwedigaethau a Digwyddiadau fu bron â digwydd y Cyngor er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r system.

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn gysylltiedig â Gwaith a Gweithwyr ar eu Pen eu Hunain**

Y Canlyniadau a Ddymunir: rhoi trefniadau effeithiol ar waith i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â thrais ac ymddygiad ymosodol a gweithwyr ar eu pen eu hunain er mwyn darparu amgylchedd gwaith diogel. Sicrhau nad yw gweithwyr yn derbyn digwyddiadau treisgar neu ymddygiad ymosodol fel agwedd arferol o'r swydd.

Byddai hynny'n golygu adolygu'r trefniadau presennol gyda'r nod o weithredu gwelliannau posib. Treialwyd Systemau Gweithwyr ar eu Pen eu Hunain gan ddarparwyr allanol a dulliau o gofnodi risgiau posib gan y cyhoedd neu mewn mannau cyhoeddus. Darperir hyfforddiant penodol mewn perthynas â thrais ac ymddygiad ymosodol.

**Straen sy'n Gysylltiedig â Gwaith**

Y Canlyniadau a Ddymunir: rheoli risgiau yn gysylltiedig â straen sy'n gysylltiedig â gwaith yn effeithiol. Byddai hynny'n golygu mesur ac adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli straen yn y Cyngor. Mae'r Tîm Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar y maes hwn. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys cyfeirio unrhyw absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen ar unwaith, gwasanaeth cwnsela a fformat asesiad risg penodol ar gyfer straen. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyllido gwasanaeth cwnsela rhad ac am ddim a ddarperir gan ddarparwr arbenigol dwyieithog.

## 10 Casgliad

Mae Uwch Swyddogion, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi gwneud gwaith sylweddol er mwyn sefydlu dull o adfywio Iechyd a Diogelwch o fewn y cyngor.

Mae rôl y Prif Weithredwr o ran gyrru'r gwaith yn ei flaen wedi rhoi proffil uwch i Iechyd a Diogelwch ac wedi sicrhau fod y Gwasanaethau'n rhoi sylw mwy manwl i'r maes.

Dylai'r Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig sy'n nodi'n glir fod holl Aelodau a staff y Cyngor yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch arwain at wella Diwylliant Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor.

Dylai'r polisi, rôl y Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch a chyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch ar ei newydd wedd osod y sylfeini ar gyfer cynnal a gwella iechyd a diogelwch yn y cyngor.

## 11 Cynllun Datblygu

| | Gweithredu |
|---|---|
| 1 | **Parhau â'r Grŵp Iechyd a Diogelwch diwygiedig gyda'r nod o arwain gwelliannau mewn safonau iechyd a diogelwch**<br><br>**Caniatáu i'r Grŵp lunio ei raglen ei hun o ran meysydd i'w gwella** |
| 2 | **Dylid adrodd ar gynnydd Gwasanaethau o ran y camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun i'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng nghyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch.** |
| 3 | **Parhau i weithio i ddatblygu Systemau Gweithwyr ar eu pen eu Hunain a Systemau Trais ac Ymddygiad Ymosodol** |
| 4 | **Monitro presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi a drefnwyd o dan y fframwaith Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.** |

| Mater / Diffyg a Nodwyd | Camau sydd eu hangen | |
|---|---|---|
| ***i) Polisïau, Trefniadaeth a Threfniadau Iechyd a Diogelwch yn aneglur a ddim yn addas i bwrpas yn dilyn ad-drefnu***<br><br>***Canlyniadau a ddymunir:***<br>*- Cyfrifoldebau IaD yn cael eu hegluro ar bob lefel yn y sefydliad.*<br>*- Gweithgareddau pawb sy'n ymwneud â rheoli iechyd a diogelwch yn eglur ac wedi eu cydlynu'n dda.*<br>*- Staff yn gwybod fod CSYM wedi ymrwymo i IaD.*<br>*- Mae materion IaD yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.*<br>*- Diwylliant IaD yn gwella.* | 1 | Adolygu'r polisi iechyd a diogelwch *(Sicrhau fod swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn cael eu diffinio'n glir o fewn y sefydliad)* |
| | | Y Prif Weithredwr, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo a gweithredu'r Polisi |
| | | Sicrhau fod y Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei gyfathrebu i bob gweithiwr *(Trwy gyfrwng disgrifiadau swydd, Monitor, Y Ddolen, y Porth Polisi, cyfarfodydd tîm, arddangos copi mewn ystafelloedd staff ayb)* |
| | | Sicrhau fod datganiad polisi yn cael ei arddangos ym mhob gweithle |
| | | Cynnal archwiliad yn erbyn y polisi |
| | 2 | Adolygu'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch *(Sicrhau fod Polisi IaD yn cael ei adlewyrchu'n glir a bod sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn angen craidd)* |
| | | Sicrhau fod y Strategaeth IaD diwygiedig yn cael ei chyfathrebu i bob gweithiwr *(Monitro, Y Ddolen)* |
| | 3 | Dod â'r Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ben *(Sefydlu Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, gyda chyfrifoldeb strategol am IaD a Grwpiau Gwaith IaD a Chynllunio Argyfwng Gwasanaeth – dylid uwchgyfeirio eitemau nad oes modd eu rheoli o fewn y gwasanaeth i'r Pwyllgor IaD Corfforaethol)* |
| | | Llunio Cylch Gorchwyl ar gyfer y ddau grŵp *(Fel gofyniad sylfaenol, dylai grwpiau fonitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a chynlluniau gweithredu; trafod canlyniadau monitro ac archwiliadau IaD a chynllunio argyfwng; astudio ystadegau a thueddiadau damweiniau a chlefydau hysbysadwy fel bod adroddiadau'n cael eu llunio ynglŷn ag amodau ac arferion anniogel neu afiach a chynnwys argymhellion ar gyfer camau cywiro; adolygu adroddiadau/gwybodaeth a ddarparwyd gan y Tîm IaD a'r cynrychiolydd cynllunio argyfwng; adolygu effeithiolrwydd iechyd a diogelwch a chynllunio argyfwng; hyfforddiant ynglŷn â materion iechyd a diogelwch a chynllunio argyfwng a chyfathrebu gyda gweithwyr/contractwyr)* |
| | | Sicrhau aelodaeth briodol ar bob grŵp *(Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth roi'r grym i gynrychiolwyr wneud newidiadau o fewn eu meysydd gwasanaeth)* |
| | | Cyfathrebu'r newid, pwrpas y ddau grŵp a'u pwysigrwydd i bob gweithiwr |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | Sicrhau fod y grwpiau'n cyfarfod bob chwarter |
| | | Aelodau'r Pwyllgor IaD i sicrhau fod materion iechyd a diogelwch yn cael eu hymgorffori yn eu prosesau cynllunio busnes ac y gweithredir arnynt yn briodol |
| | 4 | Nodi'r Polisïau Corfforaethol ychwanegol sydd angen eu haddasu er mwyn adlewyrchu newid mewn dulliau gweithio a gofynion deddfwriaethol (dylid gwneud hyn drwy sefydlu cynllun adolygu) |
| | | Polisïau corfforaethol diwygiedig i'w gosod ar y Porth Polisi yn dilyn eu cymeradwyo. *(Sicrhau fod gweithgareddau risg uchel yn cael eu rhoi ar y system 'clicio i dderbyn')* |
| | | Pennaeth Gwasanaeth i nodi meysydd y mae angen polisïau Iechyd a Diogelwch ar lefel gwasanaeth ar eu cyfer *(Pwy sy'n gwneud beth, yn lle a sut mewn perthynas â dulliau gwaith – bydd hynny'n caniatáu clustnodi adnoddau digonol ar lefel gwasanaeth)* |
| ***ii) Cymhwysedd Iechyd a Diogelwch***<br><br>***Canlyniadau a ddymunir:***<br>*- Y Cyngor yn meddu ar staff cymwys i nodi a rheoli risgiau*<br>*- Tystiolaeth o gymhwysedd ar bob lefel o'r Cyngor, o'r UDA i lawr.* | 1 | Sicrhau fod y Prif Weithredwr a Phenaethiaid Gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant digonol i sicrhau eu bod yn gymwys mewn perthynas â'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch ***(Sicrhau eu bod yn mynychu cwrs Arwain yn Ddiogel IOSH)*** |
| | 2 | Sicrhau fod Rheolwyr Llinell, Penaethiaid, Goruchwylwyr a Chydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn derbyn hyfforddiant digonol i sicrhau eu bod yn gymwys mewn perthynas â'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch ***(Sicrhau eu bod yn mynychu cwrs Rheoli yn Ddiogel IOSH)*** *(Yn syml, person cymwys yw person sy'n meddu ar y cymhwysedd i ymgymryd â thasg benodol yn ddiogel. Mewn termau cyffredinol, diffiniad person cymwys yw rhywun sy'n meddu ar y sgiliau, profiad a gwybodaeth angenrheidiol i reoli iechyd a diogelwch, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)* |
| | 3 | Sicrhau fod pob gweithiwr yn derbyn sesiwn gynefino ar lefel gwasanaeth yn ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â'u swydd a'u gweithle *(Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig)* |
| | 4 | Sicrhau fod swyddogaethau hanfodol i ddiogelwch yn cael eu nodi drwy asesiad risg ac y manylir arnynt yn y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol, sicrhau y darperir hyfforddiant priodol i'r gweithwyr hynny a bod tystiolaeth yn cael ei gadw mewn cofnodion hyfforddiant *(Disgrifir y term 'gwaith hanfodol i ddiogelwch' fel: "Lle y gall salwch unigolyn beryglu eu gallu i ymgymryd â thasg a ddiffinnir fel un hanfodol i ddiogelwch, ac o'r herwydd greu risg sylweddol i iechyd a diogelwch eraill)* |
| | 5 | Sicrhau fod Cymhwysedd Iechyd a Diogelwch yn cael ei gynnwys yn y broses werthuso *(Tîm IaD i ddarparu 'cwestiynau' i AD ar gyfer y broses werthuso)* |
| ***iii) Proffilio Risgiau*** | 1 | Ymestyn y broses rheoli risg sydd mewn lle i gynnwys natur a lefel y risg iechyd, diogelwch a lles a wynebir gan y Cyngor mewn perthynas â chynllunio busnes *(I gynnwys y tebygolrwydd y bydd effaith andwyol yn digwydd ac i ba raddau y bydd yn tarfu; hefyd ystyried y costau yn gysylltiedig â gwahanol fathau o risgiau)* |

<table>
<tr><td rowspan="4">Canlyniadau a ddymunir:<br>- Nodir y risgiau cywir a'u blaenoriaethu er gweithredu<br>- Ni roddir gormod o flaenoriaeth i fân risgiau ac mae mesurau rheoli risg yn seiliedig ar wybodaeth<br>- Mae staff yn ymwybodol o'r risgiau IaD yn y gweithle a sut maent yn cael eu diogelu<br>- Mae staff yn gwybod fod CSYM wedi ymrwymo i IaD</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>2</td><td>Rhestru risgiau gwasanaeth yn nhrefn pwysigrwydd a disgrifio'r camau a gymerwyd i'r rheoli. (I gynnwys dadansoddiad o'r bylchau)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Adolygu effeithiolrwydd y mesurau rheoli sydd mewn lle i reoli'r risgiau hynny (bydd rhai yn beryglon iechyd ar y pryd; bydd rhai yn ymwneud ag iechyd yn y tymor hir, yn llai amlwg a gallai gymryd amser i'r anhwylder gael ei amlygu)</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Llunio cynllun gweithredu yn manylu ar y camau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth / gwella meysydd lle cafodd gwendidau eu nodi drwy fesurau rheoli corfforaethol</td></tr>
<tr><td rowspan="5">iv) Adrodd am Ddamweiniau, Digwyddiadau neu Ddamweiniau fu bron â digwydd<br><br>Canlyniadau a ddymunir:<br>- Trefniadau gwell ar gyfer adrodd ar ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd ac adrodd ar glefydau galwedigaethol a<br>- Gwella'r broses ymchwilio<br>- Gwella'r broses fonitro<br>- Gwell ffocws ar iechyd a lles gweithwyr</td><td>1</td><td>Moderneiddio system y Cyngor ar gyfer adrodd a chofnodi damweiniau (Y Prif Weithredwr i sicrhau fod adnoddau digonol ar gael i wneud hyn)</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Diweddaru Polisi Damweiniau, Digwyddiadau, Clefydau Galwedigaethol a Damweiniau fu bron â digwydd y Cyngor i adlewyrchu'r system fodern</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Sicrhau fod Polisi Damweiniau, Digwyddiadau, Clefydau Galwedigaethol a Damweiniau fu bron â digwydd yn cael ei gyfathrebu i bob gweithiwr (drwy Monitor, Y Ddolen, y Porth Polisi – clicio i dderbyn)</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Cyfathrebu swyddogaethau, cyfrifoldebau a llinellau cyfathrebu'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i bob gweithiwr</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Gwella cyfathrebu rhwng y Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">v) Trais ac Ymddygiad Ymosodol Cysylltiedig â Gwaith a Gweithwyr ar eu pen eu hunain<br><br>Canlyniadau a ddymunir:<br>- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol mewn lle i reoli risgiau yn deillio o drais ac ymddygiad ymosodol a gweithwyr ar eu pen eu hunain<br>- Mae gan weithwyr amgylchedd gwaith diogel</td><td>1</td><td>Sicrhau fod asesiadau risg addas a digonol wedi eu cynnal gan ystyried grwpiau o staff a gweithgareddau, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion, ymwelwyr a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddi<br><br>(Fel gofyn sylfaenol, rhaid i asesiadau risg nodi mesurau rheoli priodol yn cynnwys: osgoi'r risg, h.y. drwy newid y ffordd y mae pobl yn gweithio; mesurau rheoli corfforol, dyluniad a chynllun adeiladau, Teledu Cylch Cyfyng a systemau larwm/cyfathrebu; hyfforddiant; strategaethau ymateb a threfniadau a gweithdrefnau diogelwch lleol, yn arbennig ar gyfer gweithwyr ar eu pen eu hunain)</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Os oes perygl y bydd unigolyn yn ymddwyn yn dreisgar/heriol, sicrhau fod asesiad unigol yn cael ei gwblhau a'i adolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses o gynllunio eu gofal/darparu'r gwasanaeth<br><br>(Fel gofyn sylfaenol, rhaid i'r asesiad ystyried cyflwr meddygol, emosiynol a chorfforol y person; effaith y cyflyrau meddygol neu effaith cymryd cyffuriau, alcohol neu feddyginiaethau; eu lefelau straen; a oes ganddynt hanes o ymddygiad heriol, treisgar neu ymosodol ac a ydynt yn ystyried bod eraill yn fygythiad)</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| *- Nid yw gweithwyr yn derbyn digwyddiadau treisiol neu ymddygiad ymosodol fel rhan arferol o'r swydd* | | |
| | 3 | Dethol, darparu adnoddau a gweithredu system monitro gweithwyr ar eu pen eu hunain<br><br>*(Sicrhau fod offer a ddefnyddir fel mesur rheoli, er enghraifft, systemau larwm a dyfeisiau gweithio ar eu pen eu hunain, yn cael eu profi'n rheolaidd a'u cynnal)* |
| | 4 | Dethol, darparu adnoddau a gweithredu system farcio ar gyfer personau y mae perygl iddynt fod yn dreisgar, gan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data |
| | 5 | Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn gysylltiedig â Thrais ac Ymddygiad Ymosodol Cysylltiedig â Gwaith a Gweithwyr ar eu pen eu hunain<br><br>*(Yn cynnwys gweithio ar eu pen eu hunain, delio gyda phobl dreisgar, gweithdrefnau i reoli risgiau o ganlyniad i ymddygiad heriol, gweithdrefnau diogelwch, trefniadau cefnogi ar gyfer staff a threfniadau cysylltu gydag eraill, yn arbennig yr heddlu)* |
| | 6 | Sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau diwygiedig yn gysylltiedig â Thrais ac Ymddygiad Ymosodol Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu cyfathrebu i bob gweithiwr *(Drwy Monitor, Y Ddolen, Porth Polisi – Clicio i Dderbyn)* |
| ***vii) Straen Cysylltiedig â Gwaith***<br><br>***Canlyniadau a ddymunir:***<br>*- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol mewn lle i reoli risgiau'n ymwneud â straen cysylltiedig â gwaith* | 1 | Adolygu polisïau a gweithdrefnau straen cysylltiedig â gwaith presennol *(Sicrhau fod Swyddogaethau a chyfrifoldebau rheolwyr, staff a gwasanaethau cefnogi megis gwasanaeth iechyd galwedigaethol/cynghorwyr addas, yn cael eu diffinio'n glir)* |
| | 2 | Sicrhau fod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cwblhau gan ddefnyddio dull Safonau Rheoli Straen Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Nodi'r hyn sy'n achosi straen cysylltiedig â gwaith ('y ffactorau sy'n achosi straen') |
| | 3 | Gweithio gyda staff i ddatblygu cynlluniau gweithredu i leihau effaith 'y ffactorau sy'n achosi straen' a nodwyd. *(Dylai cynlluniau gweithredu: flaenoriaethau camau i leihau straen; rhoi sylw i bryderon gweithwyr; caniatáu arfarnu ac adolygu – i gynnwys gwybodaeth o'r arolwg staff a gynhaliwyd yn 2016/17)* |
| | 4 | Sicrhau fod Rheolwyr yn gymwys i reoli'r risgiau sy'n deillio o Straen cysylltiedig â gwaith drwy ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant digonol iddynt |